



Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cynllun Datblygu Lleol 2011 - 2026

Adroddiad Monitro Blynyddolyunio (Hydref 2019)



Crynodeb Gweithredol	3
-----------------------------------	----------

RHAN1 - Cyflwyniad a Chefndir

1 Cyflwyniad	11
2 Y NewidCyd-destunol	15
2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol	15
2.2 Y Cyd-destun Cenedlaethol	19
2.3 Y Cyd-destun Lleol	21

RHAN 2 - Monitro'r CDLI

3 Y Strategaeth	25
3.1 Y Strategaeth	25
4 Polisiâu Trosfwaol	29
4.1 Polisi Strategol 1 Newid yn yr Hinsawdd	29
4.2 Polisi Strategol 2 Iechyd	35
4.3 Polisi Strategol 3 Cymunedau Cynaliadwy	38
4.4 Polisi Strategol 4 Seilwaith	40
5 Polisiâu Ardal	43
5.1 Polisi Strategol 5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir	43
5.2 Polisi Strategol 6 Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd	62
6 Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy	73
6.1 Polisi Strategol 7 - Gofynion Tai	73
6.2 Polisi Strategol 8 Tai Fforddiadwy	77
6.3 Polisi Strategol 9 - Sipsiwn a Theithwyr	83
6.4 Polisi Strategol 10 - Mannau Agored	85
7 Hybu Economi Gynaliadwy	89
7.1 Polisi Strategol 11- Twf Cyflogaeth	89
7.2 Polisi Strategol 12 Manwerthu	105
7.3 Polisi Strategol 13 - Twristiaeth	107

8 Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd	109
8.1 Polisi Strategol 14 - Cefn Gwlad a'r Arfordir syddheb ei Ddatblygu	109
8.2 Polisi Strategol 15 - Bioamrywiaeth a Geoamrywiaethy	112
8.3 Polisi Strategol 16 - Amddiffyn yr Amgylchedd	114
8.4 Polisi Strategol 17- Mwynau	117
8.5 Polisi Strategol 18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni CarbonIsel	121
8.6 Polisi Strategol 19 - Rheoli Gwastraff	124
9 Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy	127
9.1 Polisi Strategol 20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth	127
10 Parchu Unigrywiaeth	133
10.1 Polisi Strategol 21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol	133
10.2 Polisi Strategol 22 - Yr Iaith Gymraeg	136

RHAN 3 -Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

11 Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd	141
11.1 Thema 1 yr AC: Newid yn yr Hinsawdd	141
11.2 Thema 2 yr AC: Adnoddau Naturiol a Gwastraff	147
11.3 Thema 3 yr AC: Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	151
11.4 Thema 4 yr AC: Tirlun, Treflun a Chymeriad Hanesyddol	154
11.5 Thema 5 yr AC: Llygredd	155
11.6 Thema 6 yr AC: Cydlyniant Cymunedol	158
11.7 Thema 7 yr AC: Iechyd a Llesiant	165
11.8 Thema 8 yr AC: Yr Economi	174

RHAN 4 - Diweddglo ac Argymhellion

12 Diweddglo ac Argymhellion	189
-------------------------------------	------------

Crynodeb Gweithredol

1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Castell-nedd Port Talbot ar 27ain Ionawr 2016. Fel rhan o broses statudol y cynllun datblygu, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Bydd yr AMB yn darparu sail ar gyfer monitro cynnydd y gwaith o gyflawni'r CDLI, hygrededd y Cynllun o safbwynt cynaliadwyedd, ac yn nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol pwysig a allai ddylanwadu ar ei weithredu.

2 Hwn yw'r trydydd AMB i gael ei baratoi ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu, ac mae'n gyfle i'r Cyngor asesu effaith y CDLI ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Fwrdeistref Sirol. Mae'r AMB hwn, felly, yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019, ac mae gofyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2019.

3 Mae'r AMB yn cynnwys cyfanswm o 89 o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisiâu. Ceir crynodeb byr o ganlyniad gwaith monitro eleni isod:

Fframwaith Monitro'r CDLI

Asesu	Gweithredu	Nifer y Dangosyddion sydd yn y Categori
Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau	60
Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau	1
Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol	2
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLI mor effeithiol ag y disgwyliad yn wreiddiol	Mae angen ymchwil ac ymchwilio pellach	0
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu	26
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLI yn cael ei gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y CDLI yn destun proses adolygu	0

4 Mae mwyafrif y dangosyddion yn dal i ddangos bod y polisi'n cael ei weithredu'n gadarnhaol. Fodd bynnag, mae sawl targed allweddol o ran dangosyddion polisi a chanlyniadau monitro, sy'n ymwneud â darpariaeth tai a datblygiad cysylltiedig â chyflogaeth yn bennaf sy'n dal heb eu cyflawni. Mae hyn yn dangos nad yw'r polisiâu dan sylw yn gweithredu'n unol â'r bwriad, ac yn yr achosion hynny mae'r monitro wedi cadarnhau y bydd angen rhoi sylw i'r materion polisi hyn fel rhan o adolygiad y CDLI.

5 Yn ogystal, mae un dangosydd yn dal i ddangos nad yw'r polisi'n cael ei weithredu mewn modd cyson, a bydd trafodaeth bellach yn digwydd gyda chydweithwyr Rheoli Datblygu, i ddatrys y mater. Lle mae dogfennau CCA yn dal i'w cynhyrchu, bydd y rheiny'n cael eu hystyried a'u paratoi cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Dangosyddion lle mae angen Gweithredu Pellach

6 Mae angen trafodaeth bellach gyda chydweithwyr Rheoli Datblygu yn achos y dangosydd sy'n dilyn:

Cyf:	Dangosydd
71	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynol

7 Y 2 ddangosydd lle mae angen ystyried/paratoi CCA yw:

Cyf:	Dangosydd
23	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr, Port Talbot a Chanol y Dref
36	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd

8 Y 26 dangosydd lle mae angen rhoi sylw i'r materion polisi fel rhan o broses adolygu'r CDLI yw:

Cyf:	Dangosydd
1	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir
12	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae seilwaith newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr
14	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir
15, 16, 17 & 18	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy
19 & 20	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr
31	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd
32	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe
37	Nifer y cynigion gwaith byw a ganiatawyd
39	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI
40	Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth gyfredol ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS)
41	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI
42	Newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal is-farchnad
43	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy
46	Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion manau agored y meddianwyr
49	Lefel cyflogaeth yn y gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot; y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig; lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT; lefel a chyfradd cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig

Cyf:	Dangosydd
50	Tir cyflogaeth a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth
51	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan
52	Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr
62	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r Arfordir heb ei Ddatblygu, yr Ardaloedd Tirlun Arbennig a'r Lletemau Glas, yn groes i'r fframwaith polisi
80	Cyflawni Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy / Darparu'r Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4)
82	Cwblhau prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman
83	Cyflawni cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam

Canfyddiadau Allweddol yr AMB

9 Mae'r canlynol yn darparu trosolwg o ganfyddiadau allweddol y tri chyfnod monitro cychwynol (2017, 2018 a 2019):

- Darparwyd 2,126 o gartrefi newydd ers dyddiad sylfaen CDLI 2011 (sy'n cyfateb i 59.4% o'r targed blynyddol cronol hyd yma). Er bod digon o dir wedi'i ddyrannu yn y CDLI i ymateb i'r gofyn a nodwyd am dai, am amrywiaeth o resymau nid yw safleoedd yn cael eu cynnig nac yn gwneud cynnydd fel y rhagwelwyd.
- Mae 50 o dai fforddiadwy wedi cael eu darparu trwy'r system gynllunio ers 2011 (sy'n cyfateb i 10.5% o'r targed blynyddol cronol hyd yma). Mae'r sefyllfa'n adlewyrchu'r ffaith nad yw safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLI yn dod trwy'r system gynllunio fel y rhagwelwyd yn wreiddiol.
- Gwnaed cynnydd cyfyngedig yng nghyswllt darparu'r ddwy 'Ardal Adfywio Strategol' a ddyrannwyd yng Nghoed Darcy (Castell-nedd) a Glannau'r Harbwr (Port Talbot). Yng Nghoed Darcy, mae 291 o gartrefi newydd wedi cael eu darparu ers 2011 (sy'n cyfateb i 36.4% o'r targed blynyddol cronol hyd yma), ac mae cyfradd araf darparu tai a seilwaith hefyd wedi achosi oedi yn elfen y cynllun sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Yng Nglannau'r Harbwr, mae 34 o gartrefi newydd wedi cael eu darparu ers 2011 (sy'n cyfateb i 54.7% o'r targed blynyddol cronol hyd yma) ac 1.8 hectar o dir cyflogaeth sydd hefyd ar ei hôl hi o ran y targed.
- Mae'r Astudiaeth ddiweddaraf ar y cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn 2019 yn dangos bod cyflenwad tir y Cyngor wedi gostwng i 4.5 mlynedd. Dyma'r achlysur cyntaf ers mabwysiadu pan yw'r ffigur cyflenwad tir wedi gostwng o dan y 5 mlynedd sy'n ofynnol, ac mae hynny o ganlyniad i'r cyfraddau darparu tai, sy'n dal yn destun siom, ar draws Castell-nedd Port Talbot. Yn flaenorol, roedd y Cyngor wedi dangos bod ganddo gyflenwad tir o 5.0 mlynedd (2016), 5.3 mlynedd (2017) a 5.0 mlynedd (2018) yn eu tro.
- Mae cyflogaeth yn y gweithle wedi gostwng o 49,400 o swyddi yn 2011 i 46,200 o swyddi yn 2017 (ond mae'r ffigur hwn yn destun amrywiadau blynyddol).

- Mae cyfradd gweithgaredd economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi codi o 69.7% yn 2011 i 74% yn 2018, cynnydd o 4.3%. Mae'r bwloch rhwng cyfartaledd Castell-nedd Port Talbot a Chymru hefyd wedi lleihau 0.3% yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Mae'r gyfradd ddiweithdra wedi gostwng o 9.9% yn 2011 i 3% yn 2018, gostyngiad o 6.9%. Er bod y ffigur hwn yn destun amrywiadau blynyddol, o'i gyfuno â'r cyfraddau gweithgaredd economaidd mae hyn yn arwydd o broffil economaidd llawer mwy cadarnhaol ar gyfer yr ardal, a bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni amcanion y CDLI.
- Mae nifer o gynlluniau seilwaith pwysig wedi cael eu cwblhau ers 2011, gan gynnwys Ffordd yr Harbwr, Ffordd Amazon (Cyfnod 2), y gwelliannau cychwynnol graddol i Gyffordd 43 (yr M4), Pont Gyswllt Parc Ynni Baglan a'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig (Port Talbot).
- Mae estyniad i Safle Sipsiwn a Theithwyr Cae Garw wedi cael ei gwblhau.
- Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe yn y Bae wedi agor, ac mae rhagor o ddatblygiadau ar y safle wedi'u cwblhau a'u rhaglennu.
- Mae nifer o gynlluniau ynni adnewyddadwy/carbon isel wedi cael eu cymeradwyo, gan gynnwys ffermydd gwynt, solar, gwres a phŵer cyfunedig a micro-osodiad dŵr a thrydan. Mae pob un o'r rhain yn cyfrannu at gapasiti gosod Castell-nedd Port Talbot, sydd bellach yn fwy na rhyw 400MW, sef y capasiti gosod uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru.
- Ers mabwysiadu'r CDLI, mae cyfanswm o 12 dogfen CCA wedi cael eu cyhoeddi, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â Rhwymedigaethau Cynllunio; Tai Fforddiadwy; Mannau Agored a Mannau Glas; Fframwaith Datblygu Parc Ynni Baglan; Tirlun a Morlun; Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth; Llygredd; Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel; Safonau Parcio; Dylunio; Yr Amgylchedd Hanesyddol a Datblygiad a'r Iaith Gymraeg.

Casgliad

10 Mae'r trydydd cam monitro hwn wedi dangos bod amcanion y CDLI, yn gyffredinol, yn dal i gael eu cyflawni i raddau helaeth. Mae mwyafrif y dangosyddion yn dal i ddangos bod y polisi'n cael ei weithredu'n gadarnhaol, sydd felly'n arwydd bod y CDLI yn cyflawni llawer o fanteision pwysig i gymunedau ar draws Castell-nedd Port Talbot.

11 Ymhellach, mae'r cyfraddau diweithdra a gweithgarwch economaidd wedi gwella ers dyddiad sylfaen y Cynllun, ac er bod y ffigurau hyn yn destun amrywiadau blynyddol, maen nhw'n arwydd o broffil economaidd llawer mwy cadarnhaol i'r ardal, a bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni amcanion y strategaeth sy'n cael ei harwain yn economaidd.

12 Fodd bynnag, mae sawl targed allweddol o ran dangosyddion polisi a chanlyniadau monitro, sy'n ymwneud â darpariaeth tai a datblygiad cysylltiedig â chyflogaeth yn bennaf sy'n dal heb eu cyflawni. Mae hyn yn arwydd nad yw'r polisiâu hyn yn gweithredu'n unol â'r bwriad, ac o ganlyniad, mae hynny'n tanseilio gallu'r CDLI i gyflawni'r strategaeth ddelfrydol yn llawn.

Argymhelliad

13 Er mwyn sicrhau bod y CDLI yn cael ei ddiweddarau'n gyson, mae rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor i gynnal adolygiad llawn o'r Cynllun a fabwysiadwyd o leiaf bob pedair blynedd wedi'r mabwysiadu cychwynnol.

14 Yn achos Castell-nedd Port Talbot, felly, mae'r CDLI bellach yn destun cylch adolygu statudol llawn pedair blynedd, ac felly bydd angen asesu pob agwedd ar y Cynllun er mwyn ystyried a ydynt yn dal yn gadarn ac yn addas at y diben. Bydd hyn yn cynnwys y materion allweddol, gweledigaeth ac amcanion, y strategaeth (h.y. lefel a dosbarthiad twf), polisiâu, dyraniadau defnydd tir a dynodiadau.

15 Mae'n bwysig, felly, bod y Cyngor yn awr yn symud ymlaen gyda'r adolygiad statudol o'r CDLI, er mwyn rhoi sylw yn benodol i'r materion polisi a amlygwyd gan y monitro a wnaed hyd yma.

RHAN1 - Cyflwyniad a Chefndir

1 Cyflwyniad

1.0.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)⁽¹⁾ a fabwysiadwyd yn darparu fframwaith defnydd tir y bydd penderfyniadau ynghylch datblygu yn y dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol yn cael eu seilio arno.

1.0.2 Mae Is-adran 76 o Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod y Cyngor yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Hwn yw'r trydydd AMB ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

1.0.3 Mae'r AMB yn darparu cyfle i fonitro cynnydd y gwaith o gyflawni'r CDLI, hygrededd y Cynllun o safbwynt cynaliadwyedd, ac yn nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol pwysig a allai ddylanwadu ar ei weithredu. Bydd canlyniadau'r broses fonitro hon yn bwydo i'r dadansoddiad parhaus o'r CDLI, a bydd gofyn bod y Cyngor yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r Cynllun bob 4 blynedd.

Beth yw'r AMB?

1.0.4 Prif nod yr AMB yw canfod a yw Strategaeth y CDLI yn effeithiol ac yn cyflawni ei nodau ac a yw'r polisiau strategol yn gweithio'n ymarferol. Wrth werthuso'r materion hyn, mae'r AMB (gan gynnwys monitro amcanion yr AC) yn ystyried effeithiolrwydd y Cynllun yn ei gryswth er mwyn pennu a oes angen adolygu'r Cynllun mewn rhyw fodd.

Dangosyddion

1.0.5 O dan Reoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru)(Newidiwyd) 2015, mae'n ofynnol bod yr AMB yn monitro'r dangosyddion craidd canlynol:

Tabl 1.0.1 Dangosyddion a Ragnodwyd yn Rheoliad 37

Dangosyddion Craidd a Ragnodwyd yn Rheoliad 37	Cyfeirnod y Fframwaith Monitro
Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerir o'r Astudiaeth gyfredol ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Mesurir hyn yn ôl y blynyddoedd o gyflenwadh ⁽²⁾ .	40
Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI (h.y. trwy'r system gynllunio). Dylai hyn ddangos lefel y tai newydd a adeiladwyd, llai unrhyw dai a gafodd eu dymchwel, yn ystod cyfnod yr AMB acers i'r CDLI gael ei fabwysiadu ⁽³⁾ .	39 & 41

1.0.6 Mae fframwaith monitro'r CDLI yn cynnwys cyfanswm o 89 o ddangosyddion, sef y 2 ddangosydd craidd, ynghyd ag amrywiaeth o ddangosyddion lleol a chyd-destunol a nodwyd gan y Cyngor sy'n ymwneud â chyd-destun Castell-nedd Port Talbot a materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn eu tro.

1 Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Ionawr 2016)

2 Rheoliad 37(4)(a) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol)(Cymru)(Newidiwyd) 2015.

3 Rheoliad 37(4)(a) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2015

1 . Cyflwyniad

1.0.7 Mae angen monitro pob un o'r dangosyddion hyn a bydd natur y data a gesglir yn amrywio o un i'r nesaf. Mae rhai yn ffeithiol (e.e. a oes datblygiad neu CCA wedi cael ei gyflawni o fewn yr amserlen arfaethedig?), tra bydd eraill yn galw am gasglu data a monitro dros gyfnod hwy (e.e. ffigurau cwblhau tai).

1.0.8 Nododd yr AMBau blaenorol (2017 a 2018) fod y 14 dangosydd a'u targedau cysylltiedig a restrir isod wedi cael eu cwblhau erbyn diwedd eu cyfnodau monitro perthnasol (h.y. erbyn 31ain Mawrth bob blwyddyn). O ganlyniad, mae'r dangosyddion hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad dim ond er mwyn sicrhau nad oes bylchau yn nilyniant rhifau'r dangosyddion.

Tabl 1.0.2 Dangosyddion/Targedau Monitro'r CDLI a Gwblhawyd Eisoes

Polisi	Dangosydd	AMR	Targed
SP2	9	2018	Paratoi CCA sy'n gysylltiedig â Dylunio erbyn mis Ebrill 2017
SP4	13	2017	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhwymedigaethau Cynllunio.
SP5	22	2017	Cyflawni Ffordd yr Harbwr (FfDdY).
SP8	44	2017	Paratoi CCA sy'n gysylltiedig â Thai Fforddiadwy.
SP10	48	2018	Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Mannau Agored a Mannau Glas
SP11	55	2017	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Bae Baglan.
SP13	61	2017	Cwblhau Llwybr Arfordirol Cymru erbyn 2012. Cwblhau Trywyddau Beicio Mynydd Cognation erbyn 2013. Cwblhau Llwybr Taith Fawr y Ddraig erbyn 2012.
SP14	63	2018	Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â'r Tirlun a'r Morlun
SP15	65	2018	Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth
SP16	68	2017	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Llygredd.
SP18	76	2018	Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isef
SP20	81	2018	Cyflawni'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot
SP20	84	2017	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Safonau Parcio.
SP22	89	2018	Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Datblygiad a'r Iaith Gymraeg

Targedau

1.0.9 Mae targedau realistig a chyflawnadwy wedi cael eu nodi ar gyfer pob polisi strategol. Gellir grwpio'r targedau hyn yn fras i dri chategori:

- Gallai **Targedau Rhifyddol** ymwneud â graddfa'r datblygiad sy'n cael ei gynnig (e.e. lefel y datblygiad tai a ragwelir) a gellid ei fynegi ar ffurf rhif neu ganran. Mae rhai polisïau (e.e. darparu tai newydd) yn nodi cyfres o dargedau interim dros gyfnod y Cynllun, gan sicrhau bod modd mesur cynnydd tuag at gyrraedd y targed cyffredinol ar ddiwedd cyfnod y Cynllun;
- Mae **Targedau Canlyniadau** yn cyfeirio at ganlyniad penodol y mae'r polisi neu'r polisïau dan sylw yn ceisio ei gyflawni neu ei atal rhag digwydd; ac
- Mae **Targedau Penodol** yn ymwneud â chynigion datblygu penodol (e.e. cynllun priffordd newydd arfaethedig) lle mae targed o gyflawni'r cynnig o fewn cyfnod penodol o amser.

Sbardunau

1.0.10 Mae gan bob un o'r dangosyddion sbardun penodol sy'n nodi ar ba adeg gallai fod angen rhoi ystyriaeth bellach i weithrediad y polisi a/neu ei asesu. Gallai hyn olygu bod rhaid cyflawni cynllun erbyn dyddiad penodol, os yw'r cynnydd yn syrthio o dan y gofyniad cronol dros gyfnod penodedig, neu os caniateir datblygiad yn groes i'r fframwaith polisi. Unwaith cyrhaeddir sbardun, mae'n rhaid ystyried y camau gweithredu sy'n ofynnol i geisio unioni'r sefyllfa (gweler isod).

Camau

1.0.11 Gellid peryglu gweithrediad llwyddiannus y CDLI os na chyrhaeddir y targedau. Mae'r fframwaith monitro yn nodi ystod o gamau gweithredu y gellir eu cyflawni a allai fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg rhifol neu ganlyniadau annisgwyl. Nid yw o reidrwydd yn wir, fodd bynnag, y byddai methiant i gyflawni targed penodol yn cael ei ddehongli fel methiant polisi a fyddai'n awtomatig yn golygu bod y polisi hwnnw (neu'r Cynllun yn gyfan) yn destun adolygiad.

1.0.12 Mae'r tabl isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a allai ddeillio o'r monitro, ac mae sawl opsiwn posibl i helpu i ymdrin â dangosyddion sy'n rhoi'r argraff o beidio â chyflawni'n unol â'r disgwyl. Er mwyn cynorthwyo gyda'r dehongli ar y monitro a wnaed, defnyddiwyd cynllun lliwiau syml i ddangos sut mae'r dangosydd yn perfformio

Fframwaith Monitro'r CDLI

Asesu	Cam Gweithredu	Côd Lliwiau
Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau	
Nid yw Polisïau'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau	
Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol	

1 . Cyflwyniad

Asesu	Cam Gweithredu	Côd Lliwiau
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLI mor effeithiol ag y disgwyliad yn wreiddiol	Mae angen ymchwil ac ymchwilio pellach	
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu	
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLI yn cael ei gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y CDLI yn destun proses adolygu	

Adolygu'r Cynllun

1.0.13 Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r ystyriaethau canlynol wrth ddod i ddyfarniad ynghylch a oes angen adolygu'r Cynllun (yn rhannol neu'n llawn) cyn y cyfnod statudol o 4 blynedd:

- Newid pwysig mewn polisi neu ddeddfwriaeth cenedlaethol;
- Newid pwysig yn yr amodau allanol;
- Newid pwysig yn y cyd-destun lleol (e.e. cau safle cyflogaeth pwysig sy'n tanseilio'r economi leol neu effaith gronol cyfres o bethau'n cau);
- Newid pwysig o ran pwysau neu anghenion datblygu a strategaethau buddsoddi buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat mawr; a
- Phryderon pwysig yn sgîl canfyddiadau'r AMB o ran effeithiolrwydd polisi, cyflawni safleoedd, cyfraddau cynnydd ac unrhyw broblemau gyda gweithrediad.

Strwythur a Chynnwys

1.0.14 Mae'r AMB wedi'i strwythuro yn ôl y pedair rhanyma:

- **Rhan 1: Cyflwyniad a Chefndir** - yma ceir cyflwyniad ac amlinellid o'r newid cyd-destunol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu;
- **Rhan2: Monitro'rCDLI**-ymaceirmany lioncanfyddiadau'rgwaithofonitroDangosyddion y CDLI (yn nhrefn yCynllun);
- **Rhan3: Monitro'rArfarniadCynaliadwyedd**-ymaceirmany lioncanfyddiadau'rgwaith o fonitro wyth Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd;a
- **Rhan 4: Casgliadau ac Argymhellion** - yma cynigir casgliadau acargymhellion.

2 Y NewidCyd-destunol

2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol

Dogfennau a Deddfwriaeth Polisi/Canllawiau Polisi Newydd/wedi'u Diweddarau

2.1.1 Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf (2018/19), mae nifer o ddogfennau polisi/canllawiau newydd ac wedi'u diweddarau wedi cael eu cyhoeddi, ac mae deddfwriaeth wedi cael ei chyflwyno. Amlinellir y prif ddogfennau newydd a newidiadau isod.

Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 (PCC10) (Cyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2018)

2.1.2 Mae PCC wedi cael ei adolygu a'i ailstrwythuro'n helaeth i roi sylw i'r themâu a'r dulliau gweithredu a gyflwynwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a chyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a geir yno. O ganlyniad, mae'n cymryd y saith nod llesiant a'r pum 'ffordd o weithio' fel themâu troswaol, ac yn ymgorffori dull o greu lle ar hyd-ddo, gyda'r nod o ddarparu Mannau Actif a Chymdeithasol, *Mannau Cynhyrchiol a Mentrus a Mannau Unigryw a Naturiol*.

2.1.3 Mae i'r ddogfen oblygiadau sylweddol i'r system gynllunio yng Nghymru, ac mae'n nodi mai'r system gynllunio yw un o'r prif offerynnau ar gyfer creu manau cynaliadwy, a bod egwyddorion creu lle yn offeryn i gyflawni hynny trwy lunio cynlluniau a'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd y diwygiadau i PCC yn cael effaith ar ddatblygu a chyflawni Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Lle yn y dyfodol.

Gweithredu Atodlen 3 i Ddeddf Llifogydd a Rheoli Dŵr 2010: defnydd Gorfodol o Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)

2.1.4 O 7fed Ionawr 2019, bydd gofyn bod pob datblygiad newydd lle ceir mwy nag un annedd, neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy, yn cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ar gyfer dŵr arwyneb. Rhaid dylunio'r SuDS a'u hadeiladu'n unol â Safonau Statudol SuDS (a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru) ac mae'n rhaid i Gynlluniau SuDS gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol yn gweithredu yn ei rôl Corff Cymeradwyo SuDS (SAB), cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn.

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn (Mehfin 2018)

2.1.5 Mae'r Cylchlythyr yn darparu'r arweiniad diweddaraf ar agweddau cynllunio nodi safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac yn amlinellu sut gall awdurdodau cynllunio a Sipsiwn a Theithwyr gydweithio i gyflawni'r nod hwn. Mae'r Cylchlythyr yn amlinellu'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd, yr angenrheidrwydd o gynnwys Sipsiwn a Theithwyr yn rhagweithiol yn y broses a'r camau sy'n ofynnol i asesu'r angen am safleoedd, nodi safleoedd addas, a chynnwys polisiâu mewn cynlluniau datblygu.

2 . Y NewidCyd-destunol

Newidiadau i Gydsynio i Seilwaith Ynni a Datblygiad a Ganiateir

2.1.6 Cadarnhawyd newidiadau i gydsynio i seilwaith ynni yng Nghymru ac yn nyfroedd Cymru ym mis Chwefror 2019, er na ddaethant i rym tan 1af Ebrill 2019. Mae rhoi cydsyniad ar gyfer y canlynol wedi'i ddatganoli i Gymru, yn cychwyn o 1af Ebrill 2019:

- Gorsafoedd cynhyrchu ar y lan rhwng 50MW a 350MW (ac eithrio rhoi cydsyniad i orsafoedd cynhyrchu hyd at 50MW a'r holl orsafoedd gwynt ar y lan, y mae gan Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol swyddogaethau ar eu cyfer eisoes);
- Gorsafoedd cynhyrchu oddi ar y lan hyd at 350MW (ac eithrio gorsafoedd cynhyrchu adnewyddadwy hyd at 1MW, y bydd Trwydded Forol yn dal yn ofynnol ar eu cyfer, gan Cyfoeth Naturiol Cymru); a
- Llinellau trydan uwchben hyd at a chan gynnwys 132KV, sy'n gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu Cymru a ddatganolwyd.

2.1.7 Mae hyn wedi galw am newidiadau i ddeddfwriaeth a mesurau eraill canlyniadol, sy'n cyflwyno gweithdrefnau a hawliau datblygu a ganiateir.

Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel (Mawrth 2019)

2.1.8 Mae'r Cynllun hwn yn cyflwyno dull Llywodraeth Cymru ar gyfer torri'n ôl ar allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd mewn modd sy'n mwyafu'r manteision ehangach i Gymru, gan sicrhau cymdeithas decach a mwy iach. Mae'n cyflwyno polisïau a chynigion sydd wedi'u bwriadu i leihau allyriadau a chefnogi twf yr economi garbon isel.

2.1.9 Elfen arbennig o nodedig yng nghyswllt cynllunio yw'r targedau a'r polisïau a gyflwynwyd ar gyfer y sectorau canlynol:

- Pŵer;
- Adeiladau;
- Trafnidiaeth;
- Diwydiant;
- Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth;
- Amaethyddiaeth; a
- Rheoli Gwastraff.

Cynllun Gweithredu Sŵn a Sainlun 2018-2023 (Rhagfyr 2018)

2.1.10 Mae'r cynllun yn amlinellu cyfeiriad polisi strategol sector cyhoeddus Cymru mewn perthynas â rheoli sŵn a sainlun yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae iddo ffocws ehangach na lleihau lefelau sŵn yn unig, gan gydnabod hefyd bod angen creu sainluniau priodol, ystyr hynny yw'r amgylchedd acwstig cywir ar yr adeg ac yn y lle cywir.

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Dadgymhwyso Paragraff 6.2 (Cyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2018)

2.1.11 Cyflwynwyd datganiad ar 18fed Gorffennaf 2018 yn nodi penderfyniad yr Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig er mwyn dadgymhwyso paragraff 6.2 TAN 1. Effaith hynny yw dileu'r paragraff sy'n cyfeirio at roi pwys sylweddol ar y diffyg cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai, fel ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tai. O ganlyniad, bydd nawr yn fater i lunwyr penderfyniadau bennu faint o bwys a roddir ar yr angen am gynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai lle mae gan ACLI ddiffyg tir ar gyfer tai.

Ymgynghoriadau Nodedig

2.1.12 Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf bu nifer o ddogfennau ymgynghori nodedig ynghylch newidiadau arfaethedig yn y dyfodol i bolisi, deddfwriaeth ac arweiniad. Er bod ymgynghoriadau wedi cael eu cynnal, nid yw'r newidiadau hyn wedi dod i rym eto. Amlinellir y rhain isod:

Adroddiad Terfynol Cyfraith Gynllunio yng Nghymru (Tachwedd 2018)

2.1.13 Gwahoddwyd Comisiwn y Gyfraith gan Lywodraeth Cymru i adolygu cyfraith gynllunio gyfredol fel sy'n berthnasol i Gymru, ac i gyflwyno argymhellion ar y posibilrwydd o'i symleiddio a'i chadarnhau, yn arbennig er mwyn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygiadau technegol. Mae'r adroddiad terfynol a'r argymhellion bellach wedi cael eu paratoi, ac fe'u cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru a'u rhoi gerbron Senedd y Deyrnas Unedig a'r Cynulliad Cenedlaethol, yn argymhell bod Côt Cynllunio newydd yn cael ei greu ar gyfer Cymru. Disgwylir ymateb manwl i'r argymhellion hyn gan Lywodraeth Cymru erbyn diwedd 2019.

Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru (Rhagfyr 2017 tan fis Mawrth 2018)

2.1.14 Bwriad Cynllun Morol Cenedlaethol drafft Cymru yw cefnogi datblygiad cynaliadwy'r moroedd o amgylch Cymru, gan gwmpasu'r ardaloedd mewnforol ac oddi ar y lan yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Mae'n cyflwyno uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd adnoddau naturiol y môr yn y dyfodol, sut dylai amrywiol ddefnyddwyr y moroedd ryngweithio ac ystyried gweithgareddau ei gilydd a'u cynlluniau at y dyfodol. Mae disgwyl i'r cynllun terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2019.

Cynllun Addasu Drafft Newid yn yr Hinsawdd i Gymru (Cyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2018)

2.1.15 Mae'r cynllun drafft yn nodi tri amcan craidd er mwyn cyflwyno nod llesiant Cymru Gydnerth, sef:

- **Gwybodaeth:** Cynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o effeithiau, risgiau, cyfleoedd a bygythiadau newid yn yr hinsawdd ar bob sector yng Nghymru, yn y tymor byr, canolig a hir.
- **Capasiti:** Datblygu'r offer a'r prosesau sy'n angenrheidiol i reoli'r risgiau a gweithio gydag eraill i gefnogi ac adeiladu capasiti addasol mewn cylchoedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

2 . Y NewidCyd-destunol

- **Gwydnwch:** Gweithredu'n uniongyrchol i addasu i'r effeithiau'n gynnar trwy leihau natur fregus, lleihau'r bygythiadau a manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgîl newid yn yr hinsawdd.

2.1.16 Mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymadau lefel uchel ar gyfer Llywodraeth Cymru, i'w cyflwyno mewn partneriaeth â chyrrff eraill, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol. Dyma'r ymrwymadau sy'n cynnwys awdurdodau cynllunio:

- Cynyddu dealltwriaeth o'r risg i iechyd a llesiant yn sgîl tymheredd uwch;
- Sicrhau bod y system gynllunio yng Nghymru yn chwarae rôl allweddol wrth hwyluso twf glân ac yn helpu i feithrin gwydnwch i effeithiau newid yn yr hinsawdd; a
- Dylanwadu ar ddyluniad cartrefi ac adeiladau i'w hamddiffyn rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffafir (Cyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2018)

2.1.17 Bwriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yw datblygu cyfeiriad gofodol clir hirdymor ar gyfer polisi'r llywodraeth, gweithredu a buddsoddi. Cyflwynodd yr ymgynghoriad ar Faterion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffafir ynghylch y FfDC Weledigaeth Ddrafft y FfDC, ei Amcanion a'i Opsiynau. Cyflwynwyd pum opsiwn amrywiol:

1. Canolbwyntio twf yn yr ardaloedd marchnad cryfaf;
2. Canolbwyntio ar greu cymunedau cryf ledled Cymru;
3. Cyflawni amcanion dadgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd;
4. Ffocws ar reoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy; a
5. Pheidio â pharatoi'r FfDC.

2.1.18 Roedd yr opsiwn a nodwyd fel un oedd yn cael ei ffafrio, sef Mannau Cynaliadwy, yn gyfuniad o'r elfennau o bob opsiwn, sef cyfanswm o bum elfen:

1. Creu Lle;
2. Mannau Unigryw a Naturiol;
3. Mannau Cynhyrchiol a Mentrus;
4. Mannau Actif a Chymdeithasol;
5. Rhanbarthau Cymru.

Darparu Tai trwy'r System Gynllunio (Galwad am Dystiolaeth a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2018)

2.1.19 Bu Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ynghylch sut i wella darparu gofynion tai y CDLI, gan gynnwys edrych ar y berthynas rhwng hynny a mesur y cyflenwad tir ar gyfer tai sy'n angenrheidiol i fodloni'r gofynion hyn. Nodir y dylai'r egwyddorion trosfwaol canlynol fod yn berthnasol, ac y dylid rhoi sylw iddynt trwy'r dystiolaeth a gyflwynwyd:

- Rhaid i benderfyniadau cynllunio fod wedi'u seilio ar gynllun datblygu wedi'i ddiweddarau - y dull seiliedig ar gynllun o ymdrin â rheoli datblygu;

- Dylai gofynion tai fod yn seiliedig ar dystiolaeth, a rhaid i'r holl safleoedd y nodwyd eu bod yn bodloni'r gofyn ddangos eu bod yn gyflawnadwy; a
- Rhaid i drefniadau monitro ac unrhyw gamau gweithredu cysylltiedig ategu'r dull seiliedig ar gynllun o reoli datblygu.

Fframwaith Parth Aer Glân i Gymru (Cyflwynwyd ym mis Ebrill 2018)

2.1.20 Diffinnir Parth Aer Glân (CAZ) fel ardal darged ddaearyddol lle cymhwysir ystod o gamau gweithredu cydlynus gyda'r bwriad o sicrhau, cyn gynted â phosibl, gostyngiad sylweddol yn ymwneud y cyhoedd a'r amgylchedd â llygryddion niweidiol sy'n cael eu cludo yn yr aer o bob ffynhonnell. Diben y Fframwaith CAZ drafft yw tywys a hwyluso sefydlu CAZs gan Awdurdodau Lleol yn fodd i gyflymu cydymffurfio lle mae angen hynny, helpu i leihau llygredd ar lefel ehangach, a gwreiddio lefel o gysondeb.

2.1.21 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad bellach wedi cael eu hasesu ac ar sail y sylwadau a'r awgrymiadau a ddaeth i law, bydd nifer o addasiadau'n cael eu gwneud i'r ddogfen. Mae disgwyl i'r fframwaith terfynol gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2019.

Brexit

2.1.22 Ym mis Mehefin 2016 pleidleisiodd etholwyr y Deyrnas Unedig o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac ers hynny mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi galw Erthygl 50 i rym, mewn perthynas ag ymadael â'r UE. Mae hynny'n caniatáu cyfnod o 2 flynedd ar gyfer trafod a chytuno ar delerau'r ymadael. Mae'r terfyn amser hwn bellach wedi cael ei estyn, ac o ganlyniad roedd y Deyrnas Unedig yn dal yn rhan o'r UE ar hyd cyfnod monitro 2018/19.

2.1.23 Er bod Brexit yn debygol o gael effeithiau ar yr economi yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, bydd natur yr effeithiau hyn yn dibynnu ar y telerau y cytunir arnynt. Bydd yr effeithiau hyn yn dod yn gliriach gydag amser a bydd hynny'n parhau i gael ei ystyried yng nghyswllt y CDLI ac unrhyw adolygiad dilynol.

2.2 Y Cyd-destun Cenedlaethol

Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De-orllewin Cymru

2.2.1 Yng ngoleuni'r trefniadau cynllunio newydd sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru a chyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau), mae gwaith wedi parhau ynghylch cefnogi a chyfrannu at yr agenda ranbarthol. Yn ei rôl arweiniol/ysgrifenyddol ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru, mae Swyddogion Polisi CNPT yn parhau i hwyluso trafodaeth a chynnydd parhaus mewn perthynas â mentrau ac astudiaethau rhanbarthol.

2.2.2 Mae'r trafodaethau wedi troi o amgylch tair astudiaeth gydweithredol allweddol: 'Astudiaeth Gyflogaeth Ranbarthol' (RES), 'Asesiad ar y cyd o'r Farchnad Dai Leol' (LHMA) ac 'Astudiaeth Ddichonoldeb Ranbarthol' (RVS). Bydd pob un o'r tair astudiaeth nid yn unig yn bwydo i adolygiadau CDLIau unigol, ond hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol fel gwaelodlin posibl ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau).

2 . Y NewidCyd-destunol

2.2.3 Mae'r gwaith cysylltiedig â'r RES wedi cael ei ohirio am y tro, yn bennaf oherwydd materion adnoddau/capasiti yn yr Awdurdodau Lleol hynny sy'n canolbwyntio'u hymdrechion a'u sylw roi sylfaen o dystiolaeth yn ei lle ar gyfer eu CDLlau eu hunain. Elfen nodedig yw bod swyddi 'Swyddogion Rhanbarthol' wedi cael eu creu'n ddiweddar yn Llywodraeth Cymru, ac felly y bwriad yw dychwelyd at RES yn y dyfodol, gyda ffocws mwy o bosib ar CDSiau, mewn cydweithrediad â swyddogion LIC.

2.2.4 Mae'r astudiaeth LHMA ar y cyd yn gwneud cynnydd da yn dilyn penodiad ORS i gynorthwyo'r broses. Mae data/gwybodaeth yn cael eu casglu gan ALLau ac mae cyfres o gyfarfodydd eisoes wedi'u cynnal lle mae'r gwaith wedi gwneud cynnydd. Disgwylir yr adroddiad terfynol ddiwedd mis Awst 2019.

2.2.5 Mae'r RVS hefyd yn gwneud cynnydd da ers penodi 'Burrows-Hutchinson' i gynorthwyo'r broses. Casglwyd gwybodaeth gan ALLau i lywio'r 'Model Dichonoldeb Safle-Benodol'. Mae cyfres o gyfarfodydd eisoes wedi'u cynnal, a chynhaliwyd cyfarfod rhanddeiliaid ym mis Mai i drafod y prosiect / rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd. Disgwylir y model / yr adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2019.

Bargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

2.2.6 Llofnodwyd Bargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe⁽⁴⁾ ar 20 Mawrth 2017. Mae'r Fargen Ddinesig yn rhaglen fuddsoddi £1.3bn sy'n cynnwys 11 prosiect strategol ar draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe - Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

2.2.7 Mae'r Fargen Ddinesig yn cael ei hariannu, yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes prosiect, gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Yn ystod y 15 mlynedd nesaf, mae disgwyl i'r Fargen Ddinesig roi hwb o ryw £1.8bn i'r economi ranbarthol, a chynhyrchu bron 10,000 o swyddi newydd, ansawdd uchel.

2.2.8 Mae prosiectau'r Fargen Ddinesig wedi'u seilio ar themâu allweddol Cyflymu Economaidd, Gwyddor Bywyd a Llesiant, Ynni a Gweithgynhyrchu Clyfar. Bydd pob prosiect yn cael ei gefnogi gan seilwaith digidol o'r radd flaenaf a menter Sgiliau a Doniau a fydd yn llwybr i bobl leol gael mynediad i'r swyddi a greir.

2.2.9 Ers y diweddariad diwethaf, gwelwyd nifer o ddatblygiadau llywodraethu. Ym mis Mai 2018, sefydlwyd 'Bwrdd Strategaeth Economaidd y Fargen Ddinesig'. Wedi hynny, ym mis Gorffennaf 2018, llofnodwyd cytundeb y Cydbwyllgor gan bob un o'r pedwar awdurdod lleol.

2.2.10 Cynhaliwyd dau adolygiad annibynnol ers y diweddariad diwethaf. Ym mis Ionawr 2019, comisiynwyd Actica Consulting Ltd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynnal adolygiad cyflym, arweiniad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r (SBCD). Bwriad yr adolygiad⁽⁵⁾ oedd rhoi asesiad i Weinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch

4 <https://www.swanseabaycitydeal.wales>

5 <https://www.gov.uk/government/publications/swansea-bay-city-deal-independent-review>

cyflawnadwyedd y Fargen. Cyhoeddwyd canlyniadau hwn ac adolygiadau annibynnol y Cydbwyllgor ym mis Mawrth 2019, ac mae'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith gan y rhanbarth ar hyn o bryd.

2.2.11 Fel y nodwyd mewn AMBau blaenorol, mae Castell-nedd Port Talbot yn arwain yn achos y tri phrosiect canlynol o blith unarddeg:

- Cartrefi sy'n Bwerdai;
- Canolfan Ragoriaeth ar gyfer gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf; a
- Gwyddor Dur.

2.3 Y Cyd-destun Lleol

Canllawiau Cynllunio Atodol

2.3.1 Ym mis Mai 2018, mabwysiadwyd dau Ganllaw Cynllunio Atodol (CCA) arall, fel bod cyfanswm o 11 CCA wedi'u cyhoeddi ers mabwysiadu'r CDLI:

- Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth; a
- Thirlun a Morlun.

2.3.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad hefyd ar CCA yr Amgylchedd Hanesyddol, er na fabwysiadwyd hwnnw yn ffurfiol tan Ebrill 2019. Mae'r holl ddogfennau CCA ar gael ar wefan y Cyngor⁽⁶⁾.

2.3.3 Mae'r CCA yn rhoi arweiniad manwl ar gymhwyso polisi'r CDLI ar gyfer eu meysydd pynciau, a chael statws ystyriaeth bwysig yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae eu cynhyrchu yn cael ei fonitro gan ddangosyddion sy'n cael eu cynnwys yn yr AMBau a gyhoeddwyd.

Cynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot 2018-2023 (Y Castell-nedd Port Talbot a Garem)

2.3.4 Cyhoeddwyd y Cynllun Llesiant ym mis Mai 2018 ac roedd yn adeiladu ar ganfyddiadau Asesiad Llesiant cyntaf Castell-nedd Port Talbot (a gyhoeddwyd gan Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot yn 2017). Mae'r Cynllun yn cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac yn nodi'r chwe amcan canlynol ar sail hynny:

1. Cefnogi plant yn ystod eu blynyddoedd cynnar, yn arbennig plant sydd mewn perygl o ddioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod;
2. Creu cymunedau diogel, hyderus a chydnerth, gan ganolbwyntio ar bobl fregus;
3. Bywiogi blynyddoedd diwedd oes - Heneiddio'n Dda;
4. Hybu llesiant trwy waith ac yn y gweithle;
5. Gosod gwerth ar ein seilwaith werdd a chyfraniad hynny at ein llesiant (trosfwaol); a

2 . Y NewidCyd-destunol

6. Mynd i'r afael ag eithrio digidol (troswaol).

2.3.5 Mae'r Cynllun yn nodi'r camau sydd i'w cymryd mewn perthynas â phob amcan er mwyn gwireddu'r weledigaeth.

RHAN 2 - Monitro'r CDLI

3 Y Strategaeth

3.1 Y Strategaeth

3.1.1 Mae'r CDLI wedi'i seilio ar strategaeth twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n defnyddio'r cynnydd a ragwelir mewn swyddi a chynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd i nodi'r boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer o swyddi a ragwelir, sydd yn ei dro yn rhagfynegi nifer y cartrefi newydd y bydd angen amdanynt. Mae'r dull gweithredu'n sicrhau bod y strategaethau tai a chyflogaeth wedi'u halinio a bod cyfatebiaeth rhwng nifer y swyddi, y tai, y cyflenwad llafur a'r lle ar gyfer cyflogaeth.

3.1.2 Mae'r Cynllun yn nodi cyfanswm o 25 o amcanion, wedi'u grwpio o dan y themâu canlynol:

- Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy;
- Hybu Economi Gynaliadwy;
- Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd;
- Cyflawni hygyrchedd cynaliadwy; a
- Pharchu Unigrywiaeth.

3.1.3 Wrth roi sylw i'r amcanion hyn, nodau Strategaeth y CDLI yw:

Hwyluso twf yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan ganolbwyntio ar Goridor yr Arfordir, ochr yn ochr ag adfywio cymunedau'r Cymoedd

3.1.4 Trwy fonitro dangosyddion y CDLI mae modd asesu i ba raddau mae polisiau'r cynllun yn cyflawni'r strategaeth. Dylid nodi, fodd bynnag, fod yr Awdurdod wedi gweld gostyngiad yn nifer y ceisiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod monitro hwn (1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019), ac mae hynny wedi golygu ei bod hi'n anodd asesu'n llawn a yw'r strategaeth yn cael ei chyflawni'n effeithiol, ac a yw gweledigaeth ac amcanion cyffredinol y Cynllun yn cael eu cyflawni.

3.1.5 Ar sail Cyfrifiad 2011, poblogaeth Castell-nedd Port Talbot adeg dyddiad sylfaen y Cynllun Datblygu Lleol yn 2011 oedd 139,812 ac roedd model twf arweiniad economaidd y Cynllun yn amcangyfrif y byddai'r boblogaeth erbyn diwedd y Cynllun (2026) yn 147,400. Y data diweddaraf a ryddhawyd ynghylch poblogaeth yw amcangyfrifon canol blwyddyn Llywodraeth Cymru; rhyddhawyd y rhain ym mis Mehefin 2019 ac maent yn amcangyfrif bod poblogaeth Castell-nedd Port Talbot erbyn canol 2018 wedi codi i 142,906, sef cynnydd o 3,094 o bobl ers dyddiad sylfaen y cynllun, sy'n dangos bod cynnydd ar waith tuag at gyrraedd targed poblogaeth y cynllun, a bennwyd oddi mewn i'r model arweiniad economaidd

3 . Y Strategaeth

3.1.6 Mae'r senario a ddewiswyd, sy'n dibynnu i raddau helaeth ar ffactorau economaidd, yn un uchelgeisiol, ac yn ceisio mwyafu twf swyddi yn yr economi leol. Er mwyn ymdrin â materion allweddol y Fwrdeistref Sirol, mae creu cyfoeth trwy dwf swyddi yn hanfodol i gyflawni gweledigaeth y CDLI. Mae'r dull hwn wedi galluogi'r Awdurdod i ragweld sut mae newidiadau economaidd dros gyfnod y Cynllun yn cyfateb i'r gofynion o ran tir cyflogaetha nifer y tai newydd angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y cyfanswm a ragwelir i'r boblogaeth a'r cyflenwad llafur fydd yn ofynnol. Mae'r strategaeth yn ceisio cynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd a lleihau lefelau diweithdra yn unol â chyfartaledd Cymru.

3.1.7 Roedd cyfradd gweithgaredd economaidd Castell-nedd Port Talbot yn 69.7% yn 2011, 3% yn is na chyfartaledd Cymru, sef 72.7%. Un o amcanion y CDLI yw cynyddu cyfradd gweithgaredd economaidd i 76% erbyn 2026, ac alinio hynny â chyfartaledd Cymru.

3.1.8 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfradd gweithgaredd economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi codi 1.5%, o 72.5% yn 2018 i 74% yn 2019. Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru wedi codi ar gyfradd arafach o 0.2%, ac mae cyfartaledd y Deyrnas Unedig hefyd wedi codi 0.2%. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf, felly, yn dangos cynnydd cyffredinol o 4.3% dros ben ffigur dyddiad sylfaen y CDLI, ac mae'r bwlch rhwng Castell-nedd Port Talbot a chyfartaleddau Cymru hefyd wedi gostwng 0.3% yn ystod y cyfnod hwnnw.

3.1.9 Un arall o amcanion y CDLI yw lleihau cyfradd diweithdra yn unol â chyfartaledd tymor hir Cymru, sef 6.9%. Eleni mae cyfradd diweithdra Castell-nedd Port Talbot wedi gostwng 3.6%, o 6.6% yn 2018 i 3% yn 2019. Mae'r gostyngiad hwn yn sylweddol fwy nag yng Nghymru yn gyffredinol (0.4%) a'r Deyrnas Unedig (0.2%) yn eu tro. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf felly yn dangos gostyngiad cyffredinol o 6.9% dros ben ffigur dyddiad sylfaen y CDLI, a bod y gyfradd ddiweithdra gyffredol eisoes yn is na chyfartaledd tymor hir Cymru.

3.1.10 Er ein bod yn cydnabod bod y ffigurau'n destun amrywiadau blynyddol, o gyfuno'r ffigurau hyn maent yn arwydd o broffil economaidd llawer mwy cadarnhaol ar gyfer yr ardal, a bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni amcanion y strategaeth a arweinir gan yr economi.

3.1.11 O ran gweithredu, fodd bynnag, mae darparu tai ar draws Castell-nedd Port Talbot yn dal i syrthio o dan y targed. Ers dyddiad sylfaen y CDLI, mae nifer y tai a gwblhawyd yn gyfanswm o 2,126 annedd, ac o gymharu â'r targed cronol blynyddol, mae hynny'n dangos mai dim ond 59.4% o'r targed a gyflawnwyd hyd yma.

3.1.12 Er bod digon o dir ar gyfer tai wedi'i ddyrannu yn y CDLI i ddiwallu'r gofyn a nodwyd am dai, am amrywiaeth o resymau (gan gynnwys y rhai sy'n annibynnol ar y system gynllunio), nid yw safleoedd yn cael eu cyflwyno ac yn wneud cynnydd yn unol â'r disgwyl.

3.1.13 Ymhellach, er gwaethaf yr ymdrechion i ddarparu symiau mawr o wybodaeth gefndir ar y safleoedd tai yn Atodiad A o'r CDLI (gan gynnwys mesurau lliniaru/gwneud iawn angenrheidiol a'r gofynion posibl o ran A106/seilwaith), bod rhai ceisiadau, gwaetha'r modd, yn araf yn gwneud cynnydd. Er gwaethaf y pwynt hwn, dylid cydnabod bod cynnydd

wedi digwydd yn lleol ar nifer o safleoedd a ddyrannwyd, gyda rhai safleoedd yn sicrhau Caniatâd Cynllunio, neu geisiadau am gyngor manwl cyn-ymgeisio. Mae disgwyl felly y gallai'r gyfradd gyflawni gynyddu wrth symud ymlaen.

3.1.14 Oddi mewn i 'Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir' mae gwaith adnewyddu yn mynd rhagddo yng nghanol tref Castell-nedd, ac mae nifer o ddyraniadau tai yn cael eu hadeiladu, gan gynnwys Cartref Gofal Hafod House, Groves Road a Heol Castell-nedd/Heol Fairyland yng Nghastell-nedd, ac mae datblygiad Safle Ysgol Glanafan a'r gwaith i ailddatblygu Gorsaf yr Heddlu wedi cael ei gwblhau ym Mhort Talbot. Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe yn y Bae wedi agor, ac mae rhagor o ddatblygiadau ar y safle wedi'u cwblhau a'u rhaglennu.

3.1.15 Oddi mewn i 'Ardal Strategaeth y Cymoedd', mae'r dyraniad tai yn Fferm Bryn Brych, Rhos, yn cael ei adeiladu, a bydd yn darparu'r gyntaf o'r unedau wedi'u cwblhau eleni. Ar ben hynny, cymeradwywyd nifer o safleoedd annisgwyl, a fydd yn ychwanegu at y safleoedd a ddyrannwyd yn yr ardal hon. Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r cynlluniau mwy yn y cymoedd (e.e. Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd a Rheola) yn uchelgeisiau tymor hwy nad oes disgwyl iddynt gael eu cyflawni tan gyfnod diweddarach y Cynllun.

3.1.16 Mae twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi dod yn gyfrannwr pwysig i'r economi leol, ac mae wedi darparu amrywiaeth o gyfleoedd, yn enwedig yn ardaloedd y Cymoedd. Roedd yr ystadegau twristiaeth diweddaraf a ryddhawyd (2018) yn dangos bod twristiaeth, yn 2018, wedi cyfrannu £120.14 miliwn i economi Castell-nedd Port Talbot, cynnydd o £28.13 miliwn ers dyddiad sylfaen y Cynllun (2011). Cymeradwywyd pum cais cysylltiedig â thwristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, gan ganiatáu llety gwyliau (sy'n cynnwys ehangu gwesty presennol) yn yr ardal.

3.1.17 Mae'r Astudiaeth ddiweddaraf ar y cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn 2019 yn dangos bod cyflenwad tir y Cyngor wedi gostwng i 4.5 mlynedd, fodd bynnag. Dyma'r achlysur cyntaf ers mabwysiadu pan yw'r ffigur cyflenwad tir wedi gostwng o dan y 5 mlynedd sy'n ofynnol, ac mae hynny o ganlyniad i'r cyfraddau darparu tai, sy'n dal yn destun siom, ar draws Castell-nedd Port Talbot. Yn flaenorol, roedd y Cyngor wedi dangos bod ganddo gyflenwad tir o 5.0 mlynedd (2016), 5.3 mlynedd (2017) a 5.0 mlynedd (2018) yn eu tro.

3.1.18 Mae nifer o gynlluniau ynni adnewyddadwy/carbon isel wedi cael eu cymeradwyo, gan gynnwys ffermydd gwynt, solar, gwres a phŵer cyfunedig a micro-osodiad dŵr a thrydan. Mae pob un o'r rhain yn cyfrannu at gapasiti gosod Castell-nedd Port Talbot, sydd bellach yn fwy na rhyw 400MW, sef y capasiti gosod uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru.

3 . Y Strategaeth

Aroddiad Monitro Blynnyddol (Hydref 2019)

4 Polisiâu Troswaol

4.1 Polisi Strategol 1 Newid yn yr Hinsawdd

Tabl 4.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
1	Niferyceisiadauaganiatawydodan35anneddfesulhectarynArdalStrategaethCoridor yr Arfordir(ASCA)	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu yn y modd a fwriadwyd	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu
2	Niferyceisiadauaganiatawydodan30anneddfesulhectarynArdalStrategaeth y Cymoedd(ASC)	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
3	Faintodirmaesglasagollwydoeddheb ei ddyrannu yn yCDLI	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
4	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
5	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
6	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dangosydd 1: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir.

Tabl 4.1.2 Polisi Strategol SP1 - Newid yn yr Hinsawdd

Ymdrin ag achosion y newid yn yr hinsawdd trwy batrymau aneddiadau ac anheddau mwy cydlynus ac effeithlon	
Dangosydd Lleol	Niferyceisiadauaganiatawydodan35anneddfesulhectarynArdalStrategaethCoridor yr Arfordir(ASCA).
Targed y Polisi	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn ASCA.
Pwynt Sbarduno	Mae'r dwysedd cyfartalog a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i Bolisi 1 yn syrthio o dan 35 uned yr hectar, oni bai ei fod yn cyfateb i'r fframwaith polisi
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu

4 . Polisiâu Troswaol

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

4.1.1 Mae'r targed a'r sbardunau ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â datblygiadau ar safleoedd a ddyrannwyd. Daeth cyfanswm o ddeg cais am ddatblygiadau preswyl i law ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA) yn ystod y cyfnod monitro. Mae wyth o'r rhain ar gyfer anheddau unigol oddi mewn i ddyraniadau mwy. At ei gilydd, y dwysedd datblygiad cyfartalog a gyflawnwyd ar draws yr holl safleoedd hyn yw 17 annedd fesul hectar (afh). Nid yw naw o'r ceisiadau unigol yn bodloni'r dwysedd targed, tra bod un safle yn rhagori arno.

4.1.2 Cyflwynir y gofynion dwysedd ym Mholisi BE1 maen prawf 8(a) a pharagraff 5.5.14 o'r CDLI. Mae hyn yn dangos y dylid dylunio datblygiadau, lle bo modd, i fwyafu'r llety a ddarperir heb golli cymeriad yr ardal o amgylch. Mae'n nodi ymhellach na chaniateir datblygiad o dan y lefelau dwysedd preswyl a bennwyd oni bai bod modd dangos bod cyfyngiadau sylweddol yn gysylltiedig â safle sy'n atal datblygiad ar y lefelau penodedig neu lle byddai datblygiad o'r dwysedd gofynnol yn cael effaith niweidiol ar gymeriad neu wedd yr ardal leol neu'n arwain at golli nodwedd bwysig o'r safle.

4.1.3 Yn achos dau o'r naw cais nad ydynt yn bodloni'r gofynion dwysedd, mae'r mater hwnnw'n cael sylw yn adroddiad y swyddog. Yr yr achosion hynny, cyfiawnhawyd y dwysedd is yn unol â gofynion y CDLI a nodwyd uchod, ac felly bernir bod yr achosion hyn yn unol â'r fframwaith polisi, ac nad ydynt yn geisiadau 'sbarduno'. Fodd bynnag, yn yr achosion eraill, nid yw adroddiad y swyddog yn darparu unrhyw gyfiawnhad am y dwysedd is a ganiatawyd.

4.1.4 Mae pump o'r achosion hyn yn ymwneud ag un dyraniad CDLI (H1/LB/19 Forest Lodge Lane, Cwmafan), tra bod y llall yn cyfeirio at y Farteg Fawr, Bryn (H1/LB/17). Er nad yw adroddiadau'r swyddog ar gyfer y datblygiadau hyn yn rhoi sylw penodol i fater dwysedd y datblygiad, mae gan y ddau ddatblygiad hanes cynllunio hir ac mae eu cymeriadau dwysedd isel wedi'u sefydlu o'r cychwyn o dan bolisi'r cynllun datblygu blaenorol. Bernir y bydd y pwynt hwn a'r angen am sicrhau bod yr aneddiadau newydd arfaethedig yn cyd-fynd â chymeriad y safleoedd yn cyfiawnhau'r dwysedd isel, ac yn golygu bod y penderfyniadau'n unol â Pholisi BE1, er na roddwyd sylw penodol i hynny yn adroddiadau'r cais.

4.1.5 Mae'r cais terfynol yn un am 8 annedd ar Crown Way, Llandarcy, a gymeradwywyd gyda dwysedd o 30 afh. Yn yr achos hwn, er nad yw'n derbyn sylw penodol yn adroddiad y swyddogion, bernid bod modd cyfiawnhau'r dwysedd is gan fod ardal safle'r cais yn cynnwys estyniad i'r ffordd fynediad a fydd yn gwasanaethu rhan fawr o'r datblygiad yn gyffredinol, gan arwain at ffigur dwysedd is ar gyfer y cais nag a fyddai'n wir fel arall.

4.1.6 Yn gyffredinol, methwyd â chyrraedd targed y polisi o gyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd o gryn dipyn, er i bob achos unigol gael ei benderfynu'n unol â'r fframwaith polisi. O ganlyniad, ni chyrraeddwyd y pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'r polisi'n cyflawni ei amcanion, ac felly bydd yn cael ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLI.

Dangosydd 2: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd.

Tabl 4.1.3 Polisi Strategol SP1 - Newid yn yr Hinsawdd

Ymdrin ag achosion y newid yn yr hinsawdd trwy batrymau aneddiadau ac anheddau mwy cydlynus ac effeithlon	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC).
Targed y Polisi	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn ASC.
Pwynt Sbarduno	Mae'r dwysedd cyfartalog ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd dim mewn i Bolisi H1 yn syrthio o dan 30 uned yr hectar, oni bai ei fod yn cyfateb i'r fframwaith Polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

4.1.7 Fel yn achos Dangosydd 1, mae'r targed a'r pwyntiau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â datblygiadau ar safleoedd a ddyrannwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC).

4.1.8 Cafwyd un cais ar ran safle a ddyrannwyd ym Mhontardawe, ar gyfer 8 annedd. Canlyniad hynny yw dwysedd o ryw 80 afh, sy'n uwch na'r targed o 30 afh ar gyfer datblygiadau yn ASC. Bernir felly bod gofynion y dangosydd hwn wedi'u cyflawni.

Dangosydd 3: Swm y tir maes glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI.

Tabl 4.1.4 Polisi Strategol SP1 - Newid yn yr Hinsawdd

Ymdrin ag achosion y newid yn yr hinsawdd trwy batrymau aneddiadau ac anheddau mwy cydlynus ac effeithlon (Gweler hefyd Polisiâu SP16 a BE1)	
Dangosydd Lleol	Swm y tir maes glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI.
Targed y Polisi	Ni chollwyd tir maes glas yn groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Colli tir maes glas yn groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

4 . Polisiâu Troswaol

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

4.1.9 Y diffiniad o safleoedd maes glas yw safleoedd nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o dir a ddatblygwyd yn flaenorol a geir yn PCC⁽⁷⁾. Mae Polisi BE1[8(c)] yn datgan na chaniateir cynigion ond pan fyddant yn defnyddio adnoddau, gan gynnwys tir ac ynni, mor effeithlon â phosibl trwy ddatblygu tir maes llwyd yn hytrach na thir maes glas lle bo modd.

4.1.10 Cymeradwywyd cyfanswm o 15 cais ar gyfer datblygiadau ar safleoedd maes glas oedd heb eu dyrannu ar draws y Fwrdeistref Sirol. Er mwyn cadw at y fframwaith polisi, byddai angen dangos nad oedd modd cyflawni'r datblygiadau ar safle maes llwyd amgen.

4.1.11 Mae deg o'r ceisiadau ar gyfer anheddau unigol ar safleoedd bach lle na fyddai opsiwn amgen tir llwyd wedi bod ar gael. Mae dau ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy (gosodiad micro hydro a fferm wynt fechan) na fyddai modd yn rhesymol eu lleoli rywle arall.

4.1.12 O'r tri chais oedd yn weddill, mae'r cyntaf yn ymwneud â maes chwarae newydd a chwrs rhwystrau mewn ardal hamdden/man agored sydd eisoes yn bodoli, y bernir ei bod yn estyniad priodol o'r defnydd presennol, lle nad oedd safleoedd maes llwyd amgen addas ar gael. Mae'r ail yn rhan o gymeradwyo estyniad i lofa yn Aberpergwm, sy'n cynnwys ardaloedd coedwigaeth i'w defnyddio i storio gwastraff o'r mwynglawdd ac ardaloedd lliniaru mawn: ni fuasai modd yn rhesymol darparu lle ar gyfer y cyfleusterau hyn rywle arall.

4.1.13 Roedd y trydydd cais ar gyfer lleoli dwy garafán ac adeilad amwynder mewn cae a fu'n badog ym Mhen y Bryn. Caniatwyd y datblygiad hwn ar apêl a bu'r Arolygydd Cynllunio yn ymdrin â mater lleoliadau amgen posibl yn fanwl, gan ddod i'r casgliad nad oedd y dewisiadau amgen oedd ar gael yn ddichonadwy.

4.1.14 Er na roddwyd sylw uniongyrchol i fater argaeledd safleoedd maes llwyd amgen (neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol) yn adroddiadau'r swyddog (neu lythyr penderfyniad yr arolygydd), bernir nad oedd tir amgen o'r fath ar gael yn ymarferol mewn lleoliad addas ar gyfer unrhyw un o'r datblygiadau arfaethedig, ac felly o ganlyniad nad oes unrhyw un o'r cynigion yn groes i'r maen prawf hwn ym Mholisi BE1.

4.1.15 Bernir felly bod gofynion y dangosydd hwn wedi'u cyflawni.

Dangosydd 4: Nifery ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau addiogelwyd.

Tabl 4.1.5 Polisi Strategol SP1 - Newid yn yr Hinsawdd

Ymdrin ag achosion newid yn yr hinsawdd trwy annog cludo nwyddau ac anfon trafndiaeth fasnachol ar hyd llwybrau heblaw'r ffordd	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau aganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau addiogelwyd
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi ar safleoedd sydd wedi'u diogelu ar gyfer cludo nwyddau.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

4.1.16 Ni fu unrhyw geisiadau oddi mewn i leoliad cyfleuster nwyddau wedi'i ddiogelu sy'n cael ei gwmpasu gan Bolisi TR4 (Diogelu Cyfleusterau Cludo Nwyddau) yn ystod y cyfnod monitro. O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosyddhwn.

Dangosydd 5: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1.

Tabl 4.1.6 Polisi Strategol SP1 - Newid yn yr Hinsawdd

Ymdrin â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd trwy dywys datblygiad i ffwrdd oddi wrth dir sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd.	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1 os nad ydynt yn bodloni holl broffion TAN 15.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad hynod fregus nad yw'n bodloni holl ofynion TAN 15.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

4 . Polisiâu Trosfwaol

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

4.1.17 Cymeradwywyd cyfanswm o 7 cais o fewn y cyfnod monitro ar gyfer datblygiadau o fewn neu'n rhannol o fewn Parth MCD C1. Mewn perthynas â Dangosydd 5, mae'r pwyntiau targed a sbarduno yn ymwneud â datblygiadau hynod fregus (fel y diffiniwyd yn TAN15) oddi mewn i C1 nad ydynt yn bodloni'r profion a nodwyd yn y TAN.

4.1.18 Roedd tri o'r ceisiadau yn ymwneud â mathau bregus iawn o ddatblygiad. Roedd pob un o'r rhain ar gyfer newidiadau defnydd (dau ar gyfer cynlluniau preswyl ac un ar gyfer meithrinfa ddydd). Ym mhob un o'r achosion hyn cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda CNC, na fu iddynt fynegi unrhyw wrthwynebiad ar sail llifogydd, a barnwyd bod y cynigion yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn TAN 15 (Datblygiad a Risg Llifogydd).

4.1.19 Bernir felly nad oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosydd 6: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2.

Tabl 4.1.7 Polisi Strategol SP1 - Newid yn yr Hinsawdd

Ymdrin â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd trwy dywys datblygiad i ffwrdd oddi wrth dir sydd mewn perygl o ddiodef llifogydd.	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad hynod fregus.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

4.1.20 Cymeradwywyd un cais o fewn y cyfnod monitro ar gyfer datblygiad lle roedd rhan o'r safle ym Mharth MCD C2. Roedd hyn ar gyfer annedd preswyl ac felly roedd yn ddatblygiad hynod fregus oedd yn berthnasol i ddangosydd 6.

4.1.21 Mae TAN 15 yn nodi na ddylid caniatáu datblygiad hynod fregus ym mharth C2, ond barnwyd bod y cynnig yn dderbyniol (mewn ymgynghoriad â CNC), gan nad oedd ôl-troed y tŷ wedi'i leoli yn y gorlifdir, a chyflwynwyd asesiad canlyniadau llifogydd derbyniol gyda'r cais.

Bernir felly nad oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

4.2 Polisi Strategol 2 Iechyd

Tabl 4.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
7	Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored achyfleusterau cymunedol	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
8	Niferyceisiadau awrthodwydarsail dylunio	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
9	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Dylunio	Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2018	Dim angen camau pellach.

Dangosydd 7: Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol.

Tabl 4.2.2 Polisi Strategol SP2 – Iechyd

Ymdrin â materion iechyd a salwch trwy gadw cyfleusterau hamdden hygyrch, adloniant, iechyd, cymdeithasol a chymunedol (Gweler hefyd Bolisiau SP10, OS2, SC2)	
Dangosydd Lleol	Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol.
Targed y Polisi	Ni chaniateir colli cyfleusterau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Collwyd un cyfleuster yn groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

Cyfleusterau Cymunedol

4.2.1 Yn ystod y cyfnod monitro bu nifer o geisiadau sydd wedi arwain at 'gollu' cyfleuster cymunedol pwysig oedd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, o fewn pob un o'r yn yr achosion hyn mae adroddiad y swyddog wedi cyfeirio at Bolisi SC2 a bu'n darparu cyfiawndad ar gyfer y dull a ddefnyddiwyd. Ar y cyfan, felly, gellir dod i'r casgliad bod y Polisi'n cael ei gymhwyso mewn modd cyson, a bydd yn parhau i gael ei fonitro.

Mannau Agored

4.2.2 Yn ystod y cyfnod monitro cymeradwywyd dau gais sydd wedi effeithio ar fannau agored (h.y. darnau o dir a nodwyd yn 'Asesiad Mannau Agored' y Cyngor).

4 . Polisiâu Trosfwaol

4.2.3 Roedd un cais yn golygu colli darn bach o dir nad oedd yn cael ei ddefnyddio, y tu hwnt i gae criced, yn agos at ffin y safle. Nodwyd yr ardal hon yn yr Asesiad Mannau Agored fel man agored, a'r cynnig oedd newid defnydd i'w ymgorffori mewn cwrtil preswyl, fel ei fod yn achosi colled net bychan. Fodd bynnag, bu adroddiad y swyddog yn ymdrin yn llawn â'r golled wrth ystyried y cais. Roedd yr ail gais yn cynnwys newid defnydd o'r math o ddarpariaeth manau agored, yn yr ystyr bod ardal o amgylch ymyl y cae chwarae (a gynhwyswyd yn yr Asesiad Mannau Agored) i'w defnyddio ar gyfer offer chwarae plant. Bu adroddiad y swyddog yn ymdrin yn llawn â gofynion y polisi, ac i bob pwrpas roedd yn newid yn y math o ddarpariaeth, yn hytrach na cholled. Ym mhob achos roedd adroddiadau'r swyddog yn ystyried colli manau agored ac yn darparu cyfiawnhad rhesymol ar gyfer y cynigion.

4.2.4 At ei gilydd, felly, ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n dda, a bydd hynny'n parhau i gael ei fonitro mewn AMBau yn y dyfodol.

Dangosydd 8: Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio.

Tabl 4.2.3 Polisi Strategol SP2 – Iechyd

Ymdrin â materion iechyd a salwch trwy gadw cyfleusterau hamdden, adloniant, iechyd, cymdeithasol a chymunedol hygyrch (Gweler hefyd Bolisi BE1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

4.2.5 Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â materion iechyd a salwch a'r angen am gadw cyfleusterau ac amwynderau. Cyfeirir hefyd at amcanion 23 a 24 yn y CDLI, sy'n ymwneud â'r angen am amddiffyn, cadw a gwella'r dreftadaeth hanesyddol, yr amgylchedd adeiledig a hunaniaeth y Fwrdeistref Sirol, a'r prif byrth sy'n gwasanaethu Castell-nedd Port Talbot.

4.2.6 Y dangosydd hwn yw nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio, tra bod y targed a'r pwynt sbarduno yn cyfeirio at ganiatâd a roddwyd yn groes i'r fframwaith polisi dylunio. Cyfanswm o saith cais sylweddol (heb gynnwys perchnogion tai a chynigion ar raddfa fach) am resymau oedd yn cynnwys sylfaen ddylunio yn ystod y cyfnod monitro. Bernir na chymeradwywyd ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi dylunio. O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno yng nghyswllt y dangosydd hwn.

Dangosydd 9: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Dylunio.

Tabl 4.2.4 Polisi Strategol SP2 – Iechyd

Ymdrin â materion iechyd a salwch trwy gadw cyfleusterau hamdden, adloniant, iechyd, cymdeithasol a chymunedol hygrych (Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio)	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Dylunio.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Dylunio erbyn mis Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

4.2.7 Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2018 - nid oes angen monitro/gweithredu pellach.

4 . Polisiâu Trosfwaol

4.3 Polisi Strategol 3 Cymunedau Cynaliadwy

Tabl 4.3.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Perfformiad	Cam Gweithredu
10	Swm y datblygiad manwerthu, swyddfa a hamdden pwysig a ganiateir yng nghanol y dref ac mewn canolfannau y tu allan i'r dref	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
11	Niferyceisiadau aganiatawydytuallan i derfynau aneddiadau	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dangosydd 10: Swm y datblygiad manwerthu, swyddfa a hamdden pwysig a ganiatawyd yng nghanol y dref ac mewn canolfannau y tu allan i'r dref.

Tabl 4.3.2 Polisi Strategol SP3 - Cymunedau Cynaliadwy

Hybu cymunedau cynaliadwy, cydlynus trwy nodi hierarchaeth aneddiadau (Gweler hefyd Bolisi SC1)	
Dangosydd Craidd	Swm y datblygiad manwerthu, swyddfa a hamdden pwysig a ganiateir yng nghanol y dref ac mewn canolfannau y tu allan i'r dref.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

4.3.1 Allan o gyfanswm o 10 cais oedd yn ymwneud â datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden yn y cyfnod monitro, roedd pedwar yn ymwneud â datblygiadau mawr (dros 1,000m²). Roedd hwn ar gyfer datblygiad o 8 uned fanwerthu A1 ac uned A1, A3 a D2 ar y llawr cyntaf yn Stryd y Dŵr, yng nghanol Castell-nedd, mewn ardal a ddyrannwyd at ddefnyddiau preswyl a manwerthu cymysg (CCRS1, R1/1 ac H1/7).

4.3.2 Penderfynwyd ar y cynnig hwn, felly, yn unol â'r fframwaith polisi cynllunio, sy'n cyd-fynd â dyraniad y CDLI ar gyfer y safle. O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosydd 11: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau

Tabl 4.3.3 Polisi Strategol SP3 - Cymunedau Cynaliadwy

Hybu cymunedau cynaliadwy a chydlynus trwy wrthsefyll datblygiadau amhriodol y tu allan i derfynau anheddiad (Gweler hefyd Bolisi SC1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

4.3.3 Cymeradwywyd cyfanswm o 25 cais y tu allan i derfynau aneddiadau yn ystod y cyfnod monitro, ac roedd pob un o'r rhain yn unol â Pholisi SC1. O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. Roedd mwyafrif llethol y ceisiadau a gymeradwywyd yn ymwneud â thwristiaeth a throsi cyfadeiladau fferm i greu llety i dwristiaid. Roedd dau yn arbennig yn cynnwys adeiladau newydd, ond roedd y rheiny'n disodli eiddo presennol nad oeddent yn cyrraedd y safon, ac felly byddant yn cael eu hadeiladu ar yr un ôl-troed o'r un maint.

4 . Polisiâu Trosfwaol

4.4 Polisi Strategol 4 Seilwaith

Tabl 4.4.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
12	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae seilwaith newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu
13	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhwymedigaethau Cynllunio	Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017	Dim angen camau pellach.

Dangosydd 12: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae seilwaith newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr.

Tabl 4.4.2 Polisi Strategol SP4 – Seilwaith

Darparu seilwaith ac effaith datblygiad newydd ar gymunedau sydd eisoes yn bodoli (Gweler hefyd Bolisi 11)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae seilwaith newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr.
Targed y Polisi	Bydd Datblygiad Newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny'n briodol.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

4.4.1 Mae nifer o geisiadau cynllunio wedi cael eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro yn amodol ar lofnodi cytundeb cyfreithiol Adran 106 (A106) i sicrhau seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr. Mae'r tabl canlynol a'r sylwadau isod yn darparu manylion y cytundebau cyfreithiol A106 perthnasol a lefel y cyfraniadau a sicrhawyd gan ddatblygwyr:

Cyf. y Cais	Lleoliad y Safle	Cyf. y Safle	Mannau Agored	Priffyrdd	Yr Iaith Gymraeg	Addysg	Bioamrywiaeth
P2017/0800	Cilgant Elba, Twyni Crymlyn	H1/LB/3	£100,000 ⁽¹⁾				
P2017/1167	Cilgant Llansawel, Llansawel		£13,302				
P2018/0746	Parc Newydd, Llansawel		£15,519				

Cyf. y Cais	Lleoliad y Safle	Cyf. y Safle	Mannau Agored	Priffyrdd	Yr Iaith Gymraeg	Addysg	Bioamrywiaeth
P2019/0074	Teras Evelyn, Port Talbot		£19,380				
P2018/0813	Rhes y Parc, Cwmafan		£5,448 (Gweithred Amrywiad)				

1. Mae hon yn weithred sy'n amrywio'r A106 gwreiddiol i'w ddefnyddio ar fan agored a chyfleusterau cymunedol yn lleol

4.4.2 Yn ystod y cyfnod monitro, sicrhawyd cyfraniadau ariannol gwerth cyfanswm o £153,649 yn benodol ar gyfer manau agored. Er gwaethaf y cyfraniad cadarnhaol hwn, ni fodlonwyd y gofynion polisi o ran manau agored ym mhob achos, gan fod nifer o geisiadau wedi'u cymeradwyo yn ystod yr un cyfnod heb fod angen darparu gofynion manau agored (neu swm wedi'i gymudo ar gyfer darpariaeth oddi ar y safle), er bod y cynigion wedi cyrraedd y trothwy a nodwyd ym Mholisi OS1 (ceir manylion pellach yn y dadansoddiad ar gyfer Dangosydd 46).

4.4.3 O ran cyfraniadau tai fforddiadwy, sbardunwyd y ceisiadau canlynol gan Bolisi AH1 (ac felly Bolisi I1): roedd P2017/0322 'Heol y Farteg, Bryn' a P2017/1094 Teras y Tabernacl, Cwmafan, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer tai fforddiadwy; barnwyd bod dau gais P2017/0914 'Heol yr Orsaf, Port Talbot' a P2017/0848 'Tynllechau, Cilffriw' yn annichonadwy o safbwynt darparu cyfraniadau; cymeradwywyd dau gais P2017 /1105 'Heol y Graig, Alltwen' a P2017/1107 'Heol y Dyffryn, Pontardawe' yn amodol ar gytundeb A106 oedd yn ymwneud â chyflwyno astudiaeth ddichonoldeb flynyddol.

4.4.4 Ar ben hynny, roedd y ceisiadau canlynol yn gysylltiedig â chynlluniau 100% Tai Fforddiadwy: P2017/1167 'Cilgant Llansawel, Llansawel'; P2018/0746 Parc Newydd Llansawel, P2018/0813 'Rhes y Parc, Cwmafan' (amrywio amod); P2019/0074 'Teras Evelyn, Port Talbot'; a P2018 /1027 'Ffordd y Goron, Coed Darcy'.

4.4.5 Yng nghyswllt pob categori arall o seilwaith, mae effaith datblygiad newydd ar gymunedau wedi derbyn sylw yn ystod y broses o wneud penderfyniad. Lle barnwyd bod hynny'n gam gweithredu priodol, mae cytundebau A106 bellach yn eu lle i ymdrin ag effeithiau penodol cysylltiedig â'r datblygiadau arfaethedig, a hefyd i sicrhau bod anghenion defnyddwyr terfynol yn cael eu diwallu yn y dyfodol.

4.4.6 Er bod y polisi'n cael ei weithredu'n gyson at ei gilydd, bu nifer cyfyngedig o achosion lle na chyflawnwyd y gofynion polisi yn llawn wedi derbyn sylw. Yn aml cyfeirir at ddichonoldeb fel rheswm pam nad yw darpariaeth neu gyfraniadau A106 wedi bod yn bosibl, ac er bod hynny'n anffodus, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod amgylchiadau pan na ellir cyflawni'r holl rwymedigaethau a nodwyd heb beryglu dichonoldeb cyffredinol cynllun datblygu penodol.

4.4.7 Fodd bynnag, mae'r achosion hynny lle na chyflawnwyd gofynion y polisi yn geisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. Bydd y polisi a dichonoldeb y datblygiad, yn arbennig yng nghyswllt tai fforddiadwy, yn cael ei ailasesu felly fel rhan o adolygiad y CDLI.

4 . Polisiau Troswaol

Dangosydd 13: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhwymedigaethau Cynllunio.

4.4.8 Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017 - nid oes angen monitro/gweithredu pellach.

5 Polisiâu Ardal

5.1 Polisi Strategol 5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Tabl 5.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
14	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation the Policy will be subject to a review process
15	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation the Policy will be subject to a review process
16	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation the Policy will be subject to a review process
17	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation the Policy will be subject to a review process
18	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation the Policy will be subject to a review process
19	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation the Policy will be subject to a review process
20	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation the Policy will be subject to a review process
21	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
22	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.	Cwblhawyd yn 2014	Dim angen camau pellach.
23	Paratoi CCA sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr, Port Talbot a Chanol y Dref.	Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol
24	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
25	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

5 . Polisiâu Ardal

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
26	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan.	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
27	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan.	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
28	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan.	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
29	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan.	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
30	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi.	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dangosydd 14: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir.

Tabl 5.1.2 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Darparu ar gyfer mwyafrif y datblygiadau tai newydd ar hyd Coridor yr Arfordir (Gweler hefyd Bolisiau SP7, H1)	
Dangosydd Lleol	Niferyr unedau tai newydd a ganiatawyd a chyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir.
Targed y Polisi	<p>Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 5,690 o unedau tai newydd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir dros gyfnod y Cynllun.</p> <p>Targedau Blynyddol:</p> <p>2011/12 - 152</p> <p>2012/13 - 134</p> <p>2013/14 - 216</p> <p>2014/15 - 268</p> <p>2015/16 - 318</p> <p>2016/17 - 379</p> <p>2017/18 - 495</p> <p>2018/19 - 533</p>

Darparu ar gyfer mwyafrif y datblygiadau tai newydd ar hyd Coridor yr Arfordir (Gweler hefyd Bolisiau SP7, H1)	
	2019/20 - 518
	2020/21 - 513
	2021/22 - 502
	2022/23 - 468
	2023/24 - 412
	2024/25 - 387
	2025/26 - 375
Pwynt Sbarduno	MaeniferyrunedautainewyddaddarparwydoddimewniArdalStrategaeth CoridoryrArfordirynsyrthioodanygofyniadcronnolam2flyneddynolynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y Polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.1 Mae'r tabl canlynol yn dangos cyflenwi tai ar hyd Coridor yr Arfordir yn erbyn y targedau blynyddol a geir yn y fframwaithmonitro:

Tabl 5.1.3 Cyflenwi Tai ar hyd Coridor yr Arfordir

Blwyddyn	Targed Blynyddol	Cwblhau Tai	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflenwi yn erbyn y Targed
2011/12	152	152	152	152	0
2012/13	134	134	286 (+134)	286	0
2013/14	216	217	502 (+216)	503	+1
2014/15	268	235	770 (+268)	738	-32
2015/16	318	130	1088 (+318)	868	-220
2016/17	379	113	1467 (+379)	981	-486
2017/18	495	78	1846 (+495)	1059	-787
2018/19	533	130	2,495 (+533)	1,189	-1,306

5.1.2 5.1.2 Oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, mae nifer y tai a gyflenwir ar safleoedd a ddyrannwyd yn parhau i syrthio tu ôl i'r targedau yn y fframwaith monitro. Yn ystod blwyddyn fonitro 2018/19, cofnodwyd cyfanswm o 130 o ddatblygiadau tai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn ardal Coridor yr Arfordir. Er bod hyn yn welliant ar y ddwy flynedd flaenorol, mae'r ffigur hwn yn dal yn sylweddol is na tharged y flwyddyn o 533 o anheddau.

5 . Polisiâu Ardal

5.1.3 Ers dyddiad sylfaen y CDLI (2011), mae nifer y tai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd ar Goridor yr Arfordir wedi cyrraedd cyfanswm o 1,189 o anheddau. O gymharu â'r targed blynyddol cronol o 2,495, mae hyn yn dangos bod lefelau cwblhau bellach wedi gostwng 1,306 o dan y targed, a 47.7% yn unig o'r targed blynyddol cronol a gyflwynwyd hyd yma.

5.1.4 Er bod digon o dir ar gyfer tai wedi'i ddyrannu yn y CDLI i ddiwallu'r gofyn a nodwyd am dai, am amrywiaeth o resymau (gan gynnwys y rhai sy'n annibynnol ar y system gynllunio), nid yw safleoedd a ddyrannwyd yn cael eu cyflwyno ac yn gwneud cynnydd yn unol â'r disgwyl. Yn arbennig, gwnaed cynnydd cyfyngedig yng nghyswllt y ddwy 'Ardal Adfywio Strategol' a ddyrannwyd yng Nghoed Darcy, Castell-nedd (cyfeirier at Ddangosydd 15) a Glannau'r Harbwr, Port Talbot (cyfeirier at Ddangosydd 19).

5.1.5 Er gwaethaf y pwynt hwn, dylid cydnabod bod cynnydd wedi digwydd yn lleol ar nifer o safleoedd a ddyrannwyd, gyda rhai safleoedd yn sicrhau Caniatâd Cynllunio, neu geisiadau am gyngor manwl cyn-ymgeisio. Mae disgwyl, felly, y gallai'r cyfradd darparu gynyddu yn y cyfnod monitro nesaf a'r tu hwnt.

5.1.6 O ystyried, fodd bynnag, ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi a bod y polisi'n amlwg heb gyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 15: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.

Tabl 5.1.4 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Gweler hefyd Bolisiau SP7, SRA1, H1)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.
Targed y Polisi	Darparu ar gyfer datblygu 2,400 o unedau tai newydd erbyn 2026. Targedau Blynyddol: 2011/12 - 0 2012/13 - 3 2013/14 - 72 2014/15 - 100 2015/16 - 125 2016/17 - 140

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Gweler hefyd Bolisiau SP7, SRA1, H1)	
	2017/18 - 170 2018/19 - 190 2019/20 - 215 2020/21 - 215 2021/22 - 215 2022/23 - 225 2023/24 - 235 2024/25 - 245 2025/26 - 250
Pwynt Sbarduno	Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd oddi mewn i AAS Coed Darcy yn syrthio o dan y gofyniad cronol am 2 flynedd yn olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.7 Mae'r tabl canlynol yn dangos cyflenwi tai yng Nghoed Darcy yn erbyn y targedau blynyddol a geir yn y fframwaith monitro:

Tabl 5.1.5 Cyflenwi Tai yng Nghoed Darcy

Blwyddyn	Targed Blynyddol	Cwblhau Tai	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflawni yn erbyn y Targed
2011/12	0	0	0	0	0
2012/13	3	3	3	3	0
2013/14	72	72	75 (+72)	75	0
2014/15	100	76	175 (+100)	151	-24
2015/16	125	62	300 (+125)	213	-87
2016/17	140	53	440 (+140)	266	-214
2017/18	170	23	610 (+170)	289	-321
2018/19	190	2	800 (+190)	291	-509

5 . Polisiâu Ardal

5.1.8 Mae darparu tai yng Nghoed Darcy yn dal i fethu â chyrraedd y targedau a geir yn y fframwaith monitro. Yn ystod blwyddyn fonitro 2018/19, cofnodwyd mai 2 ddatblygiad tai yn unig a gwblhawyd, ac roedd y ffigur yn sylweddol is na tharged y flwyddyn, sef 190 o anheddau.

5.1.9 Ers dyddiad sylfaen y CDLI (2011), felly, mae nifer y tai a gwblhawyd yng Nghoed Darcy wedi cyrraedd cyfanswm o 291 o anheddau. O gymharu â'r targed blyneddol cronol o 800, mae hyn yn dangos bod lefelau cwblhau bellach wedi gostwng 509 o dan y targed, a 36.4% yn unig o'r targed blyneddol cronol a gyflwynwyd hyd yma.

5.1.10 Er gwaethaf y sefyllfa hon, dylid cydnabod bod y Cyngor a St Modwen Developments Ltd (SMDL) yn dal i gydweithio i asesu cadernid y Cytundeb Cyfreithiol A106 o ran cefnogi datblygiad preswyl pellach yn rhan ogleddol y safle, lle mae cyfnod cychwynnol y datblygiad preswyl wedi cychwyn, a'i allu i ganiatáu ar gyfer cychwyn ail haen o ddatblygiad yn yr ardal ddeheuol. Mae disgwyl, felly, y gallai'r gyfradd darparu ar y safle gynyddu yn y cyfnod monitro nesaf a'r tu hwnt.

5.1.11 O ystyried, fodd bynnag, ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi a bod y polisi'n amlwg heb gyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 16: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.

Tabl 5.1.6 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Gweler hefyd Polisiâu SP11, SRA1, EC1/3)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.
Targed y Polisi	Bydd isafswm o 4ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o 0.33ha yn cael ei ddatblygu bobblwyddynamyllyneddoddsy'nweddilllogyfnodyCynllun.gydatharged cronol o 0.66ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2flynedd.
Pwynt Sbarduno	Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddefnyddiau cyflogaeth yn AAS Coed Darcy yn syrthio o dan y gofyniad cronol am 2 flynedd yn olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y Polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.12 Hyd yma, ni ddatblygwyd tir at ddefnyddiau cyflogaeth oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy. Mae cysylltiad agos rhwng darparu tir cyflogaeth yng Nghoed Darcy a chyflenwi tai, ac arweiniodd y gyfradd arafach na'r disgwyl wrth ddarparu tai a seilwaith at oedi yn elfen gyflogaeth y cynllun adfywio defnydd cymysg.

5.1.13 Er gwaethaf y disgwyl y gallai cyfradd y datblygiad ar y safle gynyddu yn ystod y cyfnod monitro nesaf ac wedi hynny, gan fod pwyntiau sbarduno'r polisi wedi'u cyrraedd a bod y polisi yn amlwg heb gyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 17: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.

Tabl 5.1.7 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Gweler hefyd Bolisi TR1/2)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.
Targed y Polisi	Cyflawni Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A106.
Pwynt Sbarduno	Nid yw Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn cael ei chyflawni yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A106.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y Polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.14 Yng nghyswllt Ffordd Fynediad Ddeheuol (SAR) Coed Darcy mae trafodaethau'n parhau rhwng y Cyngor a St Modwen Developments Ltd (SMDL) i asesu cadernid y Cytundeb Cyfreithiol A106 o ran cefnogi datblygiad preswyl pellach yn rhan ogleddol y safle, lle mae cyfnod cychwynnol y datblygiad preswyl wedi cychwyn, a'i allu i ganiatáu ar gyfer cychwyn ail haen o ddatblygiad yn yr ardal ddeheuol.

5.1.15 Er na wnaed hynny'n ffurfiol eto, mae'r Cyngor a SMDL wedi dod i gytundeb mewn egwyddor i weithredu sbardun diwygiedig ar gyfer cyflawni'r Ffordd Fynediad Ddeheuol. Roedd yr A106 cychwynnol yn gofyn bod yr SAR yn cael ei gyflawni cyn llenwi mwy na 300 o gartrefi a'r nod wrth ddiwygio yw caniatáu i'r ffigur hwn gynyddu, ac addasu amseriad yr SAR a'r ddolen briffordd strategol. Bydd diwygio fel hyn yn golygu bod modd datblygu Coed Darcy mewn dau gyfeiriad, fel bod nifer yr unedau preswyl i'w meddiannu yn gallu cynyddu

5 . Polisiâu Ardal

5.1.16 Yn y man, bydd sbardun diwygiedig ar gyfer cyflawni'r Ffordd Fynediad Ddeheuol yn cael ei gytuno a'i gynnwys, fel bod gofyniad i gwblhau'r ffordd cyn dyddiad penodol neu lefel meddiant penodol (p'un bynnag ddaw gyntaf). Er na chyrrhaeddwyd y pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn eto, o ystyried y diffyg cynnydd hyd yma, bydd cyflawni'r SAR (Polisi TR1/2) felly yn cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 18: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.

Tabl 5.1.8 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Gweler hefyd Bolisi TR1/4)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.
Targed y Polisi	Cyflawni'r gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4) yn raddol, yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A106.
Pwynt Sbarduno	Nid yw Cyffordd 43 (yr M4) yn cael ei gyflawni yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A106.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y Polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.17 Yn gysylltiedig â chyflawni'r Ffordd Fynediad Ddeheuol (gweler Dangosydd 17 uchod), mae'r Cytundeb A106 presennol hefyd yn gofyn bod cyfres o welliannau'n cael eu gwneud i Gyffordd 43 o'r M4, a'r ffordd sy'n cysylltu'r cynllun â'r gyffordd, sef y Ffordd Fynediad Ogleddol fel y'i gelwir. Mae gwaith eisoes wedi'i gwblhau o ran cyfnodau cychwynnol y gwaith gwella.

5.1.18 Fel rhan o'r trafodaethau parhaus, cytunwyd mewn egwyddor hefyd rhwng y Cyngor ac SMDL i ymgorffori amserlenni diwygiedig ar gyfer cyflwyno'r gwaith ar Gyffordd 43 yn raddol. Yn syml, bydd y newidiadau'n addasu'r cyfnodau o gyflwyno'r gwaith er mwyn cynyddu'r capasiti posibl o ran traffig ychwanegol o'r safle i Gyffordd 43 yn gynharach, fel bod modd adeiladu nifer mwy o anheddau preswyl cyn adeiladu'r ddolen briffordd strategol sy'n cysylltu Cyffordd 43 â'r A483 (Ffordd Fabian), ar hyd y Ffordd Fynediad Ddeheuol (gweler uchod) - h.y. bydd cyfran uwch o'r traffig yn cael ei gyfeirio i mewn ac allan o'r safle o'r gogledd yn y tymor byrrach, a bydd cyfnodau'r gwaith i wella'r briffordd yn cael eu hailbroffilio i ddarparu ar gyfer hynny.

5.1.19 Yn y man, bydd cyflwyniad graddol diwygiedig yn cael ei gytuno a'i gynnwys ar gyfer gwelliannau Cyffordd 43. Er na chyrhaeddwyd y pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn eto, o ystyried y diffyg cynnydd hyd yma, bydd cyflawni'r Gwelliannau i Gyffordd 43 (Polisi TR1/4) felly yn cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 19: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.

Tabl 5.1.9 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr (Gweler hefyd Bolisiâu SP7, SRA2, H1)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.
Targed y Polisi	<p>Darparu 385 o unedau tai newydd erbyn 2026.</p> <p>Targedau Blynyddol:</p> <p>2011/12 - 0</p> <p>2012/13 - 0</p> <p>2013/14 - 0</p> <p>2014/15 - 0</p> <p>2015/16 - 35</p> <p>2016/17 - 0</p> <p>2017/18 - 10</p> <p>2018/19 - 30</p> <p>2019/20 - 30</p> <p>2020/21 - 50</p> <p>2021/22 - 50</p> <p>2022/23 - 50</p> <p>2023/24 - 50</p> <p>2024/25 - 50</p> <p>2025/26 - 30</p>
Pwynt Sbarduno	Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd oddi mewn i AAS Glannau'r Harbwr yn syrthio o dan y gofyniad cronol am 2 flynedd yn olynol.

5 . Polisiâu Ardal

Dyranu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr (Gweler hefyd Bolisiau SP7, SRA2, H1)	
Perfformiad	
Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y Polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.20 Mae darparu tai yng Nglannau'r Harbwr bellach wedi syrthio ar ei hôl hi o ran y targedau yn y fframwaith monitro am ddwy flynedd yn olynol. Er mai ailddatblygu 'Parc Gwyrdd' oedd yr elfen breswyl gyntaf yn yr Ardal Adfywio Strategol a gwblhawyd yn 2016/17, gyda'r safle yn darparu 34 o unedau preswyl, yn ystod blwyddyn fonitro 2018/19, ni chofnodwyd bod unrhyw ddatblygiadau tai wedi'u cwblhau, ac roedd y ffigur yn is na tharged y flwyddyn, sef 30 annedd.

5.1.21 Ers dyddiad sylfaen y CDLI (2011), felly, mae nifer y tai a gwblhawyd yng Nglannau'r Harbwr wedi cyrraedd cyfanswm o 34 o anheddau. O gymharu â'r targed blynyddol cronol o 75, mae hyn yn dangos bod lefelau cwblhau bellach wedi gostwng 41 o dan y targed, a 54.7% yn unig o'r targed blynyddol cronol a gyflwynwyd hyd yma.

5.1.22 Er gwaethaf y disgwyl y gallai cyfradd y datblygiad ar y safle gynyddu yn ystod y cyfnod monitro nesaf ac wedi hynny, gan fod pwyntiau sbarduno'r polisi wedi'u cyrraedd a bod y polisi yn amlwg heb gyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 20: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.

Tabl 5.1.10 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyranu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr (Gweler hefyd Bolisiau SP11, SRA2, EC1/4)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.
Targed y Polisi	Byddisafswmo 7hectar o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod Cynllun argyferdefnyddia cyflogaeth, gydag isafswm o 0.46ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn a blynyddoeddsy'n weddill o gyfnod Cynllun, gyda tharged cronol o 0.92 hectar i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd.
Pwynt Sbarduno	Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddefnyddiau cyflogaeth yn AAS Glannau'r Harbwr yn syrthio o dan y gofyniad cronol am 2 flynedd yn olynol.
Perfformiad	

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr

(Gweler hefyd Bolisiau SP11, SRA2, EC1/4)

Gweithredu

Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.23 Ers dyddiad sylfaen y CDLI, mae cyfanswm o 1.8 hectar (ha) o dir at ddefnyddiau cyflogaeth wedi cael ei ddatblygu yng Nglannau'r Harbwr.

Tabl 5.1.1 Datblygu Cyflogaeth ar lan yr harbwr

Blwyddyn	Tir Cyflogaeth a Ddatblygwyd	Targed Cronnol	Datblygiad Cronnol	Datblygiad yn erbyn y Targed
2011/2012	1.72ha	1.7ha	1.7ha	0
2012/2013	0	2.16ha (+0.46ha)	1.7ha	-0.46ha
2013/2014	0	2.62ha (+0.46ha)	1.7ha	-0.92ha
2014/2015	0	3.08ha (+0.46ha)	1.7ha	-1.38ha
2015/2016	0.098ha	3.54ha (+0.46ha)	1.8ha	-1.74ha
2016/2017	0	4ha (+0.46ha)	1.8ha	-2.2ha
2017/2018	0	4.46ha (+0.46ha)	1.8ha	-2.66ha
2018/2019	0	4.92ha (+0.46ha)	1.8ha	-3.12ha

5.1.24 Targed y polisi yw datblygu isafswm o 0.46ha y flwyddyn dros gyfnod y cynllun, gyda tharged cronol o 0.92ha i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o ddwy flynedd. Oddi mewn i'r cyfnod monitro cyfredol, ni fu datblygiad yng Nglannau'r Harbwr.

5.1.25 Ni ddatblygwyd tir at ddefnyddiau cyflogaeth yn awr yng Nglannau'r Harbwr am dair blwyddyn yn olynol. Cyrhaeddwyd pwynt sbarduno'r polisi y llynedd pan nodwyd bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 7,303 msg o arwynebedd llawr cyflogaeth ar 2.1ha o dir ers dyddiad sylfaen y CDLI, ond nad oedd y caniatâd hwnnw wedi'i weithredu eto. Mae'r sefyllfa hon wedi parhau yn ystod 2018/19. Nodwyd y llynedd fod angen rhagor o waith ymchwil ac ymchwilio i ganfod y rhesymau pam nad yw datblygiad cyflogaeth yn gwneud cynnydd yng Nglannau'r Harbwr.

5.1.26 Ers yr adroddiad monitro diwethaf, penodwyd ymgynghorwyr i baratoi adroddiad a chynllun strategol ar gyfer ardal Glannau'r Harbwr. Mae'r adroddiad yn dangos bod: *'Heb ymyrraeth gyhoeddus mae disgwyl i ddatblygiad ar draws PTWEZ gymryd cryn amser i'w gyflawni, ac mae'n annhebygol o ddarparu'r ystod a'r ansawdd o gyfleoedd eiddo i ddenu twf a buddsoddiad i fusnesau. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen 'Mae tystiolaeth glir o fethiant y farchnad leol, gyda bwlch dichonoldeb sylweddol, o ystyried bod angen dadhalogi tir yn sgîl ei orffennol diwydiannol a chostau datblygu annormal oherwydd cyflwr y tir lleol'.*

5 . Polisiâu Ardal

5.1.27 Mae perygl posibl llifogydd wedi bod yn broblem hefyd yn ardal Glannau'r Harbwr, er nad yw'n effeithio ar bob safle datblygu. Mae cyllid bellach wedi cael ei sicrhau, fodd bynnag, ar gyfer cynllun adfer pellach y mae disgwyl iddo gychwyn yn ystod 2019.

5.1.28 Ymhlith y dylanwadau negyddol pellach sy'n debygol o fod wedi gweithio yn erbyn datblygiad mae'r hinsawdd economaidd gyffredinol a'r ansicrwydd ynghylch Brexit, a materion megis dyfodol y gwaith dur. Fodd bynnag, o gymryd i ystyriaeth y gwaith sy'n cael ei wneud a photensial yr ardal a'i chysylltedd rhanbarthol a chenedlaethol rhagorol, bernir bod dyfodol cadarnhaol i Lannau'r Harbwr fel ardal gyflogaeth.

5.1.29 Bydd y strategaeth a'r polisi ar gyfer Glannau'r Harbwr, felly, yn cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI (mewn trafodaeth gydag asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) er mwyn sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer yr ardal yn cael ei gwireddu.

Dangosydd 21: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.

Tabl 5.1.12 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr (Gweler hefyd Bolisi R1/3)	
Dangosydd Lleol	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.
Targed y Polisi	Cyflawni'r datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr, yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref.
Pwynt Sbarduno	Ni chyflawnir y datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.30 Ni fu ceisiadau perthnasol i'r dangosydd hwn yn AAS Glannau'r Harbwr yn ystod y cyfnod monitro. Mae manwerthu presennol sefydledig ar gyfer nwyddau swmpas yn parhau ym Masnachwyr Adeiladu LBS oddi ar Ffordd Cramic, yn unol â Fframwaith Datblygu cyffredinol Glannau'r Harbwr. O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosydd 22: Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.

5.1.31 Cwblhawyd Ffordd yr Harbwr (y FfDdY) yn 2014 - nid oes angen monitro/camau pellach.

Dangosydd 23: Paratoi CCA sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr, Port Talbot a Chanol y Dref.

Tabl 5.1.13 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr	
Dangosydd Lleol	Paratoi CCA sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr, Port Talbot a Chanol y Dref.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref erbyn Hydref 2016.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Hydref 2016.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.32 Hyd yma, ni pharatowyd CCA ar gyfer Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr, Port Talbot a Chanol y Dref. Ar hyn o bryd, mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud gan y Cyngor mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i fireinio a gwella'r modelu llifogydd ar gyfer yr ardal, er mwyn sicrhau dealltwriaeth fwy cyflawn o'r systemau llifogydd a'r ffactorau fydd yn dylanwadu ar batrwm datblygiad yn y dyfodol yng Nglannau'r Harbwr.

5.1.33 O ganlyniad, mae'r gwaith o baratoi'r CCA wedi cael ei ohirio fel bod modd i fframwaith datblygu Glannau'r Harbwr gael ei lywio'n llawn gan y gwaith pellach sydd i'w wneud ynghylch modelu llifogydd. Bydd unrhyw gynnydd ar y safle yn cael ei fonitro'n fanwl, a bydd yr angen am baratoi CCA i gyflwyno gweledigaeth gyffredinol, ffurf a chymeriad y safle yn cael ystyriaeth bellach yn ystod y cyfnod nesaf o 12 mis.

Dangosydd 24: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac agyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.

Tabl 5.1.14 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Canol Tref Castell-nedd (Gweler hefyd Bolisiau SP7, CCRS1/1, H1/7)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.

5 . Polisiâu Ardal

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Canol Tref Castell-nedd (Gweler hefyd Polisiâu SP7, CCRS1/1, H1/7)	
Targed y Polisi	Cyflawni 50 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2016/17.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r datblygiad tai sy'n rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd yn cael ei gyflawni o 2016/17.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.34 Rhoddwyd caniatâd amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl yn 2013, a chaniatâd cynllunio llawn ar gyfer cyfnod cyntaf y datblygiad preswyl (6 uned fasnachol a 12 uned breswyl) yn cael ei roi ym mis Ionawr 2017. Fodd bynnag, roedd angen cyflwyno diwygiad i'r cynllun oedd yn galw am gyflwyno cais diwygiedig, cymeradwywyd hynny wedyn ym mis Hydref 2018. Bydd y cam cyntaf yn cael ei ddatblygu gan Grŵp Tai Coastal, sydd i ddechrau gweithio ar y safle'n fuan iawn. Mae disgwyl i'r cyfnod hwn gael ei gwblhau yn 2020/21.

5.1.35 Er bod pwynt sbarduno'r polisi wedi'i gyrraedd, mae tystiolaeth o gynnydd go iawn wrth gyflawni'r cynllun hwn, ac felly ni fernir bod angen gweithredu ar hyn o bryd. Bydd y cynnydd o ran elfen breswyl y datblygiad yn parhau i gael ei fonitro trwy broses y JHLAS, ac adroddir ar hynny yn yr AMB nesaf.

Dangosydd 25: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.

Tabl 5.1.15 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Canol Tref Castell-nedd (Gweler hefyd Polisiâu SP12, CCRS1/1, R1/1)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.
Targed y Polisi	Cyflawni elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd: Cyfnod 1 erbyn 2016; Cyfnod 2 erbyn 2020.
Pwynt Sbarduno	Ni chyflawnir elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd yn unol â'r amserlenni a nodwyd.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.36 Cyfnod 1 Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd oedd maes parcio aml-lawr newydd ac uned siop fawr oedd wedi'i chwblhau ac yn cael ei defnyddio erbyn canol 2016. Mae'r rhan gyntaf o darged y polisi, felly, wedi cael ei chyflawni.

5.1.37 Mae Cyfnod 2 y cynllun cyffredinol yn cynnwys y 6 uned fasnachol a'r 12 uned breswyl y cyfeirir atynt uchod. Fel y nodwyd, deallir bod y gwaith i gychwyn ar y safle'n fuan, ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn 2020/21. Mae'r cynllun felly yn dal ar darged, a bydd y monitro ar gynnydd o ran cyflawni cyfnod 2 yn parhau.

5.1.38 5.1.38Yn ogystal, cymeradwywyd cyfnod pellach o waith ailddatblygu canol y dref, ar gyfer 8 uned fanwerthu, a chymeradwywyd un uned A1, A3 neu D2 yn ystod y cyfnod monitro, ac mae peth gwaith paratoadol wedi cychwyn mewn perthynas â'r cynllun hwn.

Dangosydd 26: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan.

Tabl 5.1.16 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Ysgol Gyfun Glanafan (Gweler hefyd Bolisiâu SP7, CCRS1/2, H1/17)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan.
Targed y Polisi	Cyflawni 50 o unedau tai y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2017/18.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r datblygiad tai sy'n rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan yn cael ei gyflawni o 2017/18.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.39 Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer ailddatblygu Ysgol Glanafan ym mis Mawrth 2017, a sicrhawyd cyllid ar gyfer y cynllun trwy Grant Tai Cymdeithasol a chyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Mae gwaith ar yr elfen breswyl bellach wedi'i gwblhau. O ganlyniad i newidiadau i gynllun y safle, gostyngodd nifer yr unedau a gyflwynwyd ar y safle i 47.

5 . Polisiâu Ardal

Dangosydd 27: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan.

Tabl 5.1.17 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Ysgol Gyfun Glanafan (Gweler hefyd Bolisiâu SP12, CCRS1/2, R1/2)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan.
Targed y Polisi	Cyflwyno elfen adwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot erbyn 2020.
Pwynt Sbarduno	Ni chyflawnir elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot, erbyn 2020.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.40 Mae elfen fanwerthu arfaethedig safle Ysgol Glanafan yn rhan o'r un caniatâd cynllunio a datblygiad cyffredinol â'r elfennau preswyl y cyfeirir atynt uchod. Fel y nodwyd, mae gwaith bellach wedi'i gwblhau i raddau helaeth, yn unol â tharged y polisi.

Dangosydd 28: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan.

Tabl 5.1.18 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Lido Afan (Gweler hefyd Bolisiâu SP7, CCRS1/3, H1/19)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan.
Targed y Polisi	Cyflawni 150 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2016/2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r datblygiad tai sy'n rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan yn cael ei gyflawni o 2016/17.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.41 Yn ystod blwyddyn fonitro flaenorol 2018, roedd y safle yn destun proses dendro, a dewiswyd Hale Homes yn ddatblygwr a ffafrir ar y safle. Ers i'r AMB diwethaf gael ei gyhoeddi, fodd bynnag, mae'r datblygwr wedi tynnu diddordeb yn ôl, ac o ganlyniad, bydd y Cyngor yn aildendro'r safle i'r farchnad yn fuan. I gynorthwyo'r broses hon a darparu canllawiau pellach i ddarpar ddatblygwyr, mae'r Cyngor wedi paratoi Briff Cynllunio manwl ar gyfer y Safle.

5.1.42 Mae'r safle eisoes wedi'i glirio ac mae'n barod i'w ailddatblygu ac mae mewn ardal breswyl boblogaidd yn agos at lan y môr a'i holl amwynderau. Er gwaethaf yr oedi a brofwyd, felly, rhagwelir y bydd datblygiad y safle yn cael ei gwblhau o fewn y 5 mlynedd nesaf.

5.1.43 Er bod pwynt sbarduno'r polisi wedi'i gyrraedd, gan fod y safle i gael ei aildendro'n fuan, ni fernir bod angen gweithredu penodol ar hyn o bryd. Bydd y cynnydd o ran datblygu'r safle yn parhau i gael ei fonitro trwy broses y JHLAS, ac adroddir ar hynny yn yr AMB nesaf.

Dangosydd 29: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan.

Tabl 5.1.19 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Lido Afan (Gweler hefyd Bolisi CCRS1/3)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan.
Targed y Polisi	Cyflawni datblygiad twristiaeth / adloniant yn Lido Afan erbyn 2020.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r datblygiad twristiaeth / adloniant yn Lido Afan yn cael ei gyflawni erbyn 2020.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.44 Mae elfen twristiaeth / hamdden cynllun Afan Lido i'w gyflwyno ochr yn ochr ag elfen breswyl y cynllun. Fel y nodwyd yn nangosydd 28, er gwaethaf oedi a brofwyd, mae disgwyl i ddatblygiad y safle gael ei gwblhau o fewn y 5 mlynedd nesaf. Fel yn achos dangosydd 28, bydd cynnydd o ran y safle hwn yn parhau i gael ei fonitro'n fanwl mewn AMBau ac Astudiaethau JHLAS yn y dyfodol.

5 . Polisiau Ardal

Dangosydd 30: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 5.1.20 Polisi Strategol SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

Cyflawni Campws Prifysgol Gwyddoniaeth ac Arloesedd ar Ffordd Fabian (Polisi CCUC1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe i gael ei gyflawni erbyn 2015: Mai 2013 - Gwaith i gychwyn. Mai 2014 - Cwblhau'r adeiladau cyntaf. Mai 2015 - Yr holl adeiladau amhreswyl wedi'u cwblhau. Medi 2015 - Cwblhau'r llety myfyrwyr.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.1.45 Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe yn ddatblygiad pwysig yn y Fwrdeistref Sirol, gyda photensial i gynnal y twf yn yr economi wybodaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot ac ar draws y Ddinas-Ranbarth.

5.1.46 Rhoddwyd caniatâd amlinellol ar gyfer y campws ym mis Awst 2012, a chymeradwywyd materion dilynol a neilltuwyd ar gyfer Cyfnod 1 ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r CDLI yn dyrannu tir i ddarparu ar gyfer datblygiad oddi mewn i'r cais amlinellol presennol ar ardaloedd ychwanegol ar y safle er mwyn ehangu ymhellach. Mae tir hefyd ar gael i'r gorllewin o'r safle, oddi mewn i ffiniau gweinyddol Dinas a Sir Abertawe.

5.1.47 Mae'r targedau a geir yn y fframwaith monitro yn cyfeirio at ddatblygiad Cyfnod 1a o'r Campws, oedd yn cynnwys llawer o'r prif adeiladau oedd yn ofynnol er mwyn i'r campws agor yn ffurfiol ym mis Medi 2015, megis y Neuadd Fawr, y Canolbwynt Arloesedd, y Cyfleuster Gweithgynhyrchu, llety preswyl ac adeiladau academiaidd

5.1.48 Agorodd y Campws yn ffurfiol ym mis Medi 2015, ac erbyn hynny roedd yr adeiladau academiaidd a'r llety preswyl oedd yn rhan o Gyfnod 1a wedi'u cwblhau, yn unol â'r fframwaith monitro. Ers cwblhau Cyfnod 1a, mae'r rhan fwyaf o Gyfnodau 1b ac 1c

naill ai wedi cael eu cwblhau neu ar waith ar hyn o bryd ac yn agos i'w cwblhau, ac mae rhai rhannau o'r datblygiad hwn wedi'u cwblhau 5 mlynedd o flaen yr amserlen wreiddiol. Dengys hyn fod y polisi wedi'i weithredu'n llwyddiannus ac mae hefyd yn arwydd o lwyddiant Campws y Brifysgol.

5.1.49 Oddi mewn i'r cyfnod monitro, daeth dau gais pellach i law ar gyfer datblygiadau ar Gampws y Bae. Un ar gyfer manau gwefru i gerbydau trydan, ac un ar gyfer canolfan aml-ffydd, yr oedd y ddau ohonynt yn dderbyniol yn unol â Pholisi CCUC1.

5 . Polisiau Ardal

5.2 Polisi Strategol 6 Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Tabl 5.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
31	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu
32	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu
33	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
34	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd ddim mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
35	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd ddim mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
36	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd	Mae'r dangosyddion yn awgrym bod angen canllawiau pellach ar ben yr holl a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol
37	Nifer y cynigion gwaith byw a ganiatawyd	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu
38	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dangosydd 31: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd.

Tabl 5.2.2 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Cyflawni datblygiad tai yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (Gweler hefyd Bolisiau SP7, VRS1, H1)	
Dangosydd Lleol	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd.
Targed y Polisi	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 1,435 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun.

Cyflawni datblygiad tai yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (Gweler hefyd Bolisiau SP7, VRS1, H1)	
Targed Blynyddol	2011/12 - 61 2012/13 - 108 2013/14 - 44 2014/15 - 60 2015/16 - 90 2016/17 - 112 2017/18 - 92 2018/19 - 75 2019/20 - 122 2020/21 - 125 2021/22 - 117 2022/23 - 117 2023/24 - 112 2024/25 - 126 2025/26 - 74
Pwynt Sbarduno	Maenifer y runed autainewyddfforddiadwyaddarparwydoddimewni Ardal Strategaeth y Cymoedd yn syth i oodanygofyniad cronol ar gyfer 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.2.1 Mae'r tabl canlynol yn dangos cyflenwi tai yn y Cymoedd yn erbyn y targedau blynyddol a geir yn y fframwaith monitro.

Tabl 5.2.3 Cwblhau Tai yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Blwyddyn	Targed Blynyddol	Cwblhau Tai	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflenwi Cronnol yn erbyn y Targed
2011/12	61	64	61	64	3
2012/13	108	108	169 (+108)	172	3
2013/14	44	44	213 (+44)	216	3

5 . Polisiau Ardal

Blwyddyn	Targed Blynyddol	Cwblhau Tai	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflenwi Cronnol yn erbyn y Targed
2014/15	60	81	273 (+60)	297	24
2015/16	90	85	363 (+90)	382	19
2016/17	112	18	475 (+112)	400	-75
2017/18	92	33	567 (+92)	433	-134
2018/19	122	24	689 (+122)	457	-232

5.2.2 Oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd, yn ystod y tair blynedd fonitro ddiwethaf, mae'r tai sy'n cael eu darparu ar safleoedd a ddyrannwyd wedi syrthio o dan y targedau a geir yn y fframwaith monitro. Yn ystod blwyddyn fonitro 2018/19, cofnodwyd cyfanswm o 24 o ddatblygiadau tai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn y Cymoedd. Mae'r ffigur hwn yn parhau'n is na tharged y flwyddyn, sef 122 o anheddau.

5.2.3 Ers dyddiad sylfaen y CDLI (2011), mae nifer y tai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn y Cymoedd wedi cyrraedd cyfanswm o 457 o anheddau. O gymharu â'r targed blynyddol cronnoel o 689, mae hyn yn dangos bod lefelau cwblhau bellach wedi gostwng 232 o dan y targed, a 66.3% yn unig o'r targed blynyddol cronnoel a gyflwynwyd hyd yma.

5.2.4 Er bod digon o dir ar gyfer tai wedi'i ddyrannu yn y CDLI i ddiwallu'r gofyn a nodwyd am dai, am amrywiaeth o resymau (gan gynnwys y rhai sy'n annibynnol ar y system gynllunio), nid yw safleoedd yn cael eu cyflwyno ac yn gwneud cynnydd yn unol â'r disgwyl.

5.2.5 Er gwaethaf y pwynt hwn, dylid cydnabod bod cynnydd wedi digwydd yn ddiweddar ar safle Fferm Bryn Brych, Rhos, lle mae'r gwaith adeiladu bellach yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r elfennau cyntaf yn cael eu cyflawni eleni, a rhagwelir y bydd y datblygiad yn ennill momentwm wrth i'r safle wneud cynnydd. Ymhellach, mae'r dystiolaeth gefndir o'r JHLAS diweddaraf yn arwydd bod cynnydd yn cael ei wneud ar nifer o safleoedd a ddyrannwyd. Mae disgwyl, felly, y gallai'r gyfradd darparu gynyddu yn y cyfnod monitro nesaf a'r tu hwnt.

5.2.6 O ystyried, fodd bynnag, ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi a bod y polisi'n amlwg heb gyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 32: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe.

Tabl 5.2.4 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Ardal Twf Strategol Pontardawe (Gweler hefyd Bolisiau SP7, H1)	
Dangosydd Lleol	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe
Targed y Polisi	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 664 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun.
Targed Blynyddol	2011/12 - 0 2012/13 - 46 2013/14 - 30 2014/15 - 38 2015/16 - 65 2016/17 - 92 2017/18 - 72 2018/19 - 50 2019/20 - 66 2020/21 - 50 2021/22 - 40 2022/23 - 40 2023/24 - 35 2024/25 - 40 2025/26 - 0
Pwynt Sbarduno	Mae nifer yr unedau tai newydd fforddiadwy a ddarparwyd oddi mewn i Ardal Twf Strategol Pontardawe yn syrthio o dan y gofyniad cronol ar gyfer 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.2.7 Mae'r tabl canlynol yn dangos cyflenwi tai ar hyd Ardal Twf Strategol Pontardawe yn erbyn y targedau blynyddol a geir yn y fframwaith monitro:

5 . Polisiau Ardal

Tabl 5.2.5 Cwblhau Tai yn Ardal Twf Strategol Pontardawe

Blwyddyn	Targed Blynyddol	Cwblhau Tai	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflenwi Cronnol yn erbyn y Targed
2011/12	0	3	0	3	3
2012/13	46	46	46 (+46)	49	3
2013/14	30	30	76 (+30)	79	3
2014/15	38	43	114 (+38)	122	8
2015/16	65	66	179 (+65)	188	9
2016/17	92	18	271 (+92)	206	-65
2017/18	72	33	343 (+72)	239	-104
2018/19	50	24	393 (+50)	263	-130

5.2.8 Oddi mewn i Ardal Twf Strategol Pontardawe, yn ystod y tair blynedd fonitro ddiwethaf, mae'r tai sy'n cael eu darparu ar safleoedd a ddyrannwyd wedi syrthio o dan y targedau a geir yn y fframwaith monitro. Yn ystod blwyddyn fonitro 2018/19, cofnodwyd cyfanswm o 24 o ddatblygiadau tai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn ardal Pontardawe. Mae'r ffigur hwn yn parhau'n is na tharged y flwyddyn, sef 50 o anheddau.

5.2.9 Ers dyddiad sylfaen y CDLI (2011), mae nifer y tai a gwblhawyd ar safleoedd yn ardal Pontardawe wedi cyrraedd cyfanswm o 263 o anheddau. O gymharu â'r targed blynyddol cronol o 393, mae hyn yn dangos bod lefelau cwblhau bellach wedi gostwng 130 o dan y targed, a 66.9% yn unig o'r targed blynyddol cronol a gyflwynwyd hyd yma.

5.2.10 Fel y cydnabuwyd uchod, bu cynnydd diweddar ar safle Fferm Bryn Brych, Rhos, lle mae'r gwaith adeiladu bellach yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r elfennau cyntaf yn cael eu cyflawni eleni, a rhagwelir y bydd y datblygiad yn ennill momentwm wrth i'r safle wneud cynnydd. Mae'r dystiolaeth gefndir o'r JHLAS diweddaraf hefyd yn arwydd bod cynnydd yn cael ei wneud ar nifer o safleoedd a ddyrannwyd. Mae disgwyl, felly, y gallai'r gyfradd darparu gynyddu yn y cyfnod monitro nesaf a'r tu hwnt.

5.2.11 O ystyried, fodd bynnag, ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi a bod y polisi'n amlwg heb gyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 33: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf.

Tabl 5.2.6 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf (Gweler hefyd Bolisiau SP7, VRS1, H1)	
Dangosydd Lleol	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf.
Targed y Polisi	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 264 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun.
Targed Blynyddol	2011/12 - 5 2012/13 - 0 2013/14 - 9 2014/15 - 2 2015/16 - 0 2016/17 - 0 2017/18 - 0 2018/19 - 0 2019/20 - 21 2020/21 - 45 2021/22 - 37 2022/23 - 37 2023/24 - 37 2024/25 - 36 2025/26 - 35
Pwynt Sbarduno	Mae nifer yr unedau tai newydd fforddiadwy a ddarparwyd oddi mewn i Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf yn syrthio o dan y gofyniad cronol ar gyfer 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Action	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.2.12 Mae'r tabl canlynol yn dangos cyflenwi tai ar hyd Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf yn erbyn y targedau blynyddol a geir yn y fframwaith monitro:

5 . Polisiau Ardal

Tabl 5.2.7 Cwblhau Tai yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf

Blwyddyn	Targed Blynyddol	Cwblhau Tai	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflenwi Cronnol yn erbyn y Targed
2011/12	5	5	5	5	0
2012/13	0	0	5 (+0)	5	0
2013/14	9	9	14 (+9)	14	0
2014/15	2	2	16 (+2)	16	0
2015/16	0	0	16 (+0)	16	0
2016/17	0	0	16 (+0)	16	0
2017/18	0	0	16 (+0)	16	0
2017/18	0	0	16 (+0)	16	0
2018/19	0	0	16 (+0)	16	0

5.2.13 Oddi mewn i Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf, mae lefel darparu tai ar safleoedd a ddyrannwyd yn dal i gyfateb i'r targedau a gyflwynwyd yn y fframwaith monitro. Mae hyn yn arwydd bod y datblygiad yn mynd rhagddo'n unol â'r disgwyliadau. Bydd y cynnydd o ran cwblhau tai yn parhau i gael ei fonitro trwy broses y JHLAS, ac adroddir ar hynny yn yr AMB nesaf.

Dangosydd 34: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.

Tabl 5.2.8 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Adfywio defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd (Gweler hefyd Bolisiau SP7, VRS1/1, H1)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.
Targed y Polisi	Cyflawni 150 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2020/21.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r datblygiad taisy'n rhano Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd yn cael ei gyflawni o 2020/21.
Perfformiad	
Action	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.2.14 Hyd yma ni fu datblygiad ar safle Rhodfa'r Parc. Mae sawl blwyddyn eto cyn y rhagwelir y bydd y datblygiad yn cychwyn, gan fod disgwyl i'r safle gael ei gyflwyno yn ddiweddarach yng nghyfnod y Cynllun. Bydd cynnydd yn parhau i gael ei fonitro trwy AMBau ac Astudiaethau JHLAS yn y dyfodol.

Dangosydd 35: Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd aca gyflwynwyd doddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.

Tabl 5.2.9 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Datblygiad Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd (Gweler hefyd Bolisiau SP12, VRS1/1, R1/4)	
Dangosydd Lleol	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.
Targed y Polisi	Cyflawni elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd yn unol â CCA Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.
Pwynt Sbarduno	Ni chyflawnir elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd yn unol â CCA Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.2.15 Feluchod, ni fu cynnydd hyd yma yn elfen fanwerthu y datblygiad ar y safle hwn. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro ar y cyd â Dangosydd34.

Dangosydd 36: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.

Tabl 5.2.10 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Park Avenue, Glynneath Mixed Use Development SPG	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd erbyn Ebrill 2017
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	

5 . Polisiâu Ardal

Park Avenue, Glynneath Mixed Use Development SPG

Cam Gweithredu

Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.2.16 Ni chynhyrchwyd y CCA erbyn dyddiad y pwynt sbarduno, sef Ebrill 2017. Mae disgwyl i'r safle gyflawni yn rhan ddiweddarach cyfnod y CDLI (h.y. o 2020 ymlaen), ac felly byddai angen mabwysiadu'r CCA mewn pryd i lywio unrhyw ddatblygiad posibl ar y safle. Bydd datblygu CCA i gyflwyno gweledigaeth gyffredinol, ffurf a chymeriad y safle yn cael ei ystyried yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Dangosydd 37: Nifer y cynigion bywyd/gwaith a ganiatawyd.

Tabl 5.2.11 Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Annog Defnyddiau Cyflogaeth, gan gynnwys unedau Bywyd/Gwaith (Gweler hefyd Bolisiau SP11, EC5, EC6)	
Dangosydd Lleol	Nifer y cynigion bywyd/gwaith a ganiatawyd.
Targed y Polisi	Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd/gwaith a ganiateir.
Pwynt Sbarduno	Dimcynnyddyniferyrunedaubywyd/gwaithaganiateiram2flyneddolynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.2.17 Mae'r polisi bywyd/gwaith yn darparu fframwaith ar gyfer caniatáu datblygiad y tu allan i derfynau anheddiad yn Ardal Strategol y Cymoedd, gan ddarparu dull polisi mwy arloesol er mwyn annog datblygiad yn y Cymoedd i gyfrannu at adfywio cyffredinol.

5.2.18 Ers mabwysiadu'r CDLI, ni wnaed ceisiadau am unedau bywyd/gwaith yn y Fwrdeistref Sirol. Mae angen ymchwil ac ymchwilio pellach, felly, i ganfod y rhesymau am y diffyg cynigion bywyd-gwaith. Ymhellach, oherwydd ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi a bod y polisi'n amlwg heb gyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 38: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola.

Polisi Strategol SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

Datblygu Twristiaeth (Gweler hefyd Bolisiau SP13,TO3/1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola.
Targed y Polisi	Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

5.2.19 Mae'r safle'n destun cais cynllunio amlinellol sydd â phenderfyniad i roi caniatâd cynllunio, yn amodol ar lofnodi Cytundeb Adran 106. Mae'r cais amlinellol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg, gyda thwristiaeth yn brif elfen, gyda hyd at 100 o unedau llety gwyliau, cyfadeilad hamdden, ac mae hefyd yn caniatáu ar gyfer elfen breswyl a fydd yn galluogi'r datblygiad.

5.2.20 Er bod y cytundeb A106 heb ei lofnodi eto, mae diddordeb yn parhau mewn datblygiad twristiaeth ar y safle, ac awydd i annog hynny. O ganlyniad, gan fod y pwynt sbarduno yn chwilio am gyflawni'r dyraniad erbyn 2021, mae digon o amser o hyd i'r cytundeb gael ei gwblhau - neu i ddatblygiad/cais arall gael ei gyflwyno - ac i'r gwaith datblygu gychwyn.

5.2.21 Ar y sail hon, ni fernir bod angen camau gweithredu ar hyn o bryd, a bydd cynnydd yn parhau i gael ei fonitro.

5 . Polisiau Ardal

Atroddiaid Monitro Blynyddol (Hydref 2019)

6 Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

6.1 Polisi Strategol 7 - Gofynion Tai

Tabl 6.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Yf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
39	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation, the policy will be subject to a review process
40	Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerir o'r Astudiaeth gyffredol ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1)	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation, the Policy will be subject to a review process

Dangosydd 39: Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.

Tabl 6.1.2 Polisi Strategol SP7 - Gofynion Tai

Darparu tai digonol i fodloni'r strategaeth ar gyfer twf a seiliwyd ar ffactorau economaidd (Gweler hefyd Bolisiau SP2, H1)	
Dangosydd Craidd	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.
Targed y Polisi	<p>Darperir cyfanswm o 8,760 o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu darparu erbyn 2026.</p> <p>Targedau Blynyddol:</p> <p>2011/12 - 262</p> <p>2012/13 - 287</p> <p>2013/14 - 301</p> <p>2014/15 - 386</p> <p>2015/16 - 486</p> <p>2016/17 - 549</p> <p>2017/18 - 625</p> <p>2018/19 - 686</p> <p>2019/20 - 698</p> <p>2020/21 - 676</p>

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Darparu tai digonol i fodloni'r strategaeth ar gyfer twf a seiliwyd ar ffactorau economaidd (Gweler hefyd Bolisiau SP2, H1)	
	2021/22 - 647 2022/23 - 614 2023/24 - 553 2024/25 - 542 2025/26 - 488
Pwynt Sbarduno	MaeniferyrunedautainewyddfforddiadwyaddarparwydofewnyFwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronol ar gyfer 2 flyneddlynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y Polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

6.1.1 Mae'r CDLI yn darparu ar gyfer 8,760 o unedau tai newydd, er mwyn cyflenwi'r angen o 7,800 o unedau tai newydd erbyn 2026. Mae'r tabl canlynol yn dangos cyflenwi tai yn erbyn y targedau blynyddol a geir yn y fframwaith monitro.

Tabl 6.1.3 Cyfanswm y Tai a Gwblhawyd fesul Blwyddyn

Blwyddyn	T a r g e d Blynyddol	Union Nifer y T a i Gwblhawyd	T a r g e d Cronol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Croniad Tai a Gwblhawyd yn erbyn y Targed
2011/12	262	262	262	262	0
2012/13	287	287	549	549	0
2013/14	301	301	850	850	0
2014/15	386	401	1,236	1,251	15
2015/16	486	250	1,722	1,501	-221
2016/17	549	178	2,271	1,679	-592
2017/18	625	148	2,896	1,827	-1,069
2018/19	686	299	3,582	2,126	-1,456

6.1.2 Mae'r tabl uchod yn dangos bod darparu tai ar draws Castell-nedd Port Talbot yn dal i syrthio tu ôl i'r targedau a geir yn y fframwaith monitro. Yn ystod blwyddyn fonitro 2018/19, cofnodwyd bod cyfanswm o 299 o ddatblygiadau tai wedi'u cwblhau. Er bod hyn yn welliant ar y ddwy flynedd flaenorol, mae'r ffigur hwn yn dal yn sylweddol is na tharged y flwyddyn o 686 o anheddau.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

6.1.3 Ers dyddiad sylfaen y CDLI (2011), mae nifer y tai a gwblhawyd wedi cyrraedd cyfanswm o 2,126 o anheddau. O gymharu â'r targed blynyddol cronol o 3,582, mae hyn yn dangos bod lefelau cwblhau bellach wedi gostwng 1,456 o dan y targed, a 59.4% yn unig o'r targed blynyddol cronol a gyflwynwyd hyd yma.

6.1.4 Er bod digon o dir ar gyfer tai wedi'i ddyrannu yn y CDLI i ddiwallu'r gofyn a nodwyd am dai, am amrywiaeth o resymau (gan gynnwys y rhai sy'n annibynnol ar y system gynllunio), nid yw safleoedd yn cael eu cyflwyno ac yn gwneud cynnydd yn unol â'r disgwyl. Yn arbennig, gwnaed cynnydd cyfyngedig yng nghyswllt y ddwy 'Ardal Adfywio Strategol' a ddyrannwyd yng Nghoed Darcy, Castell-nedd (cyfeirier at Ddangosydd 15) a Glannau'r Harbwr, Port Talbot (cyfeirier at Ddangosydd 19).

6.1.5 Er gwaethaf y pwynt hwn, dylid cydnabod bod cynnydd wedi digwydd yn lleol ar nifer o safleoedd a ddyrannwyd, gyda rhai safleoedd yn sicrhau Caniatâd Cynllunio, neu geisiadau am gyngor manwl cyn-ymgeisio. Mae disgwyl, felly, y gallai'r gyfradd darparu gynyddu yn y cyfnod monitro nesaf a'r tu hwnt.

6.1.6 O ystyried, fodd bynnag, ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi a bod y polisi'n amlwg heb gyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI. Bydd angen ystyried pob ffactor sy'n dylanwadu ar ddarparu tai, gan gynnwys lefel a dosbarthiad gofodol twf, dichonoldeb safleoedd a chyfyngiadau presennol ar safleoedd.

Dangosydd 40: Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerir o'r Astudiaeth gyfredol ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai.

Tabl 6.1.4 Polisi Strategol SP7 - Gofynion Tai

Darparu digon o dir ar gyfer tai newydd i ddiwallu'r anghenion tymor byr, canolig a hir (Gweler hefyd Bolisi H1)	
Dangosydd Craidd	Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerir o'r Astudiaeth gyfredol ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1).
Targed y Polisi	Ni ddylai'r cyflenwad tir ar gyfer tai syrthio o dan 5 mlynedd, fel y pennwyd gan yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1) mewn unrhyw flwyddyn benodol.
Pwynt Sbarduno	Mae'r cyflenwad tir ar gyfer tai syrthio o dan 5 mlynedd, fel y pennwyd gan yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1) mewn unrhyw flwyddyn benodol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y Polisi yn destun proses adolygu.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

6.1.7 Mae'r astudiaeth ddiweddaraf ar argaeledd tir ar gyfer tai, yn 2019 (JHLAS) yn dangos bod gan Gastell-nedd Port Talbot gyflenwad tir ar gyfer tai, wedi'i asesu yn erbyn gofyniad tai y CDLI a fabwysiadwyd, o 4.5 mlynedd.

6.1.8 Yn y tair astudiaeth flaenorol a gwblhawyd ers mabwysiadu'r Cynllun, roedd y Cyngor wedi arddangos cyflenwad tir o 5.0 mlynedd (2016), 5.3 blynedd (2017) a 5.0 blynedd (2018) yn eu tro. Yr astudiaeth ddiweddaraf hon, felly, yw'r achlysur cyntaf ers mabwysiadu pan fo ffigur cyflenwad tir y Cyngor wedi gostwng o dan y 5 mlynedd sy'n ofynnol.

6.1.9 O ystyried ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi a bod y polisi'n amlwg heb gyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

6.2 Polisi Strategol 8 Tai Fforddiadwy

Tabl 6.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosyddr	Asesu	Cam Gweithredu
41	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu
42	Newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal is-farchnad: 1. Port Talbot; 2. Castell-nedd; 3. Pontardawe; 4. Castell-nedd a Chwm Dulais; 5. Abertawe a Dyffryn Aman; 6. Cwm Afan	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu
43	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu
44	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Thai Fforddiadwy	Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017	Dim angen camau pellach.

Dangosydd 41: Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.

Tabl 6.2.2 Polisi Strategol SP8 - Tai Fforddiadwy

Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy (Gweler hefyd Bolisïau SP2, AH1)	
Dangosydd Craidd	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.
Targed y Polisi	Cyflenwi 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026. Targedau Blynyddol: 2011/12 - 7 2012/13 - 5 2013/14 - 22 2014/15 - 37 2015/16 - 72 2016/17 - 90

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy (Gweler hefyd Bolisiau SP2, AH1)	
	2017/18 - 115 2018/19 - 130 2019/20 - 124 2020/21 - 120 2021/22 - 111 2022/23 - 102 2023/24 - 90 2024/25 - 89 2025/26 - 86
Pwynt Sbarduno	MaeniferyrunedautainewyddfforddiadwyaddarparwydofewnyFwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronol ar gyfer 2 flyneddlynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

6.2.1 Mae'r tabl canlynol yn dangos darpariaeth yr unedau tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio (h.y. trwy gytundebau A106), yn erbyn y targedau blynyddol yn y fframwaith monitro:

Tabl 6.2.2 Polisi Strategol SP8 - Tai Fforddiadwy

Blwyddyn	Targedau Blynyddol	Yr Union Unedau Tai Fforddiadwy a Gyflenwyd	Targed Cronnol	Croniad Tai a Gwblhawyd	Cyflenwi Cronnol yn erbyn y Targed
2011/12	7	11	7	11	4
2012/13	5	0	12	11	-1
2013/14	22	0	34	11	-23
2014/15	37	23	71	34	-37
2015/16	72	8	143	42	-101
2016/17	90	0	233	42	-191
2017/18	115	8	348	50	-298
2018/19	130	0	478	50	-428

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

6.2.2 Mae'r tabl uchod yn dangos bod darparu unedau tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio ar draws Castell-nedd Port Talbot yn parhau i syrthio'n sylweddol y tu ôl i'r targedau a geir yn y fframwaith monitro. Yn ystod blwyddyn fonitro 2018/19, ni chofnodwyd cwblhau unrhyw dai fforddiadwy, er mai targed y flwyddyn oedd 130 o anheddau.

6.2.3 Ers dyddad sylfaen y CDLI (2011), mae nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi cyrraedd cyfanswm o 50 uned. Er bod darparu unrhyw nifer o dai fforddiadwy yn gadarnhaol ac yn mynd i gael effaith gadarnhaol ar gydlyniant cymunedol, a helpu i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot, o gymharu â'r targed blynyddol cronol o 478, mae hynny'n dangos bod lefelau cyflawni bellach wedi syrthio 428 o dan y targed, ac mae 10.5% yn unig o'r targed blynyddol cronol sydd wedi'u cyflawni hyd yma.

6.2.4 Mae darparu tai fforddiadwy wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â darparu tai yn fwy cyffredinol, ac mae'r sefyllfa'n adlewyrchu'r ffaith nad yw safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLI yn dod trwy'r system gynllunio fel y rhagwelwyd yn wreiddiol.

6.2.5 Er gwaethaf cyfraddau siomedig darparu tai, dylid cydnabod bod cynnydd wedi digwydd yn ddiweddar ar nifer o safleoedd a ddyrannwyd, yn arbennig y rhai hynny sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, lle na chwblhawyd yr elfen tai fforddiadwy eto. Mae disgwyl, felly, y bydd cyfradd darparu tai fforddiadwy yn cynyddu yn y cyfnod monitro nesaf a'r tu hwnt.

6.2.6 O ystyried, fodd bynnag, ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi a bod y polisi'n amlwg heb gyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI. Bydd angen ystyried pob ffactor sy'n dylanwadu ar ddarparu tai, gan gynnwys lefel a dosbarthiad gofodol twf, dichonoldeb safleoedd a chyfyngiadau presennol ar safleoedd.

Dangosydd 42: Newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal is-farchnad.

Tabl 6.2.4 Polisi Strategol SP8 - Tai Fforddiadwy

Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy	
Dangosydd Lleol	Newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal is-farchnad: 1. PortTalbot 2. Castell-nedd 3. Pontardawe 4. Cymoedd Nedd a Dulais 5. Cymoedd Tawe ac Aman 6. Cwm Afan
Targed y Polisi	Cyflawni'r lefel uchaf o dai fforddiadwy y bernir ei bod yn ddichonadwy.
Pwynt Sbarduno	Cynnydd neu ostyngiad o 5% yng ngwerth gweddilliol unrhyw ardal dai is-farchnad mewn un flwyddyn
Perfformiad	

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy

Cam Gweithredu

Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

6.2.7 Bu'r Astudiaeth Dichonoldeb Tai Fforddiadwy (2012) yn asesu dichonoldeb economaidd safleoedd datblygu preswyl preifat, yn arbennig, i ba raddau gallai datblygwyr preifat gyfrannu at ddarparu unedau tai fforddiadwy ym mhob is-barth. Llywiodd canfyddiadau'r adroddiad hwn y targedau tai fforddiadwy a geir ym Mholisi AH1.

6.2.8 Diben y dangosydd hwn yw monitro newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol a phenderfynu a yw'r newidiadau hynny'n ddigon arwyddocaol i gael effaith ar y targedau sy'n rhan o Bolisi AH1. Er enghraifft, os bydd newid yn y gwerth gweddilliol yn fwy na 5%, gallai hynny fod yn arwydd bod cynlluniau wedi dod yn fwy dichonadwy, ac felly, yn gallu cynnal nifer uwch o unedau tai fforddiadwy. Fel arall, os yw'r gostyngiad yn fwy na 5%, gallai hynny fod yn arwydd bod cynlluniau wedi dod yn llai dichonadwy, a bod y targedau tai fforddiadwy yn y CDLI yn rhy uchel.

6.2.9 Mae'r asesiad yn defnyddio 31 Mawrth 2019 (blwyddyn mabwysiadu'r CDLI) yn ddyddiad meincnod, ac yn asesu unrhyw newidiadau i'r gwerthoedd meincnod gweddilliol hyn ar 31 Mawrth 2019..

6.2.10 Fel rhan o'i asesiad, bu'r Cyngor yn ystyried Mynegai Prisiau Tai y Gofrestrfa Dir, Canllaw Ardal Zoopla, a'i gronfa ddata ei hun o eiddo newydd eu hadeiladu. Er y gall asesu data ynghylch prisiau tai ail-law fod yn ddangosydd defnyddiol ar gyfer perfformiad y farchnad ym mhob is-barth, mae'r Cyngor wedi rhoi'r pwys mwyaf ar ddata prisiau tai newydd yn achos yr ymarferiad hwn.

6.2.11 Mae'r Cyngor yn defnyddio data prisiau tai newydd (a gafwyd o'r Gofrestrfa Dir) ynghyd ag ymchwil pellach i fath a maint unedau a nifer yr ystafelloedd gwely, i sicrhau cost gywir fesul metr sgwâr ar gyfer datblygiadau sy'n adeiladau newydd. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, cafwyd, er bod cynnydd bychan cyffredinol yng nghyfanswm gwerth y gwerthiannau rhwng 2018 a 2019, gwrthweithiwyd hynny i raddau helaeth gan gynnydd yn y costau adeiladu yn ystod yr un cyfnod.

Tabl 6.2.5 Newid yn y Gwerth Gweddilliol fesul Ardal Is-Farchnad

Ardal	Newid Gweddilliol
Castell-nedd	-21.46%
Port Talbot	-28.10%
Pontardawe	-23.10%
Cymoedd Nedd a Dulais	-82.01%
Cwm Tawe a Dyffryn Aman	-89.28%
Cwm Afan	-16.47%

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

6.2.12 Dengys y tabl uchod fod gostyngiad sylweddol wedi digwydd yn y gwerth gweddilliol yn ystod y cyfnod monitro. Mae'n debygol mai un o'r prif resymau am y newid yw'r cynnydd sylweddol yng nghostau adeiladu ers cynnal yr Astudiaeth Dichonoldeb Tai Fforddiadwy yn 2012. Mae'r cynnydd parhaus hwn yng nghost adeiladu, a'r cynnydd cymesur yng ngwerthoedd gwerthiant, wedi cael effaith negyddol ar ddichonoldeb datblygu tai yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gyffredinol.

6.2.13 Mae'r gostyngiad ar draws pob rhan o'r farchnad yn sylweddol uwch na'r 5% y cyfeirir ato ym mhwynt sbarduno'r polisi, ac o ystyried difrifoldeb y gostyngiad, mae'n debygol o gael effaith ar y targedau tai fforddiadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot.

6.2.14 Mae gan ardaloedd y Cymoedd (ac eithrio Pontardawe) darged tai fforddiadwy o 0% ym Mholisi AH1. Wrth ddiweddarau'r profion, cafwyd bod yr ardaloedd hyn yn dal i fethu cynnal tai fforddiadwy, ac er bod rhai parthau yn dangos newid negyddol o fwy na 5%, nid yw hynny'n cael unrhyw effaith ar y gyfradd darged bresennol ar gyfer tai fforddiadwy.

6.2.15 Yn achos ardaloedd Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe, (sydd â tharged tai fforddiadwy wedi'i bennu ym Mholisi AH1), mae'r gostyngiad o ran gwerth gweddilliol yn debygol o gael effaith niweidiol ar gyflawni'r targedau sy'n rhan o'r polisi.

6.2.16 Gan fod pwynt sbarduno'r polisi wedi'i gyrraedd, bydd ymchwil ac ymchwilio pellach yn digwydd nawr i ganfod pam bu cynnydd mor sylweddol yng nghostau adeiladu ac a oes unrhyw ffactorau eraill wedi dylanwadu ar y gostyngiad yn y gwerth gweddilliol. Bydd y polisi tai fforddiadwy a'r astudiaeth dichonoldeb yn cael eu hailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 43: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy.

Tabl 6.2.6 Polisi Strategol SP8 - Tai Fforddiadwy

Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy (Polisiâu SP2, AH2)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy.
Targed y Polisi	Cynnydd yn nifer y safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy.
Pwynt Sbarduno	Ni chaniateir cynnydd yn nifer y safleoedd sy'n eithriad o ran tai fforddiadwy am 2 flwyddyn olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y Polisi yn destun proses adolygu.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

6.2.17 Yn ystod y cyfnod monitro, ni chyflwynwyd ceisiadau o hyd ar gyfer safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy. Dyma'r drydedd flwyddyn olynol lle na fu cynnydd yn y safleoedd o'r fath.

6.2.18 Er na chyflwynwyd ceisiadau ar gyfer safleoedd sy'n eithriadau, mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yn dal i ddatblygu nifer o safleoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yn darparu tai fforddiadwy ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn y CDLI ac ar safleoedd annisgwyl.

6.2.19 Mae nifer o safleoedd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol a chyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Unwaith bydd datblygiadau o'r fath wedi'u cwblhau fel rhan o'r rhaglen ddatblygu gyfredol, mae'n bosibl y byddant yn chwilio am dir ychwanegol i'w ddatblygu, a gallai'r polisi eithriadau gael ei ddefnyddio. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

6.2.20 Er gwaethaf y pwynt hwn, mae angen ymchwil ac ymchwilio pellach i ganfod y rhesymau pam nad oes safleoedd sy'n eithriadau yn cael eu cyflwyno. O ystyried ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi a bod y polisi'n amlwg heb gyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 44: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Thai Fforddiadwy.

6.2.21 Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017 - nid oes angen monitro/gweithredu pellach.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

6.3 Polisi Strategol 9 - Sipsiwn a Theithwyr

Tabl 6.3.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Gweithredu
45	Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw, nifer y cynigion ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiateir yn flynyddol, nifer y gweryslyoedd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddir amdanynt yn flynyddol, a'r angen am ddarpariaeth Sipsiwn a Theithwyr ychwanegol, fel y nodwyd mewn GTAA	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dangosydd 45: Nifer y lleiniau ychwanegol addarparwyd yng Nghae Garw; nifer y cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiatawyd yn flynyddol; nifer y gweryslyoedd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol; a'r angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr(GTAA).

Tabl 6.3.2 Polisi Strategol SP9 - Sipsiwn a Theithwyr

Sicrhau Darpariaeth ddigonol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (Gweler hefyd Bolisiâu SP2, GT1, GT2)	
Dangosydd Lleol	Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw. Nifer y cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiatawyd yn flynyddol. Nifer y gweryslyoedd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol. Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn GTAA.
Targed y Polisi	Darperir 4 llain yng Nghae Garw erbyn 2017. Darperir 7 llain yng Nghae Garw erbyn 2022. Darperir 9 llain (ar safle priodol neu yng Nghae Garw) erbyn 2026.
Pwynt Sbarduno	Methiant i ddarparu'r 4 llain yng Nghae Garw erbyn 2017. Methiant i ddarparu'r 7 llain yng Nghae Garw erbyn 2022. Methiant i ddarparu 9 llain (ar safle priodol neu yng Nghae Garw) erbyn 2026.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

6.3.1 Nododd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2012⁽⁸⁾ fod angen 4 llain erbyn 2017, 7 llain erbyn 2022 a 9 llain erbyn 2026.

6.3.2 Ar y cychwyn, roedd y Cyngor yn bwriadu datblygu safle Cae Garw, Margam, fesul 3 chyfnod, er mwyn cyflawni'r targedau tymor byr, canolig a hir a nodwyd yn GTAA 2012. Oherwydd bod angen cymaint o waith paratoi ar gyfer y safle, fodd bynnag, a chan ystyried cost-ffeithiolrwydd a chyflawni effeithlon, gwnaeth y Cyngor y penderfyniad i roi 11 llain ar waith yn y tymor byr, er mwyn diwallu'r angen oedd yn ofynnol hyd at 2022.

6.3.3 Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer yr 11 llain yn gynnar yn 2015, a phryd hynny gwnaeth y Cyngor gais am gyllid o Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer yr estyniad, a hynny'n llwyddiannus. Wedyn cwblhawyd yr estyniad (11 o leiniau) yng ngwanwyn 2016, yn unol â thelerau'r grant. O ganlyniad, mae targedau'r polisi, sef darparu 4 llain erbyn 2017 a 7 llain erbyn 2022, wedi cael eu cyflawni.

6.3.4 Daeth yr asesiad diweddaraf, Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016, i'r casgliad fod yr 11 llain a ddarparwyd yng Nghae Garw yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned hyd at 2021.

6.3.5 Yn ystod y cyfnod monitro, cafwyd un gwerysll (preswyl) heb ei awdurdodi yn y Fwrdeistref Sirol. Yn ogystal, cofnodwyd 7 gwerysll tymor byr (dros dro) ar 4 safle yn ystod y cyfnod adrodd, yn amrywio o 3 diwrnod i 15 diwrnod.

6.3.6 Bu'r safle preswyl preifat hwn yn destun gwrandawriad apêl ym mis Ebrill 2018 yn erbyn gwrthod cais cynllunio (a Hysbysiad Gorfodi cysylltiedig), a chafodd yr apêl gynllunio ei chaniatáu, a rhoddwyd caniatâd cynllunio personol ar gyfer hyd at 2 garafan ym mis Awst 2018.

6.3.7 Mae'r apêl yn un nodedig yn yr ystyr bod y teulu o deithwyr yn yr achos hwn wedi byw'n flaenorol ar safle Cae Garw, a awdurdodwyd gan y Cyngor, ond dewison nhw symud o'r safle i safle preifat ar sail eu hamgylchiadau teuluol. Cododd penderfyniad yr apêl, felly, lawer o faterion ynghylch rheoli safle presennol y Cyngor yng Nghae Garw. Fodd bynnag, er y barnwyd bod amgylchiadau personol y teulu hwnnw'n drech na'r gwrthdaro polisi, bernir bod Polisi GT2 yn dal yn gadarn ac yn addas at y diben wrth asesu cynigion ar gyfer safleoedd newydd, a bod Polisi GT1 yn dyrannu safleoedd digonol i ymateb i'r gofynion a nodwyd ar gyfer llety sipsiwn a theithwyr.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

6.4 Polisi Strategol 10 - Mannau Agored

Tabl 6.4.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Aseu	Gweithredu
46	Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion mannau agored y meddianwyr	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation, the policy will be subject to a review process
47	Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygiad, yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
48	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Mannau Agored a Mannau Glas	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach.

Dangosydd 46: Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion mannau agored y meddianwyr.

Tabl 6.4.3 Polisi Strategol SP10 - Mannau Agored

Datblygiadau Newydd a Darparu Mannau Agored (Gweler hefyd Bolisiau SP2, OS1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion mannau agored y meddianwyr.
Targed y Polisi	Dylai pob datblygiad tai newydd lle ceir 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer man agored lle bo diffyg meintiol yn y ddarpariaeth chwaraeon awyr agored.
Pwynt Sbarduno	Un cais am ddatblygiad tai newydd o 3 uned neu fwy, cyhyd ag nad yw'n darparu ar gyfer man agored pan fo diffyg meintiol yn y ddarpariaeth o ran mannau agored.
Perfformiad	
Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

6.4.1 Yn ystod y cyfnod monitro, cymeradwywyd saith cais heb fod angen darparu gofynion mannau agored (na swm wedi'i gymudo ar gyfer darpariaeth oddi ar y safle), er bod y cynigion wedi cyrraedd y trothwy a bennwyd ym Mholisi OS1.

6.4.2 Cyfeiriodd un cais preswyl at ddichonoldeb fel rheswm pam nad oedd darpariaeth neu gyfraniad ariannol A106 wedi bod yn bosibl. Er bod y diffyg dichonoldeb yn anffodus, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod amgylchiadau pan na ellir cyflawni'r holl rwymedigaethau a nodwyd heb beryglu dichonoldeb cyffredinol cynllun datblygu penodol.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Cafodd yr achos hwn ei asesu, ac yn y pen draw roedd y Cyngor wedi'i fodloni bod y datblygwr wedi gallu darparu tystiolaeth nad oedd y gofyniad i ddarparu man agored yn ddichonadwy.

6.4.3 O'r chwe achos oedd yn weddill, ac o ran y cyfiawnhad a nodwyd yn adroddiad y swyddogion, roedd un cais yn ymwneud â chaniatâd hanesyddol oedd yn ceisio rheoleiddio datblygiad yn hytrach nag ychwanegu unedau pellach, lle byddai'r gofynion o ran mannau agored wedi cael eu hystyried o dan y ceisiadau blaenorol ar y safle, gyda gofynion pellach yn cael eu hystyried yn amhriodol; roedd dau arall yn ymwneud â mân ailgynllunio ar gyfer cymeradwyaeth preswyl oedd eisoes yn bodoli, lle na fernir bod cyfiawnhad dros ddarpariaeth bellach na chyfraniadau A106, gan fod rheiny wedi'u cymeradwyo a'u darparu fel rhan o'r caniatâd gwreiddiol; roedd un cais yn ymwneud â chwe fflat yng nghanol tref Port Talbot, lle barnwyd ei fod yn afresymol gofyn am gyfraniadau oherywdd bod diffyg cyfleusterau presennol lle gellid gwario'r arian; roedd un cais yn ailgynllunio cynllun yng nghanol tref Castell-nedd, lle barnwyd ei fod yn afresymol gofyn am gyfraniadau, gan na cheisiwyd cyfraniadau'n flaenorol; ac yn olaf nid oedd gofyn bod cais am wyth uned yng Nghoed Darcy, lle nad oedd gallu i gynnig darpariaeth ar y safle, yn darparu cyfraniadau ar sail y ffaith y barnwyd bod y datblygiad ehangach yn cynnig lefelau priodol o ddarpariaeth.

6.4.4 Er gwaethaf yr achosion hyn o gyfiawnhau, ni chyflawnwyd gofynion y polisi yn yr achosion hyn, ac felly roedd pob un o'r 5 cais a gymeradwywyd yn geisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. At ei gilydd, felly, bernir nad yw'r polisi'n cyflawni ei amcanion, ac felly bydd yn cael ei ailasesu fel rhan o adolygiad y CDLI.

Dangosydd 47: Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygiad, yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 6.4.3 Polisi Strategol SP10 - Mannau Agored

Amddiffyn Mannau Agored sydd eisoes yn Bodoli (Gweler hefyd Bolisiâu SP2, OS2)	
Dangosydd Lleol	Niferymannauagoredpresennolagollwydynsgîldatblygiad,yngroesi'rfframwaithpolisi.
Targed y Polisi	Dim colli mannau agored sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais oedd yn arwain at golli man agored yn groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

6.4.5 Yn ystod y cyfnod monitro cymeradwywyd dau gais sydd wedi effeithio ar fannau agored presennol (h.y. darnau o dir a nodwyd yn 'Asesiad Mannau Agored' y Cyngor).

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

6.4.6 Roedd un cais yn golygu colli darn bach o dir nad oedd yn cael ei ddefnyddio, y tu hwnt i gae criced, yn agos at ffin y safle. Nodwyd yr ardal hon yn yr Asesiad Mannau Agored fel man agored, a'r cynnig oedd newid defnydd i'w ymgorffori mewn cwrttil preswyl, fel ei fod yn achosi colled net bychan. Fodd bynnag, bu adroddiad y swyddog yn ymdrin yn llawn â'r golled wrth ystyried y cais. Roedd yr ail gais yn cynnwys newid defnydd o'r math o ddarpariaeth mannau agored, yn yr ystyr bod ardal o amgylch ymyl y cae chwarae (a gynhwyswyd yn yr Asesiad Mannau Agored) i'w defnyddio ar gyfer offer chwarae plant. Bu adroddiad y swyddog yn ymdrin yn llawn â gofynion y polisi, ac i bob pwrpas roedd yn newid yn y math o ddarpariaeth, yn hytrach na cholled. Ym mhob achos roedd adroddiadau'r swyddog yn ystyried colli mannau agored ac yn darparu cyfiawnhad rhesymol ar gyfer y cynigion.

6.4.7 At ei gilydd, felly, ymddengys bod y polisi'n gweithredu'n dda, a bydd hynny'n parhau i gael ei fonitro mewn AMBau yn y dyfodol.

Dangosydd 48: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Mannau Agored a Mannau Glas.

Tabl 6.4.4 Polisi Strategol SP10 - Mannau Agored

Amddiffyn Mannau Agored sydd eisoes yn Bodoli (Gweler hefyd Bolisi OS2)	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Mannau Agored a Mannau Glas.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Mannau Agored a Mannau Glas erbyn Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

6.4.8 Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2018 - nid oes angen monitro/gweithredu pellach.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

7 Hybu Economi Gynaliadwy

7.1 Polisi Strategol 11- Twf Cyflogaeth

Tabl 7.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Cam Gweithredu
49	Lefel cyflogaeth yn y gweithle yn CNPT, y newid yng nghyflogaeth y gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig, lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT, lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation, the policy will be subject to a review process
50	Tir cyflogaeth a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation, the policy will be subject to a review process
51	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation, the policy will be subject to a review process
52	Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation, the policy will be subject to a review process
53	Cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT, Cymru a'r Deyrnas Unedig	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
54	Cyfradd diweithdra CNPT, Cymru a'r Deyrnas Unedig	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
55	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodolsy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Bae Baglan	Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017	Dim angen camau pellach.
56	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dangosydd 49: Lefel cyflogaeth yn y gweithle yn CNPT, y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT, lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Tabl 7.1.2 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth	
(Gweler hefyd Bolisi SP2)	
Dangosydd Lleol	<u>Dangosydd Lleol:</u>

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisi SP2)	
	Lefel cyflogaeth yn y gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot. <u>Dangosydd Cyd-destunol:</u> Y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig. Lefel a chyfraddau cyflogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot. Lefel a chyfraddau cyflogaeth ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig.
Targed y Polisi	<u>Prif Darged:</u> Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026. <u>Targedau Interim:</u> 2011/14: - 1458 2014/17: +1326 2017/20: +1326 2020/23: +1326 2023/26: +1326 <u>Targed Blynyddol:</u> Enillion cyfartalog o 442 swydd y flwyddyn o 2014 dros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 884 yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd.
Pwynt Sbarduno	Mae lefel twf swyddi yn amrywio o'r targed cronol o 884 o swyddi dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd am 2 flwyddyn yn olynol.
Perfformiad	
Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

7.1.1 Mae'r CDLI wedi'i seilio ar strategaeth twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n defnyddio'r cynnydd a ragwelir mewn swyddi a chynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd i nodi'r boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer o swyddi a ragwelir, a nifer y cartrefi newydd y bydd angen amdanynt. Mae'r dull gweithredu'n sicrhau bod y strategaethau tai a chyflogaeth wedi'u halinio a bod cyfatebiaeth rhwng nifer y swyddi, y tai, y cyflenwad llafur a'r lle ar gyfer cyflogaeth.

7.1.2 Mae'r model twf economaidd yn rhagweld y bydd 3,850 o swyddi yn cael eu creu yn ystod cyfnod y Cynllun, gyda thwf poblogaeth yr ardal yn deillio o gymhareb y boblogaeth oedran gwaith â'r boblogaeth gyfan. O ystyried bod twf economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi peidio i bob pwrpas cyn dyddiad sylfaen y CDLI, roedd y strategaeth economaidd ei phwyslais yn gyfle i ymdrin â materion economaidd allweddol yn y Fwrdeistref Sirol, gan gydnabod y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer twf trwy brosiectau adfywio a seilwaith allweddol. Mae cyflogaeth yn y gweithle, a nifer y swyddi a greir, felly yn un o'r dangosyddion allweddol a fydd yn pennu sut mae'r CDLI yn perfformio, a bydd yn dylanwadu ar elfennau eraill o'r Cynllun.

7.1.3 Mae'r model twf economaidd yn rhagfynegi cynnydd o 3,850 o swyddi yn ystod cyfnod y CDLI, yn codi o 48,200 o swyddi yn 2011 i 52,050 o swyddi yn 2026. Yn ystod Archwiliad Cyhoeddus y CDLI, rhyddhawyd data newydd oedd yn dangos bod cyflogaeth yn y gweithle mewn gwirionedd wedi gostwng o 48,200 yn 2011 i 46,300 yn 2013, oedd o ganlyniad yn golygu, er mwyn i'r CDLI gyrraedd y targed o 52,050 o swyddi yn 2026, fod y targed blynyddol ar gyfer creu swyddi wedi codi o 256 o swyddi'r flwyddyn i 442 o swyddi'r flwyddyn, ac felly y byddai gofyn i'r cynllun greu swyddi'n gyflymach yn ystod y blynyddoedd sy'n weddill. Roedd y targedau interim yn y fframwaith monitro yn adlewyrchu'r gostyngiad yng nghyflogaeth yn y gweithle rhwng 2011 a 2013, ac yn cynnwys y gofyniad diwygiedig, sef 442 o swyddi'r flwyddyn.

7.1.4 Ar ôl mabwysiadu'r CDLI, roedd y datganiad ystadegol nesaf yn diwygio'r ffigurau ar gyfer 2011 i 2013, gan nodi safle uwch o ran y dyddiad sylfaen yn 2011, a gostyngiad mwy drastig yn 2013. Dangosodd y data a ryddhawyd ar gyfer 2014 gynnydd amlwg mewn swyddi, oedd yn gwneud yn iawn am y gostyngiad sydyn yn 2013, ac yn dangos bod yr ardal o bosibl wedi datblygu sylfaen economaidd gadarnhach, sydd â'r gallu i adennill tir, fel y dangosir isod:

Tabl 7.1.3 Cyflogaeth Gwreiddiol a Diwygiedig yn y Gweithle

	2011	2012	2013	2014
Sefyllfa Wreiddiol	48,200	49,100	46,300	-
Sefyllfa Ddiwygiedig	49,400	50,200	47,100	50,600

7.1.5 O ganlyniad i'r data diweddarach a ryddhawyd, mae'r targedau interim yn y fframwaith monitro bellach, i bob pwrpas, wedi dyddio; dangosodd y targed interim ar gyfer 2011-2014 ostyngiad o -1,458 o swyddi mewn perthynas â'r ffigur gwaelodlin, ond mewn gwirionedd cafwyd cynnydd o 1,200 o swyddi yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r ffigurau a ddiweddarwyd, a'r cynnydd mewn swyddi yn ystod y cyfnod o 2011-2014, bellach wedi newid y swyddi blynyddol sy'n angenrheidiol i gyrraedd y targed o 3,850 o swyddi yn ystod cyfnod y Cynllun.

7.1.6 Gan fod y dangosydd hwn a nifer y swyddi a grewyd yn un o elfennau hanfodol strategaeth y CDLI, wrth fonitro'r dangosydd, bernir ei bod yn bwysig edrych ar y data diweddaraf a monitro'r swyddi a grewyd yn erbyn targed cyffredinol y CDLI, sef 3,850 o swyddi. Gan fod 1,200 o swyddi wedi'u creu mewn gwirionedd yn ystod cyfnod 2011-2014, i gyrraedd y targed terfynol o 3,850 o swyddi, bydd angen llai o swyddi yn ystod gweddill

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

cyfnod y CDLI i gyflawni dyheadau'r CDLI. Mae'r tabl canlynol yn darlunio'r targedau a geir yn y fframwaith monitro a'r targedau 'diwygiedig' (gan ddefnyddio'r ffigur dyddiad sylfaen diwygiedig, uwch, sef 49,400):

Tabl 7.1.4 Fframwaith Monitro a Thargedau Diwygiedig

	Fframwaith Monitro	Sefyllfa Ddiwygiedig
Swyddi yn 2011	49,400	49,400
2011-14	47,942 (-1458)	50,600 (+1,200)
2014-17	49,268 (+1326)	51,262 (+662)
2017-20	50594 (+1326)	51,924 (+662)
2020-23	51,920 (+1326)	52,586 (+662)
2023-26	53,246 (+1326)	53,248 (+662)
Swyddi yn 2026	53,250	53,250
Cyfanswm y Newid yn ystod y Cyfnod	+3,848	+3,846

7.1.7 Mae'r tabl canlynol yn dangos y newidiadau o ran swyddi ers dyddiad sylfaen y CDLI:

Tabl 7.1.5 Cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Castell-nedd Port Talbot	49,400	50,200	47,100	50,500	50,900	49,800	46,200

7.1.8 Canfu AMB y llynedd fod cyfanswm o 400 o swyddi wedi'u creu ers dyddiad sylfaen y CDLI, drwy godi o 49,400 o swyddi yn 2011 i 49,800 yn 2016. Er mai cynnydd cymharol fach yw hwn, roedd yn arwydd o ragolygon economaidd cadarnhaol ar gyfer yr ardal.

7.1.9 Y data diweddaraf sydd ar gael o StatWales yw 2017. Mae ffigurau cyflogaeth yn y gweithle i gael eu rhyddhau ym mis Hydref 2019, ac felly byddant yn cael eu hymgorffori yn AMB y flwyddyn nesaf.

7.1.10 Fodd bynnag, rhwng 2016 a 2017, bu gostyngiad o 3,600 yn nifer y swyddi, o 49,800 o swyddi yn 2016 i 46,200 yn 2017. Mae'r gostyngiad sydyn yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn dangos, o ddyddiad sylfaen y CDLI hyd 2017 fod nifer y swyddi wedi gostwng 3,200, sy'n ostyngiad sylweddol yn nifer y swyddi. Gan fod y CDLI heb gyrraedd y targedau o fewn y fframwaith monitro yn AMB y llynedd, dyma'r ail flwyddyn i gyflogaeth yn y gweithle syrthio o dan y targed. O ystyried bod y pwynt sbarduno: 'mae lefel twf swyddi yn amrywio o'r targed cronol o 884 o swyddi dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd am 2 flwyddyn yn olynol', wedi'i gyrraedd, bydd y polisi yn awr yn destun proses adolygu.

Dangosyddion Cyd-destunol

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

7.1.11 Mae gan y dangosydd hwn hefyd nifer o ddangosyddion cyd-destunol i'w monitro. Yn gyntaf, y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig, ac mae'r tabl canlynol yn dangos y newidiadau ers dyddiad sylfaen y CDLI:

Tabl 7.1.6 Cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Cymru	1,346,700	1,337,200	1,365,200	1,394,400	1,404,400	1,404,300	1,414,800
Y Deyrnas Unedig	30,137,000	30,382,100	30,825,400	31,464,800	32,145,200	32,412,600	32,915,200

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

7.1.12 7.1.12Dengys y data, ers dyddiad sylfaen y CDLI, fod cynnydd o 68,100 o swyddi wedi digwydd yng Nghymru, sy'n cynrychioli cynnydd o 5.06%. Roedd y cynnydd yn y Deyrnas Unedig yn 2,778,200 o swyddi, sy'n cyfateb i gynnydd o 9.22%. Er bod cyflogaeth yn y gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi gostwng 7.23% rhwng 2016 a 2017, yng Nghymru cododd y lefel 0.75% (cyfanswm o 10,500 o swyddi) a 1.55% (502,600) ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.

7.1.13 Mae'r dangosyddion cyd-destunol sy'n weddill yn canolbwyntio ar gyfradd cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r tabl canlynol yn dangos y newidiadau o ran cyfraddau cyflogaeth rhwng 2011 a 2018:

Tabl 7.1.7 Cyfradd Cyflogaeth 2011-2018

Blwyddyn yn Diweddu	Castell-nedd Port Talbot	Cymru	Y Deyrnas Unedig
31 Mawrth 2011	63.4%	66.4%	70.1%
31 Mawrth 2012	60.4%	66.7%	69.9%
31 Mawrth 2013	65.1%	67.6%	70.7%
31 Mawrth 2014	67.2%	69.5%	71.4%
31 Mawrth 2015	67%	69.3%	72.6%
31 Mawrth 2016	66.7%	71.1%	73.6%
31 Mawrth 2017	70.7%	71.5%	74.0%
31 Mawrth 2018	67.5%	72.8%	74.8%
31 Mawrth 2019	71.8%	73.1%	75.2%

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol/Arolwg o'r Gweithlu Lleol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


7 . Hybu Economi Gynaliadwy

7.1.14 Mae cyfradd cyflogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cynyddu 4.3% rhwng 2018 a 2019. Yn ystod yr un cyfnod, cododd cyfradd cyflogaeth y Deyrnas Unedig hefyd, ond ar gyfradd arafach o 0.4%, tra bod y gyfradd yng Nghymru wedi codi 0.3%. O edrych yn ôl at ddyddiad sylfaen (2011) y cynllun bu cynnydd o 8.4%, o 63.4% yn 2011 i 71.8% yn 2019.

7.1.15 Mae'r graff canlynol yn dangos y newidiadau i'r gyfradd cyflogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae cyfradd cyflogaeth y Deyrnas Unedig a Chymru wedi bod yn weddol gyson, a phrofwyd cynnydd cymharol bwyllog yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf. Mae'r gyfradd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi amrywio llawer mwy yn ystod yr un cyfnod. Roedd cyfradd cyflogaeth 2017 yn dangos bod y bwlch rhwng Castell-nedd Port Talbot a Chymru gyfan yn lleihau, gan fod cyfartaledd Cymru 0.8% yn unig yn uwch na Chastell-nedd Port Talbot. Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf (17/18), profodd cyfradd gyflogaeth CNPT ostyngiad o 3.2%, ond eleni (18/19) gwelwyd y gyfradd yn codi 4.3%, fel bod y bwlch rhwng Cymru a'r Deyrnas unedig wedi cau, 1.3% 3.4% yn eu tro.

7.1.16 Mae'r dangosyddion cyd-destunol ehangach yn amlygu sefyllfa economaidd gadarnhaol ar gyfer y cyfnod monitro hwn (2018/19), a byddant yn parhau i gael eu monitro. Oherwydd bydd y dangosydd yn tystio i amrywiadau pellach yn ystod cyfnod y cynllun (2011-2026) mae'n ymarferiad defnyddiol cymharu hynny â'r sefyllfa economaidd ehangach.

Ffigur 7.1 Cyfradd Cyflogaeth 2011-2018



Dangosydd 50: Tir cyflogaeth a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth.

Tabl 7.1.8 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisiâu SP2 EC1/1, EC1/2, EC1/3, EC1/4)	
Dangosydd Craidd	Tir cyflogaeth a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth.
Targed y Polisi	<p><u>Prif Darged:</u></p> <p>Datblygu isafswm o 32 hectar o dir ar y safleoedd canlynol a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth hyd at 2026:</p> <p>Bae Baglan: 15ha</p> <p>Cyffordd 38: 6ha</p> <p>AAS Coed Darcy: 4ha</p> <p>AAS Glannau'r Harbwr: 7ha</p> <p><u>Targedau Blynyddol:</u></p> <p>2011/14: 1.7ha (gwirioneddol)</p> <p>2014/17: 7.6ha</p> <p>2017/20: 7.6ha</p> <p>2020/23: 7.6ha</p> <p>2023/26: 7.6ha</p> <p>Datblygu cyfartaledd o 2.5 hectar o dir at ddibenion cyflogaeth y flwyddyn, dros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 5 hectar i'w datblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd.</p>
Pwynt Sbarduno	Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddibenion cyflogaeth yn syrthio o dan y targed cronol o 5 hectar sydd i'w datblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd am 2 flwyddyn olynol.
Perfformiad	
Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

7.1.17 Mae'r fframwaith monitro yn pennu targed o 2.5 hectar (ha) o ddatblygiad cyflogaeth y flwyddyn ar y safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd, gyda'r targedau interim i ddatblygu 7.6ha yn ystod pob cyfnod o dair blynedd, fel y nodwyd yn y tabl uchod.

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

7.1.18 Yn ystod y cyfnod monitro cyfredol cafwyd un cais am ddatblygiad cyflogaeth oddi mewn i'r dyraniad cyflogaeth yng Nghoed Darcy (EC1/3) oedd yn cyfeirio at ailadeiladu uned ddiwydiannol a ddifrodwyd mewn tân. Ni dderbyniwyd cynigion ar gyfer unrhyw ddatblygiadau cyflogaeth yng Nghyffordd 38 (yr M4) (EC1/1), Bae Baglan (EC1/2) neu Lannau'r Harbwr (EC1/3). At ddibenion y dangosydd hwn, ni fernir bod cais Coed Darcy yn berthnasol, gan nad yw ond yn ailosod adeilad sydd eisoes yn bodoli.

7.1.19 Nod y polisi yw datblygu cyfartaledd o 2.5ha o dir at ddibenion cyflogaeth ar y 4 safle cyflogaeth a ddyrannwyd fesul blwyddyn, gyda tharged cronol o 5ha dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd. Gan na fu datblygiad yn ystod y 2 flynedd diwethaf, cyrhaeddwyd pwynt sbarduno'r polisi.

7.1.20 Yn awr bydd ymchwil ac ymchwilio pellach yn digwydd i ganfod y rhesymau pam mae datblygiad wedi gostwng o dan y targed, a bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygiad y CDLI.

Dangosydd 51: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan.

Tabl 7.1.9 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd BolisiEC1/1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan.
Targed y Polisi	<p><u>Prif Darged:</u></p> <p>Datblygu isafswm o 15ha o dir ym Mae Baglan at ddibenion cyflogaeth</p> <p><u>Targedau Interim:</u></p> <p>2011/14: 0</p> <p>2014/17: 2.7ha</p> <p>2017/20: 4.1ha</p> <p>2020/23: 4.1ha</p> <p>2023/26: 4.1ha</p> <p><u>Targedau Blynyddol:</u></p> <p>Datblygu cyfartaledd o 1.35ha o dir ym Mae Baglan at ddibenion cyflogaeth, gyda tharged cronol o 2.7ha o dir i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd.</p>

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd BolisiEC1/1)	
Pwynt Sbarduno	Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan yn amrywio o'r targed cronol o 2.7ha sydd i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd am 2 flwyddyn olynol.
Perfformiad	
Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

7.1.21 Y targed ar gyfer swm y datblygiad ym Mae Baglan (dyraniad EC1/1) yn ystod y cyfnod 2017-2020 yw 4.1ha. Yn ystod y cyfnod monitro cyfredol ni fu datblygiad at ddefnyddiau cyflogaeth ym Mae Baglan. Er na fu datblygiad at ddefnyddiau cyflogaeth ers dyddiad sylfaen y CDLI, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar y safle ac mae Parc Solar Ffotofoltaidd wedi cael ei ddatblygu.

7.1.22 Mae ailddatblygiad Bae Baglan yn uchelgais tymor hir sy'n debygol o gymryd sawl blwyddyn i'w gyflawni, a gallai meysydd sy'n rhan o'r dyraniad fod yn addas i hwyluso'r twf yn yr economi wybodaeth. O bosib bydd angen unedau mwy ar gyfer y cynnydd mewn cyfleusterau ymchwil a datblygu mewn unedau llai ar Gampws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe ac yng Nglannau'r Harbwr, wrth i'r safleoedd hyn barhau i ddatblygu, ac felly mae Bae Baglan yn darparu lle a seilwaith digonol i ganiatáu iddynt ehangu. Mae'r safle hefyd wedi cael statws parth menter a ddylai annog buddsoddiad yn yr ardal.

7.1.23 Targed y polisi yw datblygu cyfartaledd o 1.35ha o dir ym Mae Baglan at ddibenion cyflogaeth bob blwyddyn, gyda tharged cronol o 2.7ha o dir i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd. Ni fu datblygiad ym Mae Baglan bellach ers tair blynedd, a chyrrhaeddwyd pwynt sbarduno'r polisi.

7.1.24 Yn awr bydd ymchwil ac ymchwilio pellach yn digwydd i ganfod y rhesymau pam mae datblygiad wedi gostwng o dan y targed, a bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygiad y CDLI.

Dangosydd 52:Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr.

Tabl 7.1.10 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisiâu SP2, EC1)	
Dangosydd Lleol	Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr.

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisiau SP2, EC1)	
Targed y Polisi	<p><u>Prif Darged:</u></p> <p>Darparu ar gyfer enillion net o ryw 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2026.</p> <p><u>Targedau Interim:</u></p> <p>2011/14: 7,000 msg</p> <p>2014/17: 7,000 msg</p> <p>2017/20: 7,000 msg</p> <p>2020/23: 7,000 msg</p> <p>2023/26: 7,000 msg</p> <p><u>Targedau Blynyddol:</u></p> <p>Datblygucyfartaleddo2,250m.sg.oarwynebeddllawrcyflogaethyflwyddyn, gyda tharged cronno1 o 4,500 m.sg. i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd.</p>
Pwynt Sbarduno	Mae swm yr arwynebedd llawr a ddatblygwyd at ddibenion cyflogaeth yn syrthio o dan y targed cronno1, sef 4,500 m.sg. i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd am 2 flwyddyn olynol.
Perfformiad	
Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

7.1.25 Mae'r fframwaith monitro yn pennu targed o ddatblygu 2,250 m.sg o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn, gyda tharged cyffredinol o 7,000 m.sg. fesul cyfnod interim.

7.1.26 Mae'r tabl canlynol yn dangos yr enillion a'r colledion o ran arwynebedd llawr cyflogaeth ers dyddiad sylfaen y CDLI, ac yn darparu'r cynnydd cyffredinol net yn yr arwynebedd llawr cyflogaeth fesul cyfnod interim.

Tabl 7.1.11 Newidiadau yn yr Arwynebedd Llawr Cyflogaeth fesul Cyfnod Interim

Cyfnod Interim	Cynnydd o ran Arwynebedd Llawr Cyflogaeth (M.SG)	Colli Arwynebedd Llawr Cyflogaeth (M.SG)	Cynnydd Net yn yr Arwynebedd Llawr Cyflogaeth (MSG)
2011/14	17,427.5	15,084	2,343.5
2014/17	13,884.16	10,023	3,861.16
2017/20	1,864 + 141.9 = 2005.9	1,300 + 1,322.6 = 2622.6	-616.7

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

7.1.27 Yn ystod y cyfnod monitro hwn (2018/19) rhoddwyd caniatâd ar gyfer cyfanswm o 7,612 msg o arwynebedd llawr cyflogaeth y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd a rhai heb eu dyrannu. Fodd bynnag, o'r ffigur hwn, dim ond 141.9 msg sydd wedi cael ei adeiladu, gan arwain at gynnydd cyffredinol o 2,005.9 msg yn yr arwynebedd llawr dros 2 o'r 3 blynedd (2017/18 a 2018/19) yn y trydydd cyfnod interim (2017/20).

7.1.28 Oddi mewn i'r cyfnod monitro cyfredol, mae colli 1,322.6 msg o arwynebedd llawr cyflogaeth yn ymwneud â 4 cais, yr oedd 3 ohonynt yn ymwneud â newid defnydd o swyddfeydd/B1 i fflatiau a C3, ac un yn ymwneud â newid defnydd o drwsio ceir i Feithrinfa Ddydd (D1).

7.1.29 Mae'r newid net yn yr arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth, felly, yn yr ail flwyddyn (2018/19) o'r cyfnod interim 2017/20 ($141.9 - 1,322.6 = -1180.7$) wedi syrthio'n sylweddol is na'r targed o 2,250 msg.

7.1.30 Cafodd nifer o adeiladau eu dymchwel hefyd yn y cyfnodau interim cynharach, gan gynyddu nifer y colledion. Er i'r rhain fod yn golledion i'r portffolio cyflogaeth, nid oedd nifer ohonynt bellach yn addas at y diben, ac nid yw'r colledion, felly, wedi cael effaith negyddol ar argaeledd cyffredinol safleoedd cyflogaeth.

7.1.31 Mae'r tabl yn dangos bod y 2 gyfnod monitro (2017/18 a 2018/19) yn y trydydd cyfnod interim (2017/20), o'u cronni, yn syrthio o dan y gofyniad cronol o 4,500 msg. Pwynt sbarduno'r polisi yw faint o arwynebedd llawr sy'n syrthio o dan y gofyniad cronol, sef 4,500msg o arwynebedd llawr cyflogaeth yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd am 2 flwyddyn olynol. Gan fod y targed cronol ar gyfer y 3 blynedd diwethaf wedi syrthio o dan 4,500msg, cyrhaeddwyd pwynt sbarduno'r polisi.

Dangosydd 53: Cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT, Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Tabl 7.1.12 Polisi Strategol SP11 – Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisi SP2)	
Dangosyddion	Dangosydd Lleol: Cyfradd gweithgaredd economaidd Castell-nedd Port Talbot <u>Dangosydd Cyd-destunol:</u> Cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig.
Targed y Polisi	Cyflawni cynnydd yng nghyfradd gweithgaredd economaidd, i 76% erbyn 2026.

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisi SP2)	
Pwynt Sbarduno	Mae cyfradd gweithgaredd economaidd yn dirywio am 2 flynedd olynol.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

7.1.32 Adeg dyddiad sylfaen y CDLI, roedd cyfradd gweithgaredd economaidd Castell-nedd Port Talbot yn 69.7%, 3% yn is na chyfartaledd Cymru, sef 72.7%. Un o amcanion y CDLI yw cynyddu cyfradd gweithgaredd economaidd i 76% erbyn 2026, ac alinio hynny â chyfartaledd Cymru.

7.1.33 Yn y flwyddyn gyntaf ers dyddiad sylfaen y CDLI (diwedd Mawrth 2012), roedd cyfradd y gweithgaredd economaidd wedi gostwng i 67.9%. Yna cododd y gyfradd y flwyddyn ganlynol, ac er ei bod wedi codi a gostwng tipyn ers hynny, mae wedi parhau uwchben ffigur cychwynnol y dyddiad sylfaen, sef 69.7%. Ers y dyddiad sylfaen, bu cynnydd yn y gyfradd gweithgaredd economaidd ar draws Castell-nedd Port Talbot, Cymru a'r Deyrnas Unedig, fel y dengys y tabl isod:

Tabl 7.1.13 Gweithgaredd Economaidd 2011-2018


Blwyddyn yn Diwedd	Castell-nedd Port Talbot	Cymru	Y Deyrnas Unedig
31 Mawrth 2011 (Dyddiad Sylfaen)	69.7%	72.7%	76%
31 Mawrth 2012	67.9%	73%	76.2%
31 Mawrth 2013	70.4%	73.9%	76.8%
31 Mawrth 2014	74.3%	75.3%	77.1%
31 Mawrth 2015	71.1%	74.4%	77.3%
31 Mawrth 2016	71.8%	75.3%	77.7%
31 Mawrth 2017	74.9%	74.8%	77.8%
31 Mawrth 2018	72.5%	76.5%	78.3%
31 Mawrth 2019	74.0%	76.7%	78.5%

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol/Arolwg y Gweithlu Lleol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

7.1.34 Yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, mae cyfradd gweithgaredd economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cynyddu 1.5%, o 72.5% yn 2017 i 74% yn 2018. Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru wedi codi ar gyfradd arafach o 0.2%, ac mae cyfartaledd y Deyrnas Unedig hefyd wedi codi 0.2%.

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

7.1.35 Yn 2016, roedd cyfradd gweithgaredd economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot 0.1% yn uwch na chyfartaledd Cymru, sy'n dangos bod y CDLI ar drac i gyflawni'r amcan o gyfateb i gyfartaledd Cymru. Rhwng Blwyddyn Ariannol 2016 a 2017, gyda'r dirywiad yn lefel gweithgaredd economaidd Castell-nedd Port Talbot a'r cynnydd yng nghyfartaledd Cymru, ehangodd y bwlch unwaith yn rhagor. Mae'r cynnydd yng nghyfradd gweithgaredd economaidd Castell-nedd Port Talbot yn 2018 wedi golygu bod y bwlch rhwng Castell-nedd Port Talbot a chyfartaledd Cymru wedi gostwng o 4% yn 2017 i 2.7% yn 2018, gan ddangos gwelliant calonogol yn y cyd-destun economaidd lleol. Dangosir hyn yn y graff isod.



7.1.36 Yn fwy penodol, yn ystod y cyfnod monitro hwn gostyngodd cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT 1.1% yn ystod y ddau chwarter cyntaf, ond yna cododd 0.5% a 2.5% yn eu tro yn yr ail a'r trydydd chwarter, cyn gostwng 0.4% yn y pedwerydd chwarter. O gymharu, bu cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru yn gostwng 0.3% ar y cychwyn, yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, yna cododd 0.5% yn y trydydd chwarter.

Tabl 7.1.14 Cyfradd Gweithgaredd Economaidd 2018-2019

Cyfnod yn Diweddu	Castell-nedd Port Talbot	Cyfartaledd Cymru
31st Mawrth 2018	72.5%	76.5%
30th Mehefin 2018	71.4%	76.3%

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Cyfnod yn Diweddu	Castell-nedd Port Talbot	Cyfartaledd Cymru
30th Medi 2018	71.9%	76.2%
31st Rhagfyr 2018	74.4%	76.7%
31st Mawrth 2019	74.0%	76.7%

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol/Arolwg o'r Gweithlu Lleol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

7.1.37 At ei gilydd, felly, mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos darlun calonogol, gan fod cyfraddau gweithgaredd economaidd 2018 yn dangos cynnydd cyffredinol o 4.3% dros ffigur dyddiad sylfaen y CDLI. Mae'r bwlch rhwng cyfartaledd Castell-nedd Port Talbot a Chymru hefyd wedi lleihau 0.3% yn ystod y cyfnod hwnnw. O gyfuno'r pethau hyn, gwelir bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni amcanion y CDLI.

7.1.38 Cydnabyddir, fodd bynnag, bod y cyfraddau gweithgaredd economaidd blynyddol yn destun amrywiadau, felly bydd y sefyllfa'n dal i gael ei monitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

Dangosydd 54: Cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru a'r Deyrnas Unediga chyfradd diweithdra Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Tabl 7.1.15 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth (Gweler hefyd Bolisi SP2)	
Dangosyddion	Dangosydd Lleol: Cyfradd diweithdra Castell-nedd Port Talbot <u>Dangosydd Cyd-destunol:</u> Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig
Targed y Polisi	Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra, i 6.9% erbyn 2026
Pwynt Sbarduno	Mae cyfradd diweithdra'n cynyddu 2 flynedd yn olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

7.1.39 Un o amcanion y CDLI yw lleihau'r gyfradd diweithdra, ac mae model economaidd y CDLI wedi'i seilio ar ostwng y gyfradd i gyfartaledd hir dymor Cymru, sef 6.9%. Mae'r tabl canlynol yn nodi cyfradd gymharol diweithdra yng Nghastell-nedd Port Talbot, Cymru a'r Deyrnas Unedig yn eu tro, ers dyddiad sylfaen y CDLI:

Tabl 7.1.16 Cyfraddau Diweithdra Cymharol fesul Blwyddyn

Blwyddyn yn Diwedd	Castell-nedd Port Talbot	Cymru	Y Deyrnas Unedig
31 Mawrth 2012	10.8%	8.4%	8.1%
31 Mawrth 2013	7.4%	8.3%	7.8%
31 Mawrth 2014	9.3%	7.4%	7.2%
31 Mawrth 2015	5.6%	6.7%	5.9%
31 Mawrth 2016	6.9%	5.4%	5.1%
31 Mawrth 2017	5.5%	4.4%	4.7%
31 Mawrth 2018	6.6%	4.9%	4.3%
31 Mawrth 2019	3.0%	4.5%	4.1%

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol/Arolwg o'r Gweithlu Lleol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

7.1.40 Ers dyddiad sylfaen y CDLI, mae cyfradd diweithdra'r Deyrnas Unedig wedi bod yn gostwng yn raddol bob blwyddyn, ac mae cyfradd Cymru hefyd wedi gweld gostyngiad blynyddol, ac eithrio yn 2017, pan welwyd cynnydd bychan o 0.5%.

7.1.41 Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae cyfradd diweithdra wedi amrywio'n fwy ers dyddiad sylfaen y CDLI ac nid yw wedi dilyn yr un patrwm o ddirywiad graddol a welwyd yng nghyfartaleddau Cymru a'r Deyrnas Unedig. Yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, gostyngodd y gyfradd diweithdra o 6.6% i 3%, sy'n cynrychioli gostyngiad o 3.6%. Mae'r gostyngiad hwn yn sylweddol fwy nag yng Nghymru yn gyffredinol (0.4%) a'r Deyrnas Unedig (0.2%) yn eu tro.

7.1.42 Dylid nodi, fodd bynnag, bod angen trafod data 2018 yn wylidwrus, gan fod y 'Swyddfa Ystadegau Gwladol' wedi categorio'r data fel data 'ansawdd isel', gan ei fod wedi'i seilio ar 10-25 o ymatebion arolwg. Dim ond amcangyfrifon sydd wedi'u seilio ar 40 o ymatebion neu fwy sy'n cael eu categorio'n rhai cadarn, ac mae eitemau data sy'n seiliedig ar 25-40 o ymatebion yn cael eu categorio'n rhai o ansawdd cyfyngedig.

7.1.43 Er gwaethaf hyn, mae gostyngiad wedi'i gofnodi yn ystod y cyfnod monitro sy'n arwydd o broffil economaidd mwy cadarnhaol ar gyfer yr ardal, a bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni amcanion y CDLI. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro'n fanwl yn ystod y flwyddyn nesaf.

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Dangosydd 55: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Bae Baglan.

7.1.44 Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017 - nid oes angen monitro/gweithredu pellach.

Dangosydd 56: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 7.1.17 Polisi Strategol SP11 - Twf Cyflogaeth

Cefnogi a diogelu defnyddiau cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli (Gweler hefyd Bolisiau SP2, EC2, EC3, EC4, EC5)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

7.1.45 Mae Polisi EC3 (Defnyddiau Ardal Gyflogaeth) yn cyfyngu ar ddefnyddiau oddi mewn i ardaloedd cyflogaeth presennol a rhai a ddyrannwyd i ddsbarthiadau defnydd B1, B2 a B8, cyfleusterau neu wasanaethau ategol a fyddai'n cynnal defnyddiau cyflogaeth a gwasanaethau masnachol heb gysylltiad â dosbarth B. Byddai angen i'r gwasanaethau masnachol gydweddu â swyddogaeth economaidd ehangach yr ardal gyflogaeth, ac ni ddylent fod yn ddefnyddiau y byddai'n well eu lleoli yng nghanol trefi.

7.1.46 Yn ystod y cyfnod monitro, cafwyd 1 cais oddi mewn i ardal gyflogaeth a ddiogelir y gellid barnu ei fod yn groes i'r fframwaith polisi.

7.1.47 Roedd y cais yn un am newid defnydd i ailgylchu dillad, storfa a thŷ ocsiwn, plws cadw cynwysyddion storio. Roedd rhan storio dillad ac ailgylchu'r datblygiad wedi bod ar y safle ers 2011, gyda saith o gyflogeion, a bernid ei fod yn ddefnydd storio a dosbarthu B8. Barnwyd bod y defnydd tŷ ocsiwn arfaethedig yn ategol i'r Dosbarth Defnydd B8 hwn, ac y byddai'n cynyddu nifer y cyflogeion gan un swydd amser llawn a dwy swydd ran amser. O ganlyniad, barnwyd bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â gofynion Polisi EC3.

7.1.48 Bernir felly nad oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

7.2 Polisi Strategol 12 Manwerthu

Tabl 7.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Asesu
57	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiad manwerthu, yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
58	Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	NDim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dangosydd 57: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiad manwerthu, yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd.

Tabl 7.2.2 Polisi Strategol SP12 - Manwerthu

Amddiffyn defnyddiau manwerthu a chymysg priodol yn yr hierarchaeth fanwerthu (Gweler hefyd Bolisiâu SP2, R2, R3)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiad manwerthu, yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad manwerthu sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad manwerthu sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

7.2.1 Cymeradwywyd tri chais cynllunio cysylltiedig â darparu safleoedd manwerthu newydd yn ystod y cyfnod monitro. Roedd un cais ar gyfer newid defnydd safle yng nghanolfan fanwerthu canol tref Castell-nedd o barlwr tatŵs i ddefnydd manwerthu A1, ac roedd dau ar gyfer datblygiadau newydd oedd yn cynnwys unedau manwerthu, a hynny o fewn y dyraniad manwerthu yng nghanol tref Castell-nedd (R1/1).

7.2.2 Roedd pob un o'r tri chais felly yn unol â'r hierarchaeth fanwerthu a fframwaith polisi, ac felly nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosydd 58: Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd.

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Tabl 7.2.3 Polisi Strategol SP12 - Manwerthu

Cynigion manwerthu ar raddfa fach (Gweler hefyd Bolisiau SP2, R3)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd.
Targed y Polisi	Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir.
Pwynt Sbarduno	Ni chaniateir cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir am 2 flwyddyn olynol.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

7.2.3 Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â chynigion manwerthu 'ar raddfa fach'. Mae hyn yn dilyn geiriad Polisi Strategol 12 sy'n cael ei weithredu trwy Bolisi manwerthu R3, sy'n pennu trothwyon o arwynebedd llawr gros 100m² yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir a 200m² yn Ardal Strategaeth y Cymoedd. Y trothwyon hyn, felly, sy'n diffinio maint safleoedd 'ar raddfa fach' yn achos y ddwy ardal.

7.2.4 Fel y nodwyd uchod, cafwyd tri chais ar gyfer cynigion manwerthu yn ystod y cyfnod monitro, ond nid oedd yr un o'r rhain yn ffitio i'r diffiniad uchod o raddfa fach. Mae hwn yn ostyngiad ers y cyfnod monitro diwethaf (2017/18) pan oedd pedwar cais manwerthu yn bodloni'r diffiniad. Er nad yw hyn yn cyrraedd targed y polisi, nid yw eto wedi creu pwynt sbarduno, gan nad yw wedi cael ei gynnal ers dwy flynedd yn olynol.

7.2.5 Bernir felly nad oes angen camau pellach ar hyn o bryd, a bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

7.3 Polisi Strategol 13 - Twristiaeth

Tabl 7.3.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Gweithredu
59	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
60	Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
61	Datblygu amrywiaeth o lwybrau cerdded a beicio gwell.	Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017	Dim angen camau pellach.

Dangosydd 59: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 7.3.2 Polisi Strategol SP13 - Twristiaeth

Darparu dull hyblyg o ymdrin â chynigion twristiaeth yng nghefn gwlad agored (Gweler hefyd Bolisi TO1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Ni ddylid caniatáu cynigion twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais ar gyfer cynigion twristiaeth sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

7.3.1 Cymeradwywyd pum cais cynllunio cysylltiedig â darparu cyfleusterau twristiaeth newydd yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y ceisiadau'n ymwneud â darparu llety gwyliau i dwristiaid, llety gwely a brecwast, ac ehangu defnydd gwesty sydd eisoes yn bodoli.

7.3.2 Roedd pob un o'r pum cais yn unol â'r fframwaith polisi a bydd yn cefnogi'r sector twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol. O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosydd 60: Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi.

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Tabl 7.3.3 Polisi Strategol SP13 - Twristiaeth

Gwrthsefyll cynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth (Gweler hefyd Bolisi TO2)	
Dangosydd Lleol	Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Dim colli cyfleusterau twristiaeth sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais oedd yn arwain at golli cyfleusterau twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

7.3.3 Ni chymeradwywyd ceisiadau cynllunio o fewn y cyfnod monitro a arweiniodd at golli cyfleusterau twristiaeth. Cyrhaeddwyd y targed polisi hwn, felly.

Dangosydd 61: Datblygu amrywiaeth o lwybrau cerdded a beicio gwell.

7.3.4 Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017 - nid oes angen monitro/gweithredu pellach.

8 Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

8.1 Polisi Strategol 14 - Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu

Tabl 8.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Aseu	Gweithredu
62	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r Arfordir heb ei Ddatblygu, yr Ardaloedd Tirlun Arbennig a'r Lletemau Glas, yn groes i'r fframwaith polisi	The indicators are suggesting that the strategic policy is not being implemented	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu
63	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â'r Tirlun a'r Morlun	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach.

Dangosydd 62: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ardaloedd Arfordir heb ei Ddatblygu, yr Ardaloedd Tirlun Arbennig a'r Lletemau Glas, yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 8.1.2 Polisi Strategol SP14 - Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu

Yr Arfordir sydd heb ei Ddatblygu, Lletemau Glas ac Ardaloedd Tirlun Arbennig (Gweler hefyd Bolisiâu EN1, EN2, EN3)	
Dangosydd Lleol	Niferyceisiadauaganiatawydoddimewni'rardaloeddArfordirhebeiddatblygu,yrArdaloedd Tirlun Arbennig a'r Lletemau Glas, yn groes i'r fframwaithpolisi.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.1.1 Cymeradwywyd cyfanswm o 10 cais ar gyfer datblygiadau perthnasol i'r dangosydd hwn yn ystod y cyfnod monitro. Roedd yr holl gynigion wedi'u lleoli mewn Ardaloedd Tirlun Arbennig (ATA) (Polisi EN2), ac roedd un hefyd mewn Lletem Las (Polisi EN3). Ni dderbyniwyd ceisiadau am ddatblygiadau oddi mewn i'r arfordir heb ei ddatblygu a ddiffiniwyd.

8.1.2 Roedd pedwar o'r ceisiadau ar gyfer cynigion cysylltiedig ag amaeth neu geffylau, ac roedden nhw ar gyfer adeiladau newydd priodol neu newidiadau i adeiladau y barnwyd eu bod yn dderbyniol o ran y tirlun. Yn yr un modd, barnwyd bod cynllun hydro-drydan

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

bach, cais am atgyweirio cerbydau mewn adeilad sydd eisoes yn bodoli ac un ar gyfer tŷ newydd unigol yn cael effaith fechan o safbwynt amwynder gweledol (er na roddwyd sylw penodol i'r dynodiad ATA ym mhob achos).

8.1.3 Roedd tri o'r ceisiadau yn fwy arwyddocaol. Yn gyntaf, cymeradwywyd cynnig i estyn y gwaith mwyngloddio ym Mhwl Aberpergwm yng Nghwm Nedd. Roedd hyn yn cynnwys darparu arwyneb estynedig ar gyfer safle cadw gwastraff ac ardal liniaru mawn a fyddai fel ei gilydd oddi mewn i ATA Bro Nedd (EN2/3). Yn yr achos hwn, daethpwyd i'r casgliad mai'r prif ystyriaeth oedd sicrhau y byddai'r tirlun yn cael ei adfer i ffurf fwy naturiol ar ôl cwblhau'r gwaith, a bod y cynnig felly yn unol â'r fframwaith polisi.

8.1.4 Roedd yr ail achos yn gynnig ar gyfer dwy garafán ac adeilad amwynder ar badog sy'n rhan o ATA a lletem las. Caniatwyd y datblygiad hwn ar apêl, er i'r arolygydd ddod i'r casgliad y byddai'r datblygiad yn achosi niwed i gymeriad a golwg yr ardal, gan wrthdaro â Pholisi EN2 y CDLI, a byddai'n achos o 'ddatblygiad amhriodol' mewn lletem las, ac o ganlyniad hefyd yn groes i Bolisi CDLI EN3. Caniatwyd y datblygiad hwn ar sail amgylchiadau eithriadol oedd yn gorbwyso'r niwed a achoswyd. Mae'r penderfyniad felly yn gais sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

8.1.5 8.1.5Roedd y trydydd achos yn gais am grŵp o bum tyrbin gwynt i'r dwyrain o Felin-cwrt, i'w lleoli mewn ATA, ond hefyd o fewn ac yn ymyl Ardal Chwilio Strategol (AChS) ar gyfer datblygiadau pŵer gwynt fel y'u diffiniwyd gan TAN8 a'u mireinio gan y CDLI. Yn yr achos hwn, cydnabuwyd y byddai'r datblygiad yn achosi newid i'r ATA (ac o ganlyniad yn groes i Bolisi EN2), ond bod y niwed hwn wedi cael ei orbwyso gan y strategaeth genedlaethol a lleol a pholisïau ynni adnewyddadwy, sy'n arwydd y dylai effeithiau niweidiol o'r fath ar y tirlun gael eu derbyn mewn AChS. Mae'r cais hwn, felly, hefyd yn gais sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

8.1.6 Bydd angen, felly, i Bolisi EN2 gael ei ailasesu fel rhan o adolygiad y CDLI.

Dangosydd 63: Paratoi CCA ar gyfer y Tirlun a'r Morlun.

Tabl 8.1.3 Polisi Strategol SP14 - Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu

Yr Arfordir sydd heb ei Ddatblygu, Lletemau Glas ac Ardaloedd Tirlun Arbennig	
Dangosydd Lleol	Paratoi CCA ar gyfer y Tirlun a'r Morlun.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â'r Tirlun a'r Morlun erbyn Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.1.7 Lluniwyd CCA y Tirlun a'r Morlun yn derfynol yn dilyn ymarferiad ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 1 Mawrth a 12 Ebrill 2018. Wedyn mabwysiadwyd y CCA gan y Cyngor ym mis Mai 2018.

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

8.2 Polisi Strategol 15 - Bioamrywiaeth a Geoamrywiaethy

Tabl 8.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Gweithredu
64	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yngenedlaetholacynrhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaetho bwysigrwyddrhanbarthol, yngroesi'rfframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
65	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach

Dangosydd 64: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 8.2.2 Polisi Strategol SP15 - Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

Amddiffyn safleoedd a ddynodwyd ar lefel genedlaethol a rhyngwladol a safle o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol	
Dangosydd Lleol	Niferyceisiadauaganiatawydarsafleoeddaddynodwyd yngenedlaetholacynrhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Action	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.2.1 Ni dderbyniwyd/chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio oddi mewn i unrhyw safleoedd bioamrywiaeth na geoamrywiaeth a ddynodwyd ar lefel genedlaethol na rhyngwladol yn ystod y cyfnod monitro. Cyrhaeddwyd y targed polisi hwn, felly.

Dangosydd 65: Paratoi CCA sy'n ymwneud â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth.

Tabl 8.2.3 Polisi Strategol SP15 - Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

Amddiffyn safleoedd a ddynodwyd ar lefel genedlaethol a rhyngwladol a safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol	
Dangosydd Lleol	Paratoi CCA sy'n ymwneud â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth.

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

Amddiffyn safleoedd a ddynodwyd ar lefel genedlaethol a rhyngwladol a safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol	
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth erbyn Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.2.2 Lluniwyd y CCA Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yn derfynol yn dilyn ymarferiad ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 1 Mawrth a 12 Ebrill 2018. Wedyn mabwysiadwyd y CCA gan y Cyngor ym mis Mai 2018.

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

8.3 Polisi Strategol 16 - Amddiffyn yr Amgylchedd

Tabl 8.3.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Dangosydd 67: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith.Cyf	Dangosydd	Asesu	Gweithredu
66	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ARhAA, yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
67	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
68	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Llygredd	Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017	Dim angen camau pellach.
69	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dangosydd 66: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA), yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 8.3.2 Polisi Strategol SP16 - Amddiffyn yr Amgylchedd

Amddiffyn yr Amgylchedd (Gweler hefyd Bolisi SP2, EN8)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ARhAA, yn groes i'r fframwaith polisi.
Targed y Polisi	Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.3.1 Cymeradwywyd tri chais sylweddol ar safleoedd oddi mewn i Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) Port Talbot yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y rhain ar gyfer adeiladu annedd ar lain mewnlenwi, adeiladu deg fflat newydd, a throsi lloriau uchaf adeilad yn Heol yr Orsaf i ddarparu 6 fflat.

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

8.3.2 Barnwyd bod pob un o'r tri datblygiad yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi, gan gynnwys Polisi EN8, ac felly nid oes angen cymryd camau pellach mewn perthynas â'r dangosydd hwn.

Dangosydd 67: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith.

Tabl 8.3.3 - Polisi Strategol SP16 - Amddiffyn yr Amgylchedd

Amddiffyn Ardal Ganolog Port Talbot rhag achosion o dorri'r amcanion ansawdd aer (Gweler hefyd Bolisiau SP2, EN9)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu.
Targed y Polisi	Ni ddylid gweld unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladu a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno.
Pwynt Sbarduno	Gwelwyd un achos neu fwy o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladu a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.3.3 Mae'r tri chais sy'n berthnasol ar gyfer dangosydd 66 uchod hefyd yn berthnasol ar gyfer dangosydd 67 (h.y. cynigion yn ARhAA Port Talbot, neu o fewn 500m i'r ffin), er bod un ar gyfer newid defnydd yn unig ac un ar gyfer annedd unigol ar lain bach o dir, lle na fyddai Cynlluniau Rheoli Adeiladwaith yn ofynnol o dan Bolisi EN9 yn unol â'r CCA a fabwysiadwyd ar Lygredd.

8.3.4 Cymeradwywyd y cais oedd yn weddi (i adeiladu 10 fflat newydd) yn destun amod oedd yn galw am gyflwyno a chymeradwyo Cynllun Rheoli Adeiladwaith cyn cychwyn unrhyw waith ar y safle. Nid yw'r cynnig hwn, felly, yn cyfrif fel cais sy'n ddangosydd ar gyfer y pwnc hwn, ac felly ni chafodd unrhw geisiadau eu cyflwyno na'u cymeradwyo mewn perthynas â'r dangosydd hwn.

Dangosydd 68: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Llygredd.

8.3.5 Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017 - nid oes angen monitro/gweithredu pellach.

Dangosydd 69: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig.

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

Tabl 8.3.4 - Polisi Strategol SP16 - Amddiffyn yr Amgylchedd

Ardaloedd Tawel (Gweler hefyd Bolisiau SP2, EN10)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Action	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.3.6 Ni dderbyniwyd ceisiadau o fewn y cyfnod monitro ar gyfer cynigion mewn unrhyw Ardaloedd Tawel, felly nid oedd ceisiadau perthnasol i'r dangosydd hwn.

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

8.4 Polisi Strategol 17- Mwynau

Tabl 8.4.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Gweithredu
70	Hyd a lled yr agregau cynradd a dynnwyd o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN)	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
71	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynol	Nid yw Polisiâu'r CDL yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau.
72	Nid yw nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau yn cydweddu â Pholisi M2	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
73	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dangosydd 70: Hyd a lled yr agregau cynradd a dynnwyd o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).

Tabl 8.4.2 Polisi Strategol SP17 - Mwynau

Cynnal isafswm cyflenwad o agregau ar hyd cyfnod y Cynllun	
Dangosydd Craidd	Hydallyd yragregau cynradd a dynnwyd o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).
Dangosydd Lleol	Cyflenwad tir agregau.
Targed y Polisi	Mae banc tir 10 mlynedd o gerrig wedi'u malu i gael ei gadw ar hyd cyfnod y Cynllun.
Pwynt Sbarduno	Mae banc tir 10 mlynedd o gerrig wedi'u malu i gael ei gadw ar hyd cyfnod y Cynllun.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.4.1 Y diffiniad o fanc tir yw stoc o ganiatâd cynllunio ar gyfer sicrhau a gweithio mwynau. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cwm pas y banc tir o gerrig wedi'u malu wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar yn Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) 2018 (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019).

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

8.4.2 Cyfrifwyd ffigurau'r banc tir yn ôl y dull a nodwyd yn MTAN1 (Agregau) a chan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant y 3 blynedd diwethaf (h.y. ni chaniatwyd ar gyfer y tuedd o ran y galw). Mae'r adroddiad yn nodi bod gan Gastell-nedd Port Talbot ffigur banc tir sy'n fwy na 50 mlynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 3 blynedd (2016-2018)..

8.4.3 Roedd Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2014) yn barnu mai doeth fyddai ystyried cyfartaledd o 10 mlynedd, gan ei fod yn darparu llinell sylfaen fwy dibynadwy na chyfartaledd 3 blynedd. Mae'r adroddiad yn nodi felly bod gan Gastell-nedd Port Talbot ffigur banc tir o 41 mlynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 10 mlynedd (2009-2018).

8.4.4 Mae gofynion y dangosydd hwn wedi'u cyflawni, felly.

Dangosydd 71: Nifer y ceisiadau a ganiatwyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynol.

Tabl 8.4.3 Polisi Strategol SP17 - Mwynau

Diogelu adnoddau a ganfuwyd (Gweler hefyd Bolisi M1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatwyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynol.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatwyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Gweithredu	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.4.5 Mae'r dangosydd hwn yn monitro nifer y ceisiadau a ganiatwyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynol. Mae Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys adnoddau mwynau helaeth, gyda'r Fwrdeistref Sirol gyfan, fwy neu lai, yn gorwedd uwchben adnoddau glo ac agregau. Er gwaethaf y ddarpariaeth helaeth hon mae'n bwysig bod mynediad at waddodion mwynau y gallai fod angen amdanynt yn y dyfodol yn cael ei ddiogelu.

8.4.6 Caniatwyd cyfanswm o 23 cais oddi mewn i ardaloedd diogelu mwynau (Polisi M1) yn ystod y cyfnod monitro. Wrth adolygu'r ceisiadau hyn, gwelwyd bod un caniatâd wedi'i roi i estyn bywyd mwynglawdd a chaniatáu gwaith pellach ar yr wyneb, gan fanteisio ar yr adnodd mwynau. Ym mhob achos arall nid oedd dim o'r cynigion ar raddfa neu mewn lleoliad a fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar weithio'r mwyn yn y dyfodol (h.y. roedd mwyafrif llethol y cynigion wedi'u lleoli mewn adeiladau neu gyfadeiladau oedd eisoes yn bodoli). Fodd bynnag, ym mhob achos roedd adroddiad y swyddogion naill ai'n ddistaw ynghylch mater diogelu neu heb ymdrin yn foddhaol â gofynion y polisi.

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

8.4.7 Er nad oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn, bernir bod angen trafodaeth bellach gyda chydweithwyr yn yr is-adran Rheoli Datblygu er mwyn sicrhau bod y gofynion polisi yn cael eu hystyried yn gyson ym mhob achos yn y broses o wneud penderfyniadau.

Dangosydd 72: Nid yw nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau yn cydweddu â Pholisi M2.

Tabl 8.4.4 Polisi Strategol SP17 - Mwynau

Diogelu adnoddau a nodwyd (Gweler hefyd Bolisi M2)	
Dangosydd Lleol	Nid yw nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau yn cydweddu â Pholisi M2.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.4.8 Mae'r targed a'r pwyntiau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â cheisiadau ar gyfer gweithgaredd ar yr wyneb sy'n gysylltiedig ag echdynnu glo. Ni chaniatawyd ceisiadau yn ystod y cyfnod monitro, felly nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosydd 73: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau.

Tabl 8.4.5 Polisi Strategol SP17 - Mwynau

Datblygiad mewn Parthau Clustogi Mwynau (Gweler hefyd Bolisi M3)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.4.9 Mae'r dangosydd yn ymwneud â nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau (Polisi M3). Mae parthau clustogi wedi'u nodi o amgylch safleoedd mwynau presennol ac arfaethedig, a'u bwriad yw: i) amddiffyn y gwaith mwynau rhag defnyddiau newydd sensitif megis datblygiad preswyl trwy sefydlu pellter gwahanu rhwng y defnyddiau a allai wrthdaro, a ii) sicrhau na fyddai unrhyw ddatblygiad newydd yn peryglu echdynnu'r cronfeydd a ganiateir na gweithrediad y safle yn y dyfodol.

8.4.10 Ni dderbyniwyd ceisiadau o fewn y cyfnod monitro ar gyfer cynigion mewn parth clustogi, felly nid oedd ceisiadau perthnasol i'r dangosydd hwn.

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

8.5 Polisi Strategol 18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbonisel

Tabl 8.5.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Gweithredu
74	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
75	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochrynochrag Asesiad Ynni Adnewyddadwy	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
76	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach.

Dangosydd 74: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel.

Tabl 8.5.2 Polisi Strategol SP18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel

Darparu ar gyfer cyfraniad priodol i gyrraedd targedau cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddadwy (Gweler hefyd Bolisi RE1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel.
Targed y Polisi	Cyrraedd targedau capasiti AChS TAN 8 ac annog, lle bo hynny'n briodol, datblygu pob math ar ynni adnewyddadwy a thechnoleg carbon isel.
Pwynt Sbarduno	Ni chofnodwyd cynnydd yn nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiateir.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.5.1 Cymeradwywyd cyfanswm o dri chais yn y cyfnod monitro ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy neu garbon isel. Roedd y rhain yn ymwneud â micro-osodiad hydro-dryadnol (22KW), fferm wynt fechan oedd yn cynnwys 5 tyrbîn gwynt a gosodiad 'Gwres a Phŵer Cyfunedig' (GPhC) ar gyfer Clwb Iechyd/Campfa.

8.5.2 Yn ystod cyfnod monitro 2017/18 ni chaniatawyd ceisiadau ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy/carbon isel, ac mae'r cynigion uchod felly yn cynyddu nifer y cynlluniau a ganiatawyd. Mae gofynion y dangosydd hwn wedi'u cyflawni, felly.

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

Dangosydd 75: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr ag Aseiad Ynni Adnewyddadwy.

Tabl 8.5.3 Polisi Strategol SP18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel

Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd (Gweler hefyd Bolisi RE2)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr ag Aseiad Ynni Adnewyddadwy.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.5.3 Cymeradwywyd un cais yn ystod y cyfnod monitro, oedd yn cyrraedd y trothwy ym Mholisi RE2 oedd yn golygu bod cyflwyno Aseiad Ynni Adnewyddadwy (AYA) yn ofynnol. Hwn oedd y cais ar gyfer 8 uned fanwerthu ac un uned A1/A3/D2 yng nghanol tref Castell-nedd, gydag Aseiad Ynni Adnewyddadwy i gyd-fynd ag ef. Daeth yr aseiad i'r casglad y byddai darparu arae(au) solar ar gyfer ardal eang y to yn ymarferol bosibl, a nodwyd lleoliadau ar gyfer hynny ar y cynlluniau a gyflwynwyd. Un o'r amodau cymeradwyo yw gweithredu'r cynllun.

8.5.4 Mae gofynion y dangosydd hwn wedi'u cyflawni, felly.

Dangosydd 76: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel.

Tabl 8.5.4 Polisi Strategol SP18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel

Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd CCA	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel erbyn Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.5.5 Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2018 - nid oes angen monitro/gweithredu pellach

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

8.6 Polisi Strategol 19 - Rheoli Gwastraff

Tabl 8.6.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Aseu	Gweithredu
77	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr â Chynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
78	Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
79	Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dangosydd 77: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr â Chynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle.

Tabl 8.6.2 Polisi Strategol SP19 - Rheoli Gwastraff

Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad Newydd (Gweler hefyd Bolisi W3)	
Dangosydd Lleol	Niferyceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr â Chynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle.
Targed y Polisi	Dylai'r holl gynigion datblygu newydd sy'n cael eu cwm pasugandelerau Polisi W3 gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

8.6.1 Yn ystod y cyfnod monitro, cyrhaeddodd un cais (estyniad i'r Ganolfan Gwastraff o'r Cartref ac Ailgylchu, Llansawel) y trothwy oedd yn golygu bod Cynllun Rheoli Gwastraff o'r Safle yn ofynnol (SWMP).

8.6.2 Yn unol â Pholisi W3, roedd SWMP yn cyd-fynd â'r cais, ac yn ymdrin â'r cyfnod adeiladu yn ogystal â'r cyfnod dilynol pan fyddai'r safle wedi'i feddiannu/yn weithredol. Mae gofynion y dangosydd hwn wedi'u cyflawni, felly.

Dangosydd 78: Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth.

Tabl 8.6.3 Polisi Strategol SP19 - Rheoli Gwastraff

Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad Newydd	
Dangosydd Lleol	Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot.
Targed y Polisi	Cynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT (i'w gadarnhau ar lefel ranbartol yn unol â TAN 21).
Pwynt Sbarduno	Pwyntiau sbarduno i gael eu sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.6.3 Mae'r targed a'r pwyntiau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â defnyddiau cysylltiedig â rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth. Ni dderbyniwyd/phenderfynwyd ar geisiadau cysylltiedig â gwastraff yn ystod y cyfnod monitro oedd yn ymwneud â thir cyflogaeth a ddyrannwyd a/neu a ddiogelwyd, ac felly nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosydd 79: Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Tabl 8.6.4 Polisi Strategol SP19 - Rheoli Gwastraff

Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad Newydd	
Dangosydd Lleol	Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot.
Targed y Polisi	Cynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT (i'w gadarnhau ar lefel ranbartol yn unol â TAN 21).
Pwynt Sbarduno	Pwyntiau sbarduno i gael eu sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

8.6.4 Mae'r targed ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â chynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer y gwastraff a gynhyrchir yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 yn galw am gydweithio rhanbarthol er mwyn sefydlu rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau ar gyfer gwaredu ac adennill gwastraff, ac ar gyfer monitro trefniadau ar y cyd ar draws y rhanbarth.

8 . Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

8.6.5 Mae'r cyfleusterau rheoli gwastraff sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cynnwys Canolfan Adennill Deunyddiau ac Ynni (MREC) Twyni Crymlyn, a nifer o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff o'r Cartref, ynghyd â nifer o gyfleusterau eraill sydd mewn dwylo preifat, gan gynnwys Safle Tirlenwi Pwllfawatkin yng Nghwmgors.

8.6.6 O ran y capasiti tirlenwi sy'n weddill, mae'r wybodaeth ddiweddaraf wedi cael ei chyhoeddi yn 'Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (WPMR) 2019' ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r capasiti tirlenwi a ragwelir ar gyfer y rhanbarth yn 11.2 o flynyddoedd. Er bod hyn yn parhau uwchben y trothwyon a gyflwynwyd yn TAN 21, lle gallai fod angen gweithredu er mwyn hwyluso darpariaeth i'r dyfodol, dylid nodi bod y ffigur hwn yn dibynnu ar sawl rhagdybiaeth, megis amgylchiadau unigol cyfleusterau tirlenwi sydd ar waith ar hyn o bryd (e.e. contractau posibl sy'n dod i ben), safleoedd tirlenwi newydd neu weithfeydd triniaeth gweddilliol amgen sy'n dod yn weithredol, a gostyngiad yn union symiau'r gwastraff gweddilliol a gynhyrchwyd.

8.6.7 O ran cyfleusterau trin gwastraff mewn adeiladau, mae'r tir cyflogaeth y manteisir arno yn cael ei fonitro'n benodol gan Ddangosyddion 50, 51, 52 a 56 yn eu tro. Ar sail canlyniadau'r monitro hyd yma, ynghyd â'r rhwydwaith presennol o gyfleusterau sydd eisoes ar waith, bernir bod digon o dir a chyfleusterau ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddelio gyda'r gwastraff sy'n codi.

8.6.8 Ar y sail hon, bernir bod gofynion y dangosydd hwn wedi'u cyflawni. Bydd y dangosyddion economaidd y cyfeiriwyd atynt uchod, ynghyd â datblygiadau cysylltiedig â gwastraff a gyflwynir, yn parhau i gael eu monitro yn ystod y flwyddyn nesaf. Rhoddir sylw arbennig hefyd i'r wybodaeth a'r canllawiau a gyhoeddir yn yr Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff blynyddol (WPMR) ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru.

9 Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy

9.1 Polisi Strategol 20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

Tabl 9.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Ref	Dangosydd	Asesu	Gweithredu
80	Cyflawni Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan; Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy; Ffordd Amazon (Cyfnod 2); Gwelliannau i Gyffordd 43 o'r M4; Ffordd yr Harbwr (FfDdY)	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation, the policy will be subject to a review process
81	Cyflawni'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	No further action required
82	Cwblhau prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman a Thrywydd Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan)	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation, the policy will be subject to a review process
83	Cyflawni cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam	Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Following confirmation, the policy will be subject to a review process
84	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Safonau Parcio	Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017	No further action required

Dangosydd 80: Cyflawni Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan; Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy; Ffordd Amazon (Cyfnod 2); Gwelliannau i Gyffordd 43; a Ffordd yr Harbwr (FfDdY).

Tabl 9.1.2 Polisi Strategol SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

Gwelliannau i'r Rhwydwaith Priffyrdd (Gweler hefyd Bolisi SP2, TR1/1, TR1/2, TR1/3, TR1/4 a TR1/5)	
Dangosydd Lleol	<ol style="list-style-type: none"> 1. Cyflawni Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan. 2. Cyflawni Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy. 3. Cyflawni Ffordd Amazon (Cyfnod 2). 4. Cyflawni'r Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4). 5. Cyflawni Ffordd yr Harbwr (FfDdY).
Targed y Polisi	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan yn cael ei chyflawni erbyn dechrau 2015. 2. Cyflawni Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn unol â thelerau'r cytundeb A106. 3. Cyflawni Ffordd Amazon (Cyfnod 2) erbyn 2014. 4. Cyflawni Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4) yn unol â thelerau'r Cytundeb A106. 5. Cyflawni Ffordd yr Harbwr (FfDdY) erbyn 2014.
Pwynt Sbarduno	<ol style="list-style-type: none"> 1. WEDI'IGWBLHAU. 2. Nid yw Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy wedi'i chwblhau cyn i uned 501 gaeleiddi meddiannu neu erbyn mis Gorffennaf 2017, p'un bynnag ddawgyntaf. 3. Ni chyflawnir y gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4) yn unol â thelerau'r cytundeb A106 (yn cael ei adeiladu yn 2015).

9 . Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy

Gwelliannau i'r Rhwydwaith Priffyrdd (Gweler hefyd Bolisi SP2, TR1/1, TR1/2, TR1/3, TR1/4 a TR1/5)	
	4. WEDI'IGWBLHAU. 5. WEDI'I GWBLHAU.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

9.1.1 Mae'r tri chynllun canlynol wedi'u cwblhau: Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan (cwblhawyd yn 2015); Ffordd Amazon (Cyfnod 2) (cwblhawyd yn 2013); a Ffordd yr Harbwr (FfDdY) (cwblhawyd yn 2014).

9.1.2 Gan fod Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy (SAR) heb ei chwblhau eto, mae hynny'n sbardun ar gyfer y dangosydd hwn. Mae trafodaethau'n parhau rhwng y Cyngor a St Modwen Developments Ltd (SMDL) i asesu cadernid y Cytundeb Cyfreithiol A106 o ran cefnogi datbygiad preswyl pellach yn rhan ogleddol y safle, lle mae cyfnod cychwynnol y datblygiad preswyl wedi cychwyn, a'i allu i ganiatáu ar gyfer cychwyn ail haen o ddatblygiad yn yr ardal ddeheuol.

9.1.3 Er bod hynny heb ei gadarnhau'n ffurfiol eto, llwyddwyd i gyrraedd cytundeb mewn egwyddor rhwng y Cyngor ac SMDL i ymgorffori sbardun diwygiedig ar gyfer darparu'r SAR. Bydd y diwygio yn caniatáu datblygu dwy agwedd ar Coed Darcy, gan alluogi cynnydd o ran darparu unedau preswyl i'w meddiannu.

9.1.4 Mae'r cytundeb A106 presennol hefyd yn galw am gyfres o welliannau i Gyffordd 43 o'r M4, a'r ffordd sy'n cysylltu'r cynllun â'r gyffordd, a adwaenir fel y Ffordd Fynediad Ogleddol. Mae gwaith eisoes wedi'i gwblhau o ran cyfnodau cychwynnol y gwaith gwella.

9.1.5 Cytunwyd mewn egwyddor hefyd rhwng y Cyngor ac SMDL i ymgorffori amserlenni diwygiedig ar gyfer cwblhau'r gwaith ar Gyffordd 43 yn raddol. Yn syml, bydd y newidiadau'n addasu'r cyfnodau o gyflwyno'r gwaith er mwyn cynyddu'r capasiti posibl o ran traffig ychwanegol o'r safle i Gyffordd 43 yn gynharach, fel bod modd adeiladu nifer mwy o anheddau preswyl cyn adeiladu'r ddolen briffordd strategol sy'n cysylltu Gyffordd 43 â'r A483 (Ffordd Fabian), ar hyd y Ffordd Fynediad Ddeheuol (gweler uchod) - h.y. bydd cyfran uwch o'r traffig yn cael ei gyfeirio i mewn ac allan o'r safle o'r gogledd yn y tymor byrrach, a bydd cyfnodau'r gwaith i wella'r briffordd yn cael eu hailbroffilio i ddarparu ar gyfer hynny.

9.1.6 9.1.6 Bydd cyflawni Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy (Polisi TR1/2) a'r Gwelliannau i Gyffordd 43 o'r M4 (Polisi TR1/4), felly, yn cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 81: Cyflawni'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot.

Tabl 9.1.3 Polisi Strategol SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

Gwelliannau i'r Orsaf Cludiant Cyhoeddus (Gweler hefyd Bolisi SP2 TR1/6)	
Dangosydd Lleol	Cyflawni'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot.
Targed y Polisi	Cyflawni'r prosiect erbyn 2018.
Pwynt Sbarduno	Nid yw cynllun y Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig yn cael ei gyflawni erbyn 2018.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

9.1.7 Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2018 - nid oes angen monitro/gweithredu pellach.

Dangosydd 82: Cwblhau prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman a Thrywydd Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan).

Tabl 9.1.4 Polisi Strategol SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

Llwybrau Cerdded a Beicio (Gweler hefyd Bolisi TR1/7 a TR1/8)	
Dangosydd Lleol	<ol style="list-style-type: none"> Cwblhau prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman. Cwblhau Trywydd Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan).
Targed y Polisi	<ol style="list-style-type: none"> Mae prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014. Mae Trywydd Cwm Afan (o Bort Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013.
Pwynt Sbarduno	<ol style="list-style-type: none"> RHAN WEDI'IGWBLHAU. WEDI'IGWBLHAU.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

9.1.8 Cwblhawyd Trywydd Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan) yn 2013.

9 . Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy

9.1.9 Mae'r gwaith o ddylunio ac adeiladu Llwybr Beicio Dyffryn Aman wedi cael ei wneud ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Caerfyrddin, a hynny'n raddol dros nifer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd, mae pum rhan o'r gwaith wedi'u cwblhau, ac mae'r ddau gyfnod olaf naill ai ar waith neu'n destun trafodaeth gyda thirfeddianwyr.

9.1.10 Mae adran 'Golchfa'r Efail', yn ymyl y ffin weinyddol ym Mrynaman, wedi'i chwblhau'n rhannol drwy adeiladu pont newydd dros yr afon. Er mwyn cwblhau'r adran hon bydd angen adeiladu rhan fer o'r llwybr beicio o'r bont i briffordd yr A4069, Heol yr Orsaf, ac mae trafodaethau gyda pherchennog y tir yn parhau. Gwnaed cynnydd hefyd o ran adran 'Cwmllynfell i Gwmtwrch', gan fod y dyluniad rhagarweiniol yn ei le, a hefyd y trafodaethau cychwynnol gyda thirfeddianwyr.

9.1.11 Fodd bynnag, gan fod Llwybr Beicio Dyffryn Aman heb ei gwblhau eto, mae hynny'n sbardun ar gyfer y dangosydd hwn. Bydd darparu Llwybr Beicio Dyffryn Aman (Polisi TR1/7) felly yn cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 83: Cyflawni cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam.

Tabl 9.1.5 Polisi Strategol SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

Safleoedd Parcio a Rhannu (Gweler hefyd Bolisiâu SP2 a TR1/9)	
Dangosydd Lleol	Cyflawni cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam.
Targed y Polisi	Cyflawni'r prosiect erbyn 2020.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam yn cael ei gyflawni erbyn 2020.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

9.1.12 Er na chyrrhaeddwyd dyddiad sbarduno 2020 eto, o ystyried y diffyg cynnydd hyd yma ar y cynllun penodol hwn, bernir ei fod yn annhebygol y bydd y cyfleuster yn cael ei gyflawni'n unol â'r fframwaith monitro.

9.1.13 Mae gweithrediad a swyddogaeth effeithiol safle/cynllun parcio a rhannu yn bwysig ar gyfer twf Castell-nedd Port Talbot yn y dyfodol, ac o ganlyniad, bydd darparu'r safle yng Nghyffordd 38, yr M4, Margam, yn cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI.

Dangosydd 84: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Safonau Parcio.

9.1.14 Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017 - nid oes angen monitro/gweithredu pellach.

10 Parchu Unigrywiaeth

10.1 Polisi Strategol 21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol

Tabl 10.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Gweithredu
85	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar adeiladau a nodweddion o bwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
86	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd Hanesyddol	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
87	Niferyceisiadauaganiatawydoddimeewn iArdaloeddCadwraethasafleoedderailldynodedig	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dangosydd 85: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar nodweddion o bwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol.

Tabl 10.1.2 Polisi Strategol SP21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol

Diogelu Nodweddion o Bwysigrwydd Lleol (Gweler hefyd Bolisi BE2, BE3)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar nodweddion o bwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

10.1.1 Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â Pholisïau BE2 a BE3, sy'n trafod Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol (BE2) a'r Rhwydwaith Camlesi (BE3). Paratowyd rhestr o Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol (BLIs), ond parhaodd ar ffurf drafft yn unig nes iddi gael ei mabwysiadu'n ffurfiol fel rhan o CCA yr Amgylchedd Hanesyddol ym mis Ebrill 2019 (h.y. ar ôl diwedd cyfnod monitro 2018/19 - cyfeirir at Ddangosydd 86 isod). Cymeradwywyd cyfanswm o dri chynnig sy'n effeithio ar BLIs ymgeisiol, heb unrhyw geisiadau sylweddol sy'n effeithio ar unrhyw un o'r camlesi.

10 . Parchu Unigrywiaeth

10.1.2 Mae pob un o'r tri chais yn ymwneud â newidiadau defnydd/trosi adeiladau presennol, gydag un (cynllun yng Ngwesty'r Castell, Castell-nedd) yn cynnwys estyniadau. Ym mhob achos mae'r newidiadau'n cadw'r adeilad heb wneud newidiadau sylweddol i'r wedd allanol sy'n weladwy i'r cyhoedd.

10.1.3 Bernir felly bod yr holl gynigion hyn yn unol â'r fframwaith polisi ac o ganlyniad nid oes cais sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosydd 86: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd Hanesyddol.

Tabl 10.1.3 Polisi Strategol SP21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol

Diogelu Nodweddion o Bwysigrwydd Lleol	
CCA	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd Hanesyddol.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd Hanesyddol erbyn Ebrill 2017.
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

10.1.4 Bu oedi wrth baratoi CCA'r Amgylchedd Hanesyddol er mwyn iddo gael ei lywio gan yr ymgynghoriadau 'Amgylchedd Hanesyddol' sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi arwain at gyflwyno gofynion a chanllawiau manwl ynghylch asedau hanesyddol o ddi-ddordeb lleol arbennig, a llunio rhestrau o asedau o'r fath.

10.1.5 O ganlyniad, ni luniwyd y CCA yn derfynol tan ychydig wedi diwedd cyfnod monitro 2018/19. Fe'i mabwysiadwyd yn llawn ym mis Ebrill 2019 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Cyrhaeddwyd y targed polisi hwn, felly.

Dangosydd 87: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig.

Table 10.1.1 Tabl 10.1.4 Polisi Strategol SP21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol

Amddiffyn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig (Gweler hefyd Bolisi BE1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad sy'n groes i'r fframwaith polisi.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

10.1.6 Cymeradwywyd pum cais mewn Ardaloedd Cadwraeth yn ystod y cyfnod monitro, pob un ohonynt yn gynigion yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Castell-nedd. Roedd tri o'r ceisiadau ar gyfer newid defnydd yn unig, tra bod un (cynllun Gwesty'r Castell y soniwyd amdano o dan ddangosydd 85 uchod) hefyd yn cynnwys estyniadau newydd yn y cefn. Nid oedd yr un o'r cynigion hyn yn cynnwys newidiadau arwyddocaol i wedd allanol weladwy'r adeiladau.

10.1.7 Roedd y pumed cais ar gyfer datblygiad newydd o bum uned fasnachol a 12 fflat yn Heol y Dŵr, Castell-nedd. Nid yw'r adeiladau newydd yn rhan o'r Ardal Gadwraeth, ond mae rhan o safle'r cais sy'n gysylltiedig â'r ffordd fynediad bresennol yn syrthio y tu mewn i ffin yr Ardal Gadwraeth.

10.1.8 10.1.8Barnwyd bod yr holl gynigion yn briodol o ran cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, a'u bod yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi.

10 . Parchu Unigrywiaeth

10.2 Polisi Strategol 22 - Yr Iaith Gymraeg

Tabl 10.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

Cyf	Dangosydd	Asesu	Gweithredu
88	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd gyda Chynllun Gweithredu leithyddol	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau
89	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Datblygiad a'r Iaith Gymraeg	Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach.

Dangosydd 88: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd gyda Chynllun Gweithredu leithyddol.

Tabl 10.2.2 Polisi SP22 - Datblygiad mewn Ardaloedd leithyddol Sensitif

Datblygiad mewn Ardaloedd leithyddol Sensitif (Gweler hefyd Bolisi WL1)	
Dangosydd Lleol	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd gyda Chynllun Gweithredu leithyddol.
Targed y Polisi	Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd leithyddol Sensitif heb ymdrin â materion yr Iaith Gymraeg.
Pwynt Sbarduno	Caniatawyd un cais yn yr Ardaloedd leithyddol Sensitif heb ymdrin â materion yr Iaith Gymraeg.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

10.2.1 Ni dderbyniwyd ceisiadau o fewn y cyfnod monitro a oedd yn sbarduno'r angen am gyflwyno Cynllun Gweithredu leithyddol, felly nid oedd ceisiadau perthnasol i'r dangosydd hwn. Bydd y monitro'n parhau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Dangosydd 89: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Datblygiad a'r Iaith Gymraeg.

Tabl 10.2.3 Polisi Strategol SP22 - Yr Iaith Gymraeg

Datblygiad mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif (Gweler hefyd Bolisi WL1)	
Dangosydd Lleol	Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Datblygiad a'r Iaith Gymraeg.
Targed y Polisi	Paratoi'r CCA ynghylch Datblygiad a'r Iaith Gymraeg erbyn Ebrill 2017
Pwynt Sbarduno	Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017.
Perfformiad	
Cam Gweithredu	Dim angen camau pellach.

Dadansoddiad o'r Canlyniadau

10.2.2 Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2018 - nid oes angen monitro/gweithredu pellach.

10 . Parchu Unigrywiaeth

RHAN 3 -Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

11 Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

11.0.1 Bu'r CDLI yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) oedd yn cynnwys Aseiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel proses ailadroddus ar hyd y cyfnod o baratoi'r cynllun. Ceir manylion pellach yn nogfennau AC y CDLI⁽⁹⁾. Roedd yr AC yn ymgorffori gofynion yr AAS, a dylid cymryd bod pob cyfeiriad at yr AC yn y ddogfen hon yn cynnwys yr AAS. Roedd yr AC yn arfarnu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebygol y cynllun a'i effeithiau tebygol o ran datblygu cynaliadwy.

11.0.2 Strwythurwyd yr AC o amgylch 8 thema, ac roedd yn nodi cyfanswm o 22 o amcanion oddi mewn i'r themâu hynny. Cafodd dangosyddion monitro a thargedau eu drafftio, eu datblygu a'u mireinio ar hyd esblygiad y CDLI a'r AC, ac mae'r Fframwaith Monitro a gyhoeddwyd ar gyfer y CDLI⁽¹⁰⁾ yn ymgorffori dangosyddion monitro sy'n ymwneud ag amcanion dogfennau'r CDLI a'r AC, gan gynnwys nifer sy'n deillio o'r dangosyddion drafft a gyflwynwyd yn nogfennau'r AC.

11.0.3 O ran monitro'r AC, gwnaed rhai newidiadau i'r dangosyddion i sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am amcanion yr AC. Mewn rhai achosion, ymgorfforwyd dangosyddion ychwanegol yn benodol i ymdrin â rhai o amcanion yr AC.

11.0.4 Mae pob amcan AC yn cael ei asesu yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, a chyflwynir y canfyddiadau yn yr adrannau isod. Defnyddiwyd y côd lliwiau canlynol i roi crynodeb cyffredinol o ganfyddiadau pob dangosydd:

	Effeithiau Cyffredinol Gadarnhaol
	Effeithiau Cymysg
	Effeithiau Cyffredinol Negyddol
0	Effaith Niwtral

11.1 Thema 1 yr AC: Newid yn yr Hinsawdd

AC Amcan 1A: Sicrhau bod pob datblygiad yn rhoi sylw i newidiadau tebygol yn y dyfodol yn sgîl newid yn yr hinsawdd (Addasu)

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
5	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1	Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1 os nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15	Ni phenderfynwyd ar geisiadau ar gyfer datblygiadau oddi mewn i barth llifogydd MCD C1 yn groes i ofynion TAN15	

9 <https://www.npt.gov.uk/1777>

10 Tabl 6.2 Cynllun Datblygu Lleol CBS Castell-nedd Port Talbot (Ionawr 2016).

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
6	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2	Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2	Ni phenderfynwyd ar geisiadau ar gyfer datblygiadau oddi mewn i barth llifogydd MCD C2 yn groes i ofynion TAN 15	
62	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r Arfordir heb ei Ddatblygu, yr Ardaloedd Tirlun Arbennig a'r Lletemau Glas, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 13 cais oddi mewn i'r ardaloedd perthnasol dynodedig, ond nidoeddyrun ohonynt yn groes i bolisi'r CDLI	

Dadansoddi

Dangosyddion 5 a 6: Datblygiadau oddi mewn i ardaloedd lle mae perygl llifogydd

11.1.1 Mae risg gynyddol tywydd mwy eithafol a digwyddiadau llifogydd mwy a mwy difrifol yn ddau ganlyniad a ragwelir sy'n debygol o ddeillio o newid yn yr hinsawdd. O ganlyniad, mae'n bwysig y dylai'r broses gynllunio atal cyflwyno datblygiad newydd neu ddefnyddiau bregus pellach i mewn i ardaloedd lle mae perygl llifogydd, oni bai bod modd cyfiawnhau hynny'n llawn yn unol â pholisi cenedlaethol.

11.1.2 Fel y nodwyd yn y tabl uchod, yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, ni chaniatawyd datblygiadau oddi mewn i ardaloedd lle mae perygl llifogydd ond lle maent yn cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol fel y nodwyd yn TAN15. Mae hynny'n golygu bod datblygiad mewn lleoliadau o'r fath wedi'i gyfyngu i gynigion nad ydynt ar gyfer defnyddiau hynod fregus neu sydd mewn ardaloedd a ddatblygwyd eisoes, lle mae amddiffynfeydd digonol yn eu lle yn erbyn llifogydd, ac mae asesiadau llawn o ganlyniadau tebygol llifogydd wedi'u llunio.

11.1.3 Yr asesiad o'r cynllun, felly, yw ei fod yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol mewn perthynas â'r ddau ddangosydd llifogydd.

Dangosydd 62: Datblygiadau mewn ardaloedd a ddynodwyd

11.1.4 Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â chynigion mewn ardaloedd lle mae rheolaeth lymach ar ddatblygiad nag mewn mannau eraill, am resymau tirlun a chynaliadwyedd, gan gynnwys yr angen am sicrhau gwydnwch yn wyneb effeithiau newid yn yr hinsawdd.

11.1.5 Cymeradwywyd deg cais arwyddocaol mewn ardaloedd o'r fath yn ystod y cyfnod monitro (y cyfan ohonynt yn ddatblygiadau oddi mewn i Ardaloedd Tirlun Arbennig, ac un ohonynt yn rhan o Letem Las yn ogystal - gweler Adran 8). Barnwyd bod wyth o'r rhain yn unol â pholisi'r CDLI, ond cymeradwywyd dau yn groes i'r polisi.

11.1.6 Y ddau gais oedd yn groes i'r polisi oedd, yn gyntaf, fferm wynt fechan ger Resolfen, ac yn ail, lleoli dwy garafán ac adeilad amwynder ym Mhen y Bryn. Yn achos y cais am y fferm wynt, roedd yn rhaid pwysu a mesur yr effeithiau ar yr Ardal Tirlun Arbennig

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

yn erbyn effeithiau buddiol y datblygiad. O ran amcanion yr AC, mae hyn yn ymwneud ag amcanion 1A ac 1B ynghylch addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru a barnwyd bod manteision cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn gorbwyso unrhyw effeithiau niweidiol ar y tirlun. Bernir bod hyn yn ganlyniad rhesymol yng nghyswllt agweddau amgylcheddol a chynaliadwy'r cynnig.

11.1.7 Yn achos y datblygiad carafanau, er y byddai lleoli dwy garafán ac adeilad yn cael effaith gymharol fach ar y tirlun ehangach, mae'r cynnig hefyd yn rhan o'r lletem las. Bwriad y dynodiad hwn yw atal ymledu trefol a diogelu cyd-destun ardaloedd adeiledig, gyda'r bwriad, ymhlith pethau eraill, o sicrhau bod datblygiadau'n digwydd mewn mannau cynaliadwy. Er bod hyn ar raddfa fach, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol yng nghyswllt amcan 1A yr AC.

11.1.8 At ei gilydd mewn perthynas â dangosydd 62, asesir felly bod yr effaith ar y CDLI yn gymysg.

AC Amcan 1B: Cyflawni targedau'r llywodraeth ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (Lliniaru)

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Outcome
1	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA)	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i'r ASCA.	O'r 22 cais a ganiatawyd ar gyfer datblygiad preswyl oddi mewn i'r ASCA, roedd 7 ohonynt yn cydymffurfio â'r gofyniad dwysedd yn y CDLI (32% yn cydymffurfio)	
2	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC)	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i'r ASC	O'r 21 cais a ganiatawyd ar gyfer datblygiad preswyl oddi mewn i'r ASC, roedd 5 ohonynt yn cydymffurfio â'r gofyniad dwysedd yn y CDLI (24% yn cydymffurfio)	
3	Swm y tir maes glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI	Ni chollwyd tir maes glas yn groes i'r fframwaith polisi	O'r 26 o geisiadau datblygu a gymeradwywyd ar dir maes glas, roedd 20 ar safleoedd oedd heb eu dyrannu. Roedd modd cyfiawnhau pob un o'r rhain o gymryd i ystyriaeth amgylchiadau penodol pob achos	
4	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi ar safleoedd sydd wedi'u diogelu ar gyfer cludo nwyddau	Ni chymeradwywyd ceisiadau ar unrhyw leoliad a ddiogelwyd ar gyfer nwyddau.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Outcome
75	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr ag Asesiad Ynni Adnewyddadwy	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cyflawnodd 1 cais y gofynion o ran cyflwyno AYA. Rhoddwyd sylw i faterion ynni adnewyddadwy yn yr achos hwn.	
SA1	ôl-troed carbon CNPT (tCO2e y pen)	Gostyngiad blynyddol	10.85 tCO2e y flwyddyn (2011) ⁽¹¹⁾	0
SA2	Defnydd CNPT o Nwy (kWh y pen)	Gostyngiad blynyddol	13,039 kWh y flwyddyn (2013) ⁽¹²⁾	0
SA3	Defnydd CNPT o Drydan (kWh y pen)	Gostyngiad blynyddol	3,368 kWh y flwyddyn (2013) ⁽¹³⁾	0

Dadansoddi

Dangosyddion 1 a 2: Dwysedd preswyl

11.1.9 Mae datblygiad dwysedd uwch yn awgrymu defnydd mwy effeithlon o adnodd derfynadwy (tir) ac esblygiad aneddiadau mwy effeithlon a chynaliadwy yn gyffredinol, gyda photensial i ddarparu mwy o gyfleusterau lleol a mynediad iddynt. O ganlyniad, dylai hyn arwain at leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â'r amcan.

11.1.10 Er bod targedau monitro'r CDLI ar gyfer y dangosyddion hyn yn ymwneud â datblygiadau ar safleoedd a ddyrannwyd ⁽¹⁴⁾, yn achos yr AC asesir y dwysedd a gyflawnwyd ar bob safle preswyl. Cyflwynir y dwysedd cyffredinol a gyflawnwyd ar bob safle preswyl yn y tabl uchod, wedi'i rannu yn ôl Ardaloedd Strategaeth y CDLI. Cyflawnwyd y gofyniad dwysedd mewn 17% o achosion yn Ardal Strategol Coridor yr Arfordir ac 16% o achosion yn Ardal Strategol y Cymoedd. Mae'r canlyniadau hyn ar gyfer y ddwy Ardal Strategaeth yn arwydd o lefel is o gydymffurfio â'r gofyniad polisi nag a gyflawnwyd yn 2017/18, oedd ei hun yn is nag yn 2016/17.

11.1.11 O ran y goblygiadau i amcan yr AC, mae'r ffigurau a gyflawnwyd yn dangos diffyg sylweddol yn y dwyseddau preswyl o'u cymharu â'r hyn sy'n ofynnol yn y polisi. Fel y nodwyd yn Adran 4.1, bydd y polisi dwysedd yn cael ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLI, a bydd y broses hon yn cael ei llywio gan broses ailadroddus o asesu cynaliadwyedd er mwyn gwerthuso'n llawn ei effeithiau ac effeithiau cymharol datblygiad dwysedd uchel, o gymharu â dwysedd is, gyda'r nod o sicrhau bod y CDLI yn cyflawni datblygiadau sydd mor gynaliadwy â phosibl, ac yn cyflawni amcanion yr AC.

11 [Ecological and Carbon Footprints of Wales Update to 2011 \(Stockholm Environment Institute and GHD\) \(July 2015\)](#)

12 [Energy generation and consumption for Wales, 2013 \(SB/11/2015 Statistics for Wales\)](#)

13 [Energy generation and consumption for Wales, 2013 \(SB/11/2015 Statistics for Wales\)](#)

14 Dadansoddir y canlyniadau mewn perthynas â'r targedau hyn yn Adran 4.1.

Dangosydd 3: Datblygiad ar dir maes glas

11.1.12 O siarad yn gyffredinol, mae datblygu tir 'maes glas' (h.y. tir sydd heb ei ddatblygu'n flaenorol) yn llai cynaliadwy nag aildefnyddio safleoedd tir llwyd, yn arbennig o ran defnyddio adnoddau sy'n darford a cholli mannau mwy naturiol ac amrywiol. Mae rôl bwysig i safleoedd o'r fath yn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy gymedroli tymheredd ac amsugno carbon ymhlith ffactorau eraill.

11.1.13 Cyflwynir cwmpas y datblygiad ar safleoedd maes glas yn ystod y cyfnod monitro yn y tabl uchod, a rhoddir mwy o fanylion yn Adran 4. Lle datblygwyd tir maes glas, digwyddodd hynny naill ai'n unol â dyraniadau'r CDLI neu'n unol â'r fframwaith polisi cenedaethol a lleol. Bu rhywfaint o ostyngiad yn nifer y ceisiadau a gymeradwywyd ar safleoedd maes glas ers 2017/18 ac o bwyso a mesur, bernir bod y dangosydd hwn yn bodloni'r gofynion targed ac yn cyfrannu at leiafu allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Dangosydd 4: Datblygiad ar gyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd

11.1.14 Mae cyfleusterau nwyddau presennol yn cael eu diogelu gan y CDLI er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw at ddefnydd yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol. Dylai'r cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli barhau ar gael, felly, yn hytrach na chael eu lleihau, gan arwain yn aml at ddefnyddio dewisiadau amgen llai cynaliadwy (fel arfer trafndiaeth ar y ffordd). O ganlyniad, at ei gilydd dylai'r polisi gyfrannu at leiafu'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir, yn unol â'r amcan. Ni chymeradwywyd dim cynigion yn groes i bolisi'r CDLI mewn perthynas â chyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd.

Dangosydd 75: Ceisiadau y cyflwynwyd Asesiad Ynni Adnewyddadwy gyda hwy

11.1.15 Mae Polisi RE2 yn y CDLI yn gofyn bod datblygiadau uwchlaw trothwyon maint penodedig yn cyflwyno Asesiad Ynni Adnewyddadwy, a bod canfyddiadau'r asesiad yn cael eu gweithredu lle bo hynny'n ddichonadwy. Mae'r ddarpariaeth hon yn golygu bod gosod a/neu ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy neu garbon isel yn ofyniad lle bo hynny'n briodol, a bod manteision yn sgîl hynny o ran lleihau'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir, yn unol â'r amcan hwn.

11.1.16 Gweithredwyd y polisi yng nghyswllt yr un achos oedd yn cyrraedd y trothwy perthnasol. Roedd hyn yn ostyngiad o ran darpariaeth ers 2017/18 ac o ganlyniad ni fu'n rhaid i'r mwyafrif o ddatblygiadau gynnig unrhyw ddarpariaeth ynni adnewyddadwy. Asesir y dangosydd hwn, felly, fel un sydd ag effeithiau cymysg yn ystod y cyfnod monitro hwn, ac argymhellir y dylid ailasesu'r polisi fel rhan o adolygiad y CDLI er mwyn canfod a fyddai'n briodol newid y trothwyon polisi er mwyn cyflawni amcanion yr AC yn well.

Dangosydd SA1: Ôl-troed carbon CNPT

11.1.17 Mae'r ôl-troed carbon yn disgrifio swm ffisegol y nwyon tŷ gwydr a allyrir i'r atmosffer, ac mae'r ffigur a ddyfynnir yn cyfeirio at yr allyriadau nwyon tŷ gwydr y pen yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2011. Mae'r ffigur yn cynnwys pob un o'r chwe nwy ty gwydr sy'n cael sylw ym Mhrotocol Kyoto⁽¹⁵⁾ wedi'u mynegi ar ffurf sy'n cyfateb i dunelli o garbon

15 Carbon deuocsid (CO₂), methan (CH₄), ocsid nitraidd (N₂O), hydrofflorogarbonau (HFC), perfflorogarbonau (PFC) a sylffwr hecsafflorid (SF₆).

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

deuocsid (tCO₂e). Mae'r ffigur yn cynnwys allyriadau uniongyrchol o ffynonellau a leolir yng Nghymru, yn ogystal ag mewn cadwyni cyflenwi rhyngwladol. Mae ffigur Castell-nedd Port Talbot yn is na Chyfartaledd Cymru, sef 11.11 tCO₂e.

11.1.18 Y ffigur ôl-troed carbon a ddyfynnir yw'r diweddaraf sydd ar gael, ac nid yw wedi cael ei ddiweddarau ers y cyfnod monitro diwethaf. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn waelodlin y gellir cymharu ffigurau'r dyfodol ag ef.

Dangosyddion SA2 ac SA3: Defnydd CNPT o nwy a thrydan

11.1.19 Mae'r defnydd o nwy a thrydan y pen yn rhoi dau fesur pellach o effeithiau poblogaeth Castell-nedd Port Talbot ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae ffigur defnydd nwy Castell-nedd Port Talbot yn agos iawn at ffigur cyfartalog Cymru, sef 13,029 kWh, tra bod y trydan o dan ffigur cyfartalog Cymru, sef 13,736 kWh

11.1.20 Fel yn achos dangosydd SA1, y ffigurau a ddyfynnir yw'r diweddaraf sydd ar gael, ac maent yn ffigur gwaelodlin y gellir cymharu ffigurau'r dyfodol ag ef.

AC Amcan 1C: Gwneud cyfraniad priodol yr ardal i gynhyrchu ynni cenedlaethol (Lliniaru)

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
74	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel	Cyrraedd targedau capasiti AChS TAN 8 ac annog, lle bo hynny'n briodol, datblygu pob math ar ynni adnewyddadwy a thechnoleg carbon isel	Cymeradwywyd tri datblygiad ynni adnewyddadwy neu garbon isel yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn gynydd o gymharu â 2017/18, pan na chymeradwywyd dim.	
75	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr ag Aseiad Ynni Adnewyddadwy	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cyflawnodd 1 cais y gofynion o ran cyflwyno AYA. Rhoddwyd sylw i faterion ynni adnewyddadwy yn yr achos hwn.	

Dadansoddi

Dangosydd 74: Nifer y ceisiadau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel

11.1.21 Cymeradwywyd cyfanswm o dri chais yn y cyfnod monitro ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy neu garbon isel. Roedd y rhain yn gysylltiedig â micro-osodiad hydro-drydan (22KW), fferm wynt fechan gyda 5 tyrbîn gwynt (cyfanswm o 18 MW) a Gosodiad 'Gwres a Phŵer Cyfunedig' (GPhC) ar gyfer Clwb Iechyd/Campfa (0.15MW).

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

11.1.22 Mae hyn yn gynnydd arwyddocaol ers cyfnod monitro 2017/18, pryd na chaniatawyd unrhyw geisiadau. Er bod dau o'r ceisiadau yn ymwneud â gosodiadau cymharol fach i ddarparu pŵer ar gyfer defnyddiau cyfagos, mae'r tri chynnyg yn cael effaith gadarnhaol o ran amcan yr AC.

Dangosydd 75: Ceisiadau y cyflwynwyd Asesiad Ynni Adnewyddadwy gyda hwy

11.1.23 Cyfeirier at Amcan 1B uchod. Fel yn achos amcan 1B, mae nifer isel yr achosion lle bu angen AYA yn ystod y cyfnodau monitro diwethaf yn awgrymu nad yw polisi'r CDLI yn cael yr effaith gadarnhaol a ragwelwyd yng nghyswllt amcan 1C yr AC ac felly asesir bod y dangosydd yn cael effeithiau cymysg yn ystod y cyfnod monitro hwn.

11.1.24 Argymhellir, felly, y dylid ailasesu Polisi RE2 y CDLI fel rhan o adolygu'r CDLI er mwyn canfod a fyddai'n briodol newid y trothwyon polisi er mwyn cyflawni amcanion yr AC yn well.

11.2 Thema 2 yr AC: Adnoddau Naturiol a Gwastraff

AC Amcan 2A: Lleiafu'r colli neu'r diraddio ar adnoddau naturiol, ochr yn ochr â sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy'n unig

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
1	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA)	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i'r ASCA.	O'r 23 cais a ganiatawyd ar gyfer datblygiad preswyl oddi mewn i'r ASCA, roedd 4 ohonynt yn cydymffurfio â'r gofyniad dwysedd yn y CDLI (17% yn cydymffurfio)	
2	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC)	Dylid cyflawnidwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i'r ASCA.	O'r 19 cais a ganiatawyd ar gyfer datblygiad preswyl oddi mewn i'r ASC, roedd 3 ohonynt yn cydymffurfio â'r gofyniad dwysedd yn y CDLI (16% yn cydymffurfio)	
3	Swm y tir maes glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI	Ni chollwyd tir maes glas yn groes i'r fframwaith polisi	O'r 23 o geisiadau datblygu a gymeradwywyd ar dir maes glas, roedd 15 ar safleoedd oedd heb eu dyrannu. Roedd modd cyfiawnhau pob un o'r rhain o gymryd i ystyriaeth amgylchiadau penodol pob achos.	
11	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau	Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 25 o geisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau, ond nid oedd yr un ohonynt yn groes i'r polisi	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
12	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae isadeiledd newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr	Bydd datblygiad newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny'n briodol	Er bod nifer o geisiadau wedi arwain at sicrhau seilwaith newydd neu well, nid oes dim ohonynt wedi sicrhau gwelliannau penodol i adnoddau naturiol trwy gyfraniadau datblygwyr.	0
62	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r Arfordir heb ei Ddatblygu, yr Ardaloedd Tirlun Arbenniga'rLletemauGlas, yngroesi'rfframwaithpolisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 10 cais oddi mewn i'r ardaloedd dynodedig perthnasol. Roedd dau o'r rhain yn groes i'r polisi, un o ran lletem las a pholisi'r ATA ac un o ran polisi Lletem Las yn unig.	
64	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau oddi mewn i'r safleoedd dynodedig	
66	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ARhAA, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd	Cymeradwywyd 3 gais o fewn yrARhAA,ondroeddyddauyn cydymffurfio â'r fframwaithpolisi	
70	<i>Dangosydd Craidd:</i> Hyd a lled yr agregau cynradd a dynnwyd o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN) <i>Dangosydd Lleol:</i> Cyflenwad tir agregau	Mae banc tir 10 mlynedd o gerrig wedi'u malu i gael ei gadw ar hyd cyfnod y Cynllun	Mae gan Gastell-nedd Port Talbot ffigur banc tir sy'n fwy na 50 mlynedd ar sail cyfartaledd gwerthiant 3-blwyddyn (2016-2018) a 41 mlynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 10-blwyddyn (2009-2018) (cyfeiriwch at Adran 8.4). Cyflawnwyd gofynion y dangosydd hwn.	
71	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau a fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar weithio unrhyw adnodd mwynau yn y dyfodol	
72	Nid yw nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu agregau mwynau yn cydweddu â Pholisi M2	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chyflwynwyd ceisiadau am echdynnu agregau mwynau yn ystod y cyfnod monitro	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
73	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau oedd yn groes i Bolisi M3	
SA4	Swm y datblygiad ar dir amaethyddol o ansawdd uchel	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chafwyd ceisiadau am ddatblygiad ar dir amaethyddol o ansawdd uchel	

Dadansoddi

11.2.1 Dengys mwyafrif y dangosyddion fod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol yng nghyswllt yr amcan hwn. Fodd bynnag, nodir effeithiau cymysg yng nghyswllt tri dangosydd.

Dangosyddion 1 a 2: Dwysedd datblygiad newydd

11.2.2 Fel sy'n cael ei gwmpasu o dan Amcan 1B yr AC uchod, cyflawnwyd y gofynion dwysedd mewn 17% o achosion yn yr ASCA ac 16% o achosion yn yr ASC, sy'n sicrhau lefel is o gydymffurfiaeth â gofynion y polisi nag a gyflawnwyd yn 2017/18, a oedd ynddo'i hun yn is nag yn 2016/17.

11.2.3 Nodwyd y mater hwn wrth fonitro'r CDLI (gweler Adran 4.1), lle nodwyd y bydd y polisi yn awr yn cael ei ailasesu fel rhan o adolygu'r CDLI. Ochr yn ochr â hynny, argymhellir y dylai effeithiau dwysedd preswyl gael eu hystyried yn fanwl mewn perthynas ag adolygu amcanion yr AC a bod effeithiau dwysedd ar amcanion yr AC yn cael eu hystyried yn llawn mewn unrhyw newidiadau a wneir i bolisi'r CDLI.

Dangosydd 62: Datblygiadau mewn ardaloedd a ddynodwyd

11.2.4 Fel y nodwyd yn Adrannau 8.1 ac 11.1, cymeradwywyd dau gais mewn ardaloedd dynodedig yn groes i'r fframwaith polisi a bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu polisi'r CDLI. Asesir y dangosydd hwn, felly, fel un sydd ag effeithiau cymysg o ran colli/diraddio adnoddau naturiol, a bydd effeithiau'r polisi ar amcanion yr AC hefyd yn cael sylw llawn mewn unrhyw newidiadau a wneir i bolisi'r CDLI.

Amcan 2B yr AC: Cynnal a gwella ansawdd cemegol a biolegol/ecolegol adnoddau naturiol

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
11	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau	Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 25 o geisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau, ond nid oedd yr un ohonynt yn groes i'r polisi	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
64	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau oddi mewn i'r safleoedd dynodedig	
SA5	% y cyrff dŵr â statws dosbarthiad 'da' neu uwch gan CNC	Gwelliant blynyddol o ran statws dosbarthiad	Oddi mewn i Ddalgyrch Rheoli Tawe i Langatwg, mae statws dosbarthiad cyffredinol dda gan 43% o'r cyrff dŵr arwyneb, mae 52% yn gymedrol, ac mae statws 5% yn gyffredinol wael. Nid oes cyrff dŵr sydd â statws cyffredinol uchel neu wael (Dosbarthiad 2015) ⁽¹⁶⁾	0

Dadansoddi

Dangosydd SA5: Statws dosbarthiad cyrff dŵr yn ôl CNC

11.2.5 Mae ffigurau CNC ar gyfer 2015 yn nodi bod gan 43% o'r cyrff dŵr arwyneb yn nalgylch Tawe i Langatwg (sy'n cynnwys rhannau o Ben-y-bont ar Ogwr yn ogystal â Chastell-nedd Port Talbot) statws dosbarthiad da neu uwch. Y ffigurau a ddyfynnwyd yw'r diweddaraf sydd ar gael, ac mae hyn yn creu ffigur gwaelodlin y gellir cymharu gwybodaeth y dyfodol ag ef.

Amcan 2C yr AC: Lleihau gwastraff a lleihau'r symiau o wastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
77	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr â Chynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle (SWMP)	Dylai'r holl gynigion datblygu newydd sy'n cael eu cwmpasu gan delerau Polisi W3 gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle	Roedd un cais yn cyrraedd y trothwy polisi ac fe'i cyflwynwyd ynghyd â SWMP oedd yn rhoi sylw i'r cyfnod adeiladu yn ogystal â meddiant dilynol y safle.	
78	Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth	Sicrhau cyflenwad priodol o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwastraff	Dim ond un cais y penderfynwyd arno yn ystod y cyfnod a gafodd ei fonitro, ond nid oedd hyn yn ymwneud â thir cyflogaeth a ddyrannwyd a/neu a ddiogelwyd.	0

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
79	Swm y tir a'r cyfleusterau ar gyfer darparu ar gyfer gwastraff yn CNPT	Cynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT (i'w gadarnhau ar lefel ranbartol yn unol â TAN 21)	Mae 11.2 blynedd o le gwag ar gyfer tirlenwi ar gael, felly mae digon o dir a chyfleusterau ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddelio gyda deilliannau gwastraff. (Adroddiad Monitro 2019)	
SA6	% Gwastraff a gasglwyd gan yr ALI (LACW) ⁽¹⁷⁾ a aildddefnyddiwyd / ailgylchwyd / gompostiwyd	Cynnydd blynyddol	Cafodd 60.5% o LACW CNPT ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn ystod 2017/18 ⁽¹⁸⁾ . Mae hyn yn ostyngiad bychan o gymharu â'r ffigur ar gyfer 2016/17, yn dilyn cynnydd olynol ers i'r cofnodi gychwyn yn 2006.	

Dadansoddi

11.2.6 Mewn perthynas ag Amcan 2C yr AC, er nad yw'r CDLI yn cael effaith sylfaenol ar faterion gwastraff, mae'r dangosyddion uchod yn awgrymu'n gyffredinol bod polisïau perthnasol y cynllun yn cael effaith gadarnhaol at ei gilydd.

Dangosydd SA6: Canran y Gwastraff a Gesglir yn yr Awdurdod Lleol (LACW) sy'n cael ei aildddefnyddio / ei ailgylchu / ei gompostio

11.2.7 Mae'r ffigurau LACW sydd ar gael yn dangos bod cynnydd cyson wedi bod o ran aildddefnyddio / ailgylchu / compostio gwastraff ers 2006 tan 2016/17, ac mae ffigur 2017/18 yn dangos gostyngiad bychan (i 60.5%). Er gwaethaf y gostyngiad bychan hwn (o 62.8% yn 2016/17), mae bellach yn agos at y targed cyffredinol ar gyfer y rhanbarth, sef 64% ar gyfer 2019/20.

11.3 Thema 3 yr AC: Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

Amcan 3A yr AC: Atal unrhyw golledion net pellach o ran bioamrywiaeth

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
64	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni dderbyniwyd/chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio oddi mewn i unrhyw safleoedd bioamrywiaeth na geoamrywiaeth a ddynodwyd ar lefel genedlaethol	

18 [Waste Planning Monitoring Report \(South West Wales Region 2019\)](#)

17 Gwastraff a Gesglir yn yr Awdurdod Lleol

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
	geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi		na rhyngwladol yn ystod y cyfnod monitro	
SA7	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd SINC a nodwyd, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd dau gais oedd yn cynnwys rhannau o ddynodiadau SINC ar eu safleoedd, un ar gyfer mwynglawdd ac un ar gyfer uned ddiwydiannol. Penderfynwyd y ddau achos yn unol â Pholisi EN6.	
SA8	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n arwain at gollu gweddilliol ⁽¹⁾ yn achos cynefin pwysig neu effaith weddilliol ar ⁽²⁾	Ni chafwyd colledion gweddilliol o ran cynefinoedd neu rywogaethau pwysig	Cafwyd colled gyffredinol o 0.15ha o gynefin SINC (mosaig agored ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol)	

1. Cymryd mesurau lliniaru/gwneud iawn i ystyriath.
2. S7 Cynefinoedd a rhywogaethau, cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP) a nodweddion naturiol pwysig fel y nodwyd ym Mholisi EN7.

Dadansoddi

11.3.1 Mewn perthynas ag Amcan 3A yr AC, mae Dangosyddion 64 ac SA7 yn awgrymu bod y cynllun yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro.

Dangosydd SA8 Ceisiadau'n arwain at golled weddilliol o ran cynefin pwysig neu effaith weddilliol ar rywogaethau pwysig

11.3.2 Ni fu gwybodaeth ynghylch y dangosydd hwn ar gael yn flaenorol, ac eleni yw'r tro cyntaf i ffigurau gael eu cofnodi. Er bod mwyafrif y ceisiadau wedi'u hasesu fel rhai nad ydynt yn arwain at golled weddilliol o ran cynefinoedd neu rywogaethau pwysig, mae'r golled a gofnodwyd yn golygu nad yw'r targed yn cael ei gyrraedd, a bod y cynllun yn cael canlyniadau cymysg yn gyffredinol.

Amcan 3B yr AC: Manteisio ar bob cyfle rhesymol i sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
12	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae isadeiledd newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwr	Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi	Er bod nifer o geisiadau wedi arwain at sicrhau seilwaith newydd neu well, nid oes dim ohonynt wedi sicrhau gwelliannau penodol i adnoddau naturiol trwy gyfraniadau datblygwr.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
SA9	Ardal gynefin S7 /SINC a grewyd ac a sicrhawyd trwy benderfyniadau cynllunio	Cynnydd blynyddol	Ni sicrhawyd unrhyw gynefin ychwanegol	0

Dadansoddi

Dangosydd 12: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae isadeiledd newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr

11.3.3 Rhoddwyd sylw i effeithiau datblygiad newydd ar fioamrywiaeth yn ystod y broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio ym mhob achos lle roedd hynny'n berthnasol. Fodd bynnag, ni sicrhawyd unrhyw gyllid trwy gytundebau A106 i roi sylw i'r effeithiau ar fioamrywiaeth.

Dangosydd SA9: Ardal gynefin S7 /SINC a grewyd ac a sicrhawyd trwy benderfyniadau cynllunio

11.3.4 Ni fu gwybodaeth ynghylch y dangosydd hwn ar gael yn flaenorol, ac eleni yw'r flwyddyn gyntaf y cofnodwyd ffigurau ar ei chyfer. Bydd peidio â chreu unrhyw gynefin S7/SINC, felly, yn creu sefyllfa waelodlin, a bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro.

Amcan 3C yr AC:Lleiafu'r effeithiau niweidiol ar safleoedd geoamrywiaeth dynodedig

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
64	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau oddi mewn i'r safleoedd dynodedig	

Dadansoddi

11.3.5 Mewn perthynas ag Amcan 3C yr AC, mae'r dangosydd perthnasol yn dangos bod y cynllun yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

11.4 Thema 4 yr AC: Tirlun, Treflun a Chymeriad Hanesyddol

Amcan 4A yr AC: Amddiffyn a/neu wella tirlun a threflun yr ardal

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
8	Nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Gwrthodwyd 7 cais sylweddol am resymau oedd yn cynnwys sail dylunio, ac ni chymeradwywyd dim yn groes i'r fframwaith polisi dylunio.	
62	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r Arfordir heb ei Ddatblygu, yr Ardaloedd Tirlun Arbennig a'r Lletemau Glas, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 10 cais oddi mewn i'r ardaloedd perthnasol dynodedig, ac roedd dau ohonynt yn groes i bolisi'r CDLI	
85	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar adeiladau a nodweddion o bwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd tri chais sylweddol sy'n effeithio ar ddarpar BLIs, pob un ohonynt yn unol â'r fframwaith polisi	
87	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Caniatawyd 5 cynnig sylweddol oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth, y cyfan yn unol â'r fframwaith polisi	

Dadansoddi

Dangosydd 62: Datblygiadau mewn ardaloedd a ddynodwyd

11.4.1 Fel y nodwyd yn Adrannau 8.1 ac 11.1, cymeradwywyd dau gais mewn ardaloedd dynodedig yn groes i'r fframwaith polisi a bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygu polisi'r CDLI. Asesir y dangosydd hwn, felly, fel un sy'n cael effeithiau cymysg o ran amddiffyn/gwella'r tirlun, a bydd effeithiau'r polisi ar amcanion yr AC hefyd yn cael sylw llawn mewn unrhyw newidiadau a wneir i bolisi'r CDLI.

11.4.2 Mae'r dangosyddion eraill sy'n berthnasol i'r amcan hwn yn dangos bod polisïau'r CDLI yn cael eu gweithredu ac y dylent fod yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol.

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Amcan 4B yr AC: Amddiffyn a/neu wella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys adnoddau pensaernïol ac archaeolegol

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
85	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar adeiladau a nodweddion o bwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Caniatawyd 6 chynnig sylweddol oedd yn effeithio ar Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol, y cyfan yn unol â'r polisi	
87	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Caniatawyd 8 cynnig sylweddol oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth, y cyfan yn unol â'r fframwaith polisi	

Dadansoddi

11.4.3 Mewn perthynas ag Amcan 4B yr AC, dengys y dangosyddion perthnasol fod Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu, ac y dylent fod yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro.

11.5 Thema 5 yr AC: Llygredd

Amcan 5A yr AC: Cyflawni lefelau derbyniol (bodloni safonau cenedlaethol/Ewropeaidd) o ran ansawdd aer ar draws y Fwrdeistref Sirol

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
66	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA), yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd	Cymeradwywyd 3 gais perthnasol o fewn yr ARhAA, y ddau ohonynt yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi	
67	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu (CMP)	Ni ddylid gweld unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladwaith a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno	Caniatawyd 3 chynnig sylweddol oddi mewn i'r ARhAA. Byddai angen CMP yn achos 1 o'r rhain, ac roedd amod yn ymdrin â hynny.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
81	Cyflawni'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot	Cyflawni'r prosiect erbyn 2018	Cyflawnwyd y Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig ym Mhort Talbot yn unol â'r amserlen (Mawrth 2018).	
83	Cyflawni cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam	Cyflawni'r prosiect erbyn 2020	Heb gychwyn eto. Rhagwelir y bydd yn dal i gael ei gyflawni yn 2020	0
SA10	Achosion o dorri'r Amcanion Ansawdd Aer	Dim achosion o dorri'r Amcanion Ansawdd Aer	Mae'r crynodiadau o hydrocarbonau polyaromatig yn torri amcan y Deyrnas Unedig, ond yn cydymffurfio â tharged yr UE ac mae'r crynodiadau osôn yn uwch na safon y Deyrnas Unedig. Cafwyd achosion hefyd o fynd dros y trothwy ar gyfer crynodiadau Nicel. Cyflawnwyd pob un o'r amcanion eraill	
SA11	Nifer a chwmpas yr ARhAAoedd yn CNPT	Dim cynnydd yn nifer na chwmpas yr ARhAAoedd	Mae 1 ARhAA yn CNPT, yn Nhaibach / Margam, ac ni fu cynnydd ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu	

Dadansoddi

11.5.1 Mewn perthynas ag Amcan 5A yr AC, dengys y dangosyddion perthnasol fod Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu, ac y dylent fod yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro.

Dangosydd SA10: Amcanion ansawdd aer

11.5.2 Mae'r wybodaeth fonitro ar gyfer ansawdd aer yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol ac yn ymwneud â'r flwyddyn galendr flaenorol⁽¹⁹⁾. Roedd AMB 2017, felly, yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer 2016 ac yn darparu sefyllfa waelodlin y gall canlyniadau'r dyfodol gael eu cymharu â hi. Yn 2016, ar draws y rhan fwyaf o'r Fwrdeistref Sirol, cyflawnwyd yr amcanion ansawdd aer ar gyfer pob math o lygredd aer oedd yn cael eu monitro, ac eithrio lefelau osôn a chrynodiadau hydrocarbonau polyaromatig oedd yn torri amcan y Deyrnas Unedig ond yn cydymffurfio â tharged yr UE, a'r crynodiadau nicel oedd yn torri targed yr UE mewn dau leoliad.

11.5.3 Yn 2017, cyflawnwyd yr amcanion eto yn achos pob math o lygredd aer, a'r unig eithriadau bellach oedd lefelau osôn a chrynodiadau hydrocarbonau polyaromatig a oedd eto yn torri amcan y Deyrnas Unedig ond yn cydymffurfio â tharged yr UE. Fodd bynnag, yn 2017 gwyrddrowyd y duedd a welwyd yn gynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda gostyngiad o ryw 30% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar ben hynny, yn 2017 roedd y crynodiadau nicel yn cydymffurfio â thargedau'r UE ym mhob lleoliad ar ôl cael eu torri mewn dau leoliad yn 2016. Bu gwelliannau, felly, mewn perthynas â'r amcan hwn yn 2017.

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

11.5.4 Roedd 2018 yn flwyddyn gymharol wael o safbwynt llygredd osôn, gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf ers 2011 pan aeth dros werth targed yr UE. Fodd bynnag, tuag i lawr mae'r tueddiad hirdymor. Oherwydd y gall llygredd trawsffiniol gael effaith sylweddol ar ganlyniadau lleol, nid yw osôn yn cael ei gwmpasu gan Rheoli Ansawdd Aer Lleol (RhAALI) a hefyd ni ellir asesu effeithiau polisi'r CDLI yn llawn.

11.5.5 Mae crynodiad yr hydrocarbonau polyaromatig ym Mhort Talbot yn dal yn uwch na'r Amcan Ansawdd Aer, sef 0.25 ng/m³, ond nid yw erioed wedi mynd yn uwch na gwerth targed yr UE, sef 1 ng/m³. Roedd crynodiad blynyddol cyfartalog 2018, 0.69 ng/m³, fymryn yn uwch na'r hyn a fesurwyd yn y flwyddyn flaenorol.

11.5.6 Roedd y crynodiadau nicel yn uwch na tharged yr UE, sef 20 ng/m³ yn Nheras Tawe a Chanolfan Hamdden Pontardawe. Bernir bod yr achosion hyn o ddiffyg cydymffurfio yn gysylltiedig â phroblemau gyda pheiriannau lliniaru penodol yng ngwaith Wall Colmonoy, a ddatryswyd wedi hynny.

Dangosydd SA11: Nifer a chwmpas yr ARhAAoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot

11.5.7 Cyhoeddwyd ARhAA Taibach / Margam gan y Cyngor yn 2000 mewn perthynas â phryderon ynghylch PM10 (mân ronynnau). Mae'r ARhAA yn dal mewn grym ar hyn o bryd ac er nad yw cwmpas yr ardal wedi newid, ni chyhoeddwyd ARhAA ychwanegol ychwaith.

Amcan 5B yr AC:: Cyflawni lefelau sŵn derbyniol ac amddiffyn ardaloedd tawel ar draws y Fwrdeistref

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
69	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig	Ni chaniateir ceisiadau sy'ngroesi'rfframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau mewn unrhyw Ardal Dawel.	
SA12	Nifer a chwmpas dynodiadau'r Ardal Flaenoriaeth Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn (NAPPA) yn CNPT	Dim cynnydd yn nifer na chwmpas y NAPPA	Mae 11 NAPPA ar gyfer ffyrdd a 3 ar gyfer rheilffyrdd yn CNPT	

Dadansoddi

11.5.8 Mewn perthynas ag Amcan 5B yr AC, dengys y dangosyddion perthnasol fod Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu, ac y dylent fod yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro

Dangosydd SA12: Nifer a chwmpas y dynodiadau Ardal Flaenoriaeth

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

11.5.9 Mae Ardaloedd Blaenoriaeth wedi'u dynodi gan Lywodraeth Cymru o dan Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol Ewrop, ac maent yn ardaloedd a nodwyd ar sail nifer yr eiddo yr effeithir arnynt gan lefelau sylweddol o sŵn yn yr amgylchedd⁽²⁰⁾. Mae'r wybodaeth a roddir uchod yn ymwneud â Chynllun Gweithredu newydd Sŵn a Sainlun 2018-2023.

11.6 Thema 6 yr AC: Cydlyniant Cymunedol

Amcan 6A yr AC: Gwella cydlyniant cymdeithasol a lleihau'r achosion o eithrio cymdeithasol drwy ymdrin ag achosion eithrio cymdeithasol

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
7	Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol	Ni chaniateir colli cyfleusterau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chafwyd colledion sylweddol o ran cyfleusterau cymunedol na mannau agored o ganlyniad i geisiadau cynllunio a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro.	
10	Swm y datblygiad manwerthu, swyddfa a hamdden pwysig a ganiateir yng nghanol y dref ac mewn canolfannau y tu allan i'r dref	Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd un cynnig pwysig oedd yn berthnasol i'r dangosydd hwn. Roedd yng nghanol tref Castell-nedd ac yn unol â pholisi'r CDLI	
11	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau	Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 25 o geisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau, ond nid oedd yr un ohonynt yn groes i'r polisi	
14	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 5,690 o unedau tai newydd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir dros gyfnod y Cynllun Targedau Blynyddol: 2011/12: 152 2012/13: 134 2013/14: 216 2014/15: 268 2015/16: 318 2016/17: 379 2017/18: 495 2018/19: 553 2019/20: 518	Mae'r ddarpariaeth dyraniadau H1 ar hyd Coridor yr Arfordir wedi syrthio o dan y targedau (gweler adran 5.1 uchod). Bydd ymchwil ac ymchwilio pellach yn digwydd i ganfod cyfraddau tebygol yn y dyfodol, ond rhagwelir y gallai'r cyflenwad tai gynyddu yn ystod	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		2020/21: 513 2021/22: 502 2022/23: 468 2023/24: 412 2024/25: 387 2025/26: 375	y blynyddoedd sydd i ddod. Gallai unrhyw ostyngiad estynedig sylweddol wrth gyflwyno tai newydd gael effeithiau negyddol ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol.	
29	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan	Cyflawni datblygiad twristiaeth / adloniant yn Lido Afan erbyn 2020	Mae disgwyl i'r datblygiad gychwyn yn 2020/21. Mae cyflogaeth leol ychwanegol yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar y gymuned bresennol yn Sandfields.	
31	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 1,435 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun Targedau Blynyddol: 2011/12: 61 2012/13: 108 2013/14: 44 2014/15: 60 2015/16: 90 2016/17: 112 2017/18: 92 2018/19: 75 2019/20: 122 2020/21: 125 2021/22: 117 2022/23: 117 2023/24: 112 2024/25: 126 2025/26: 74	Mae cyflwyno'r dyraniadau H1 yn ardal strategaeth y cymoedd bellach wedi syrthio o dan y targedau am dair blynedd yn olynol (gweler adran 5.2). Bydd gwaith ymchwil ac ymchwilio pellach yn digwydd i ddeall hyn, er bod rhai ceisiadau sylweddol wedi cael eu cymeradwyo ar safleoedd heb eu dyrannu. Gallai unrhyw ostyngiad sylweddol am gyfnod hir o ran darparu tai newydd gael effeithiau negyddol ar gynhwysiad cymdeithasol	
32	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 664 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun Targedau Blynyddol: 2011/12: 0 2012/13: 46 2013/14: 30 2014/15: 38 2015/16: 65 2016/17: 92 2017/18: 72 2018/19: 50 2019/20: 66 2020/21: 50 2021/22: 40 2022/23: 40	Mae cyflwyno'r dyraniadau H1 yn ardal twf strategol Pontardawe wedi syrthio o dan y targedau am dair blynedd yn olynol (gweler adran 5.2 uchod). Bydd gwaith ymchwil ac ymchwilio pellach yn	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		2023/24: 35 2024/25: 40 2025/26: 0	digwydd i ddeall hyn. Gallai unrhyw ostyngiad sylweddol am gyfnod hir o ran darparu tai newydd gael effeithiau negyddol ar gynhwysiad cymdeithasol	
33	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 264 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun Targedau Blynnyddol: 2011/12: 5 2012/13: 0 2013/14: 9 2014/15: 2 2015/16: 0 2016/17: 0 2017/18: 0 2018/19: 0 2019/20: 21 2020/21: 45 2021/22: 37 2022/23: 37 2023/24: 37 2024/25: 36 2025/26: 35	Cyrhaeddwyd y targedau cyffredinol, ac mae effeithiau cadarnhaol yn debygol trwy gryfhau cymunedau presennol.	
34	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd	Cyflawni 150 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2020/21	Dim datblygiad hyd yma, ond mae'r cynnig yn dal i gadw at y targed.	0
37	Nifer y cynigion bywyd/gwaith a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd/gwaith a ganiateir	Hyd yma, ni chaniatawyd cynigion bywyd/gwaith.	0
38	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola	Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021	Er na chymeradwywyd datblygiad hyd yma, mae'r cynnig yn dal i gadw at y targed, ac mae swyddi twristiaeth newydd yn yr ardal yn debygol o wella cynhwysiad cymdeithasol.	
39	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI	Darperir cyfanswm o 8,760 o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu darparu erbyn 2026 Targedau Blynnyddol: 2011/12: 262 2012/13: 287	Roedd y tai a gwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro yn sylweddol is na'r targed blynnyddol, y drydedd flwyddyn pryd y bu diffyg. Bydd y lefel hon o ddarparu tai newydd yn dal i gael effeithiau cadarnhaol ar yr	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		2013/14: 301 2014/15: 386 2015/16: 486 2016/17: 549 2017/18: 625 2018/19: 686 2019/20: 698 2020/21: 676 2021/22: 647 2022/23: 614 2023/24: 553 2024/25: 542 2025/26: 488	economi leol, ac o ganlyniad ar gynhwysiad cymdeithasol yn gyffredinol, ond mae'n methu â chyrraedd y targedau a'r effeithiau a ragwelwyd.	
41	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI	Cyflawni 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026 Targedau Blynyddol: 2011/12: 7 2012/13: 5 2013/14: 22 2014/15: 37 2015/16: 72 2016/17: 90 2017/18: 115 2018/19: 130 2019/20: 124 2020/21: 120 2021/22: 111 2022/23: 102 2023/24: 90 2024/25: 89 2025/26: 86	Mae darparu Tai Fforddiadwy wedi bod o dan y targed ers tair blynedd, ac ni chyflwynwyd unedau fforddiadwy trwy'r system gynllunio yn ystod y cyfnod monitro, er bod disgwyl i'r gyfradd gyflawni godi (gweler adran 6.2). Mae'r diffyg darpariaeth newydd yn golygu nad yw polisi tai fforddiadwy'r CDLI yn cael effeithiau cadarnhaol ar hyn o bryd yng nghyswllt eithrio cymdeithasol	
46	Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion mannau agored y meddianwyr	Dylai pob datblygiad tai newydd lle ceir 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer man agored lle bo diffyg meintiol yn y ddarpariaeth chwaraeon awyr agored	Ni chyrraeddwyd y targed o ran darpariaeth mannau agored ym mhob achos, er bod amgylchiadau lliniaru (gweler Adran 6.4). Mae diffyg darpariaeth mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd yn debygol o arwain at oblygiadau negyddol o safbwynt cynhwysiad cymdeithasol yn lleol	
47	Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygiad, yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli mannau agored sy'n groes i'r fframwaith polisi	Bu rhai effeithiau ar fannau agored presennol cysylltiedig â 2 gais (Gweler adran 6.4). Fodd bynnag, roedd y colledion yn gyffredinol ar raddfa fach ac yn gyfyngedig, ac mae'r polisi'n cael effaith gadarnhaol at ei gilydd	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
52	Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr	<p>Prif Darged:</p> <p>Darparu ar gyfer enillion net o ryw 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2026</p> <p>Targedau Interim:</p> <p>2011/14: 7,000 sq m 2014/17: 7,000 sq m 2017/20: 7,000 sq m 2020/23: 7,000 sq m 2023/26: 7,000 sq m</p> <p>Targed Blynyddol:</p> <p>Datblygu cyfartaledd o 2,250 m.sg. o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn, gyda tharged cronol o 4,500 m.sg. i'w datblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd</p>	Mae lefel y ddarpariaeth arwynebedd llawr cyflogaeth newydd bellach wedi syrthio o dan y targed am gyfnod o ddwy flynedd yn olynol, sy'n awgrymu effaith negyddol ar argaeledd safleoedd cyflogaeth. Bydd y mater hwn yn awr yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad ehangach y CDLI.	
58	Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir	Ni fu ceisiadau sy'n cyd-fynd â'r diffiniad o ddatblygiad manwerthu graddfa fach yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn ostyngiad ers y llynedd, ac ni fydd yn cael effeithiau cadarnhaol ar gydlyniant cymunedol.	
88	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd gyda Chynllun Gweithredu leithyddol	Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd leithyddol Sensitif heb ymdrin â materion yr Iaith Gymraeg	Ni fu ceisiadau lle roedd angen Cynllun Gweithredu ar gyfer yr iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod monitro.	0

Dadansoddiad

11.6.1 Mae cyfran y dangosyddion a aseswyd fel rhai cadarnhaol mewn perthynas â chydlyniant cymunedol wedi cynyddu rhywfaint ers y llynedd, gyda dau a oedd yn gymysg y llynedd yn cael eu nodi'n gadarnhaol eleni, un yn symud o'r cadarnhaol i effeithiau cymysg, ac un yn symud o'r cadarnhaol i ddim effaith. Mae hyn yn adlewyrchu cymhwysu polisi'r CDLI yn fwy cyson, ond mae hefyd yn deillio o ostyngiad cyffredinol pellach mewn

gweithgaredd economaidd, sydd wedi lleihau nifer y datblygiadau sy'n cael eu cynnig. Rhoddir sylw manylach isod i ddangosyddion lle gwelir effaith ansicr, gymysg neu negyddol, neu sydd wedi newid yng nghyswllt Amcan 6A yr AC.

Dangosydd 7: Colli manau agored a chyfleusterau cymunedol

11.6.2 Yn dilyn tri chais a gymeradwywyd yn ystod 2017/18 a arweiniodd at golli cyfleuster cymunedol ym mhob achos, yn ystod cyfnod monitro 2018/19 ni chafwyd unrhyw geisiadau a gafodd effaith niweidiol ar unrhyw gyfleuster cymunedol neu fan agored. Yr asesiad o'r cynllun bellach, felly, yw ei fod yn cael effaith gadarnhaol yng nghyswllt y dangosydd hwn.

Dangosydd 10: Datblygiadau manwerthu, swyddfa a hamdden o bwys

11.6.3 Gall datblygiadau manwerthu, swyddfa a hamdden fod yn gyfleusterau cymunedol ynddynt eu hunain, neu gallant gyfrannu at hyfywedd cymuned oherwydd bod nifer uwch o bobl yn bresennol, a mwy o achosion o ryngweithio ar hyd y dydd. Gall lleoliad defnyddiau o'r fath ddylanwadu ar yr effeithiau o ran cynhwysiad cymdeithasol yn lleol, ac mae polisi cynllunio'n ffafrio bod datblygiadau o'r fath yn cael eu lleoli mewn canolfannau sydd eisoes yn bodoli. Gall hyn helpu i gynnal a gwella canol trefi a phentrefi, gyda manteision i gynhwysiad cymdeithasol yn sgîl hynny.

11.6.4 Yn ystod 2017/18, cymeradwywyd un cynnig manwerthu sylweddol mewn lleoliad y tu allan i ganol y dref, gan arwain at asesiad cymysg ar gyfer y dangosydd hwn. Yn ystod 2018/19 roedd un cais perthnasol ar gyfer cynllun wedi'i leoli yng nghanol tref Castell-nedd, a aseswyd felly fel un a allai gael effaith gadarnhaol ar gynhwysiad cymdeithasol trwy gefnogi hyfywedd a bywiogrwydd y ganolfan fanwerthu.

Dangosyddion 14, 31, 39 a 41: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd

11.6.5 Mae darpariaeth datblygiadau tai ar ddyraniadau H1 ar hyd ardaloedd strategaeth coridor yr arfordir a'r cymoedd wedi syrthio o dan dargedau'r CDLI. Yn dibynnu ar amgylchiadau'r anheddiad dan sylw, gallai hyn gael effeithiau niweidiol ar yr economi leol, lefelau tai fforddiadwy, ac o ganlyniad ar gynaliadwyedd yn gyffredinol ac yn arbennig (yn achos yr amcan AC hwn) ar gydlyniant cymunedol. Yn dibynnu ar y gymuned dan sylw, gallai'r tueddiadau hyn arwain at ddiffyg symud neu ddirywiad yn y gymuned, er na fydd hynny o reidrwydd yn wir yn achos pob cymuned.

11.6.6 Nodwyd y mater hwn wrth fonitro'r CDLI, a bydd y polisiâu perthnasol yn awr yn cael eu hadolygu, gan asesu'r rhesymau am y diffyg a goblygiadau hynny, a rhoi ystyriaeth i newid y dull polisi. Bydd y mater hwn yn parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 46: Darparu manau agored ar gyfer datblygiadau newydd

11.6.7 At ei gilydd, er bod Polisi OS1 sy'n galw am ddarparu manau agored newydd ar gyfer datblygiadau newydd yn cael ei roi ar waith yn gyffredinol, mewn rhai achosion nid oes darpariaeth (yn aml am resymau dichonoldeb). Mae argaeledd manau agored yn lleol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o feithrin cynhwysiad cymdeithasol trwy ddarparu lle yn y gymuned ar gyfer hamdden a rhyngweithio. Mae diffyg darpariaeth

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd yn debygol, felly, o fod â goblygiadau negyddol ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol yn lleol. Nodwyd y dangosydd hwn fel un oedd yn destun pryder y llynedd, ac fe'i nodwyd eto eleni wrth fonitro'r CDLI (gweler Adran 6.4). Y bwriad yn awr yw asesu'r rhesymau am y diffyg darpariaeth a goblygiadau hynny, a rhoddir ystyriaeth i newidiadau posibl i'r dull polisi. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 52: Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr

11.6.8 Mae lefel y ddarpariaeth newydd o ran arwynebedd llawr cyflogaeth bellach wedi syrthio o dan y targed am gyfnod o ddwy flynedd yn olynol, sy'n awgrymu effaith negyddol ar argaeledd safleoedd cyflogaeth, ac o ganlyniad ar gydlyniant cymdeithasol. Bydd y mater hwn yn awr yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r CDLI.

Dangosydd 58: Ceisiadau ar gyfer datblygiad manwerthu ar raddfa fach

11.6.9 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ni fu ceisiadau am ddatblygiadau manwerthu ar raddfa fach (gweler Adran 7.2) o gymharu â phedwar cais yn ystod 2017/18. Mae'r diffyg darpariaeth hwn o ran siopau bychain lleol yn debygol o greu canlyniad llai cadarnhaol eleni yng nghyswllt cydlyniant cymdeithasol a chynhwysiad cymdeithasol. Er nad yw hyn yn sbardun sy'n galw am adolygu'r polisi ar hyn o bryd, bydd yn parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 88: Ceisiadau y darparwyd Cynllun Gweithredu Ieithyddol i gyd-fynd â hwy

11.6.10 Ni chafwyd ceisiadau yn ystod y cyfnod monitro diwethaf oedd yn bodloni'r meini prawf sy'n gofyn bod Cynllun Gweithredu Ieithyddol (CGI) yn cael ei gyflwyno, tra bod gofyn cyflwyno CGI ar gyfer dau gais yn ystod y cyfnod blaenorol. Mae hyn felly yn cael ei gofnodi fel effaith niwtral yng nghyswllt cydlyniant cymdeithasol.

Amcan 6B yr AC: Amddiffyn a gwella diwylliant a chymeriad cymunedau, gan gynnwys adnoddau diwylliannol a'r iaith Gymraeg

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
85	Nifer y ceisiadau a ganiatwyd a gafodd effaith ar adeiladau a nodweddion o bwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 3 chais perthnasol, ond nid yw'r un ohonynt wedi cael unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol.	
87	Nifer y ceisiadau a ganiatwyd oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 5 chais perthnasol, ond nid yw'r un ohonynt wedi cael unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
88	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd gyda Chynllun Gweithredu Ieithyddol	Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb ymdrin â materion yr Iaith Gymraeg	Ni chymeradwywyd ceisiadau sy'n galw am Gynllun Gweithredu ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod monitro	0

Dadansoddi

11.6.11 Mae'r targedau a bennwyd ar gyfer Dangosyddion 86, 87 ac 88 yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd, sy'n awgrymu effaith gadarnhaol o ran yr effeithiau ar ddiwylliant a chymeriad cymunedau.

11.7 Thema 7 yr AC: Iechyd a Llesiant

Amcan 7A yr AC :Gwella'r canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol i bawb

Cyf. Y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
7	Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol	Ni chaniateir colli cyfleusterau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chafwyd colledion arwyddocaol o ran cyfleusterau cymunedol neu fannau agored o ganlyniad i gymeradwyo ceisiadau cynllunio yn ystod y cyfnod monitro	
46	Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion mannau agored y meddianwyr	Dylai pob datblygiad tai newydd lle ceir 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer man agored lle bo diffyg meintiol yn y ddarpariaeth chwaraeon awyr agored	Ni chyrrhaeddwyd y targed ar gyfer darparu mannau agored ym mhob achos (gweler Adran 6.4 uchod). Mae diffyg darpariaeth mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd yn awgrymu nad yw'r amcan AC hwn wedi derbyn sylw llawn yn yr achosion hynny, ac mae i hynny oblygiadau lleol o ran iechyd corfforol a meddyliol.	
47	Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygiad, yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli mannau agored sy'n groes i'r fframwaith polisi	Collwyd rhai mannau agored presennol mewn cysylltiad â 2 cais (gweler adran 6.4 uchod).	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. Y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
			Fodd bynnag, roedd y colledion hyn ar y cyfan ar raddfa fach ac yn gyfyngedig, ac ae'r polisi yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol.	
49	<p><i>Dangosydd Lleol:</i></p> <p>Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT</p> <p><i>Dangosyddion Cyd-destunol:</i></p> <p>Y newid o ran Cyflogaeth yn y Gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig;</p> <p>Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT;</p> <p>Lefel a chyfraddau cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig</p>	<p>Prif Darged:</p> <p>Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026</p> <p>Targedau Interim:</p> <p>2011/14: - 1,458 2014/17: +1,326 2017/20: +1,326 2020/23: +1,326 2023/26: +1,326</p> <p>Targed Blynyddol:</p> <p>Enillion cyfartalog o 442 swydd y flwyddyn o 2014 dros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged</p> <p>cronnol o 884 yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd</p>	<p>Mae'r targed a bennwyd yn y CDLI wedi dyddio oherwydd bod ystadegau diweddarach wedi cael eu rhyddhau. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos gostyngiad pellach yn nifer y swyddi yn CNPT (gweler Adran 7.1). At ei gilydd, mae gostyngiad yn lefelau cyflogaeth yn debygol o gael effaith negyddol ar iechyd a llesiant.</p>	
53	<p><i>Dangosydd Lleol:</i> Cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT</p> <p><i>Dangosydd Cyd-destunol:</i> Cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig</p>	<p>Cyflawni cynnydd yng nghyfradd y gweithgaredd economaidd, i 76% erbyn 2026</p>	<p>Mae cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT wedi amrywio yn ystod y tair blynedd diwethaf (Gweler adran 7.1). Yn ystod y cyfnod monitro diweddaraf, mae wedi cynyddu 1.5%, gan gau'r bwch rhwng CNPT a chyfartaledd Cymru, yn arwydd bod cynnydd yn digwydd tuag at gyrraedd y targed</p>	
54	<p><i>Dangosydd Lleol:</i> Cyfradd diweithdra CNPT</p> <p><i>Dangosydd Cyd-destunol:</i> Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig</p>	<p>Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra, i 6.9% erbyn 2026</p>	<p>Mae'r ystadegau yn dangos bod cyfradd diweithdra CNPT wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i 3.0%, er nad yw'r ffigur hwn o reidrwydd yn ddibynadwy (gweler Adran 7.1). Fodd bynnag, mae arwyddion ein bod wedi rhagori'n sylweddol ar y gyfradd darged ar gyfer diweithdra. Dylai gostwng</p>	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. Y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
			lefelau diweithdra fod yn gyffredinol gadarnhaol o ran iechyd a llesiant	
61	Datblygu amrywiaeth o lwybrau cerdded a beicio gwell	Cwblhau Llwybr Arfordirol Cymru erbyn 2012 Cwblhau Trywyddau Beicio Mynydd Cognation erbyn 2013 Cwblhau Llwybr Taith Fawr y Ddraig erbyn 2012	Mae'r llwybrau a restrwyd yn y CDLI wedi cael eu creu, gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar iechyd a llesiant.	
66	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ARhAA, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd	Cymeradwywyd 3 ddatblygiad sylweddol yn yr ARhAA, a phenderfynwyd arno'n unol â pholisi.	0
67	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu	Ni ddylai fod unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladu a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno	Caniatawyd 3 chais perthnasol o fewn yr ARhAA, pob un yn unol â'r polisi.	0
69	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniatawyd ceisiadau oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig.	0
82	Cwblhau'r llwybrau beicio a restrwyd	Mae prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014 Mae Trywydd Cwm Afan (o Bort Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013	Mae Trywydd Cwm Afan wedi'i gwblhau, a Llwybr Beicio Dyffryn Aman wedi'i gwblhau yn rhannol	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Dadansoddiad

11.7.1 Yn gyffredinol, asesir bod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r dangosyddion. Fodd bynnag, mae rhai dangosyddion wedi cyflwyno canlyniad negyddol neu gymysg, naill ai yn y cyfnod monitro hwn neu mewn blynyddoedd a fu, a thrafodir y rhain isod.

Dangosydd 7: Colli manau agored a chyfleusterau cymunedol

11.7.2 Mae cyfleusterau cymunedol a manau lle gall pobl ymgynnull yn gyffredinol lesol i iechyd corfforol a meddyliol pobl, gan eu bod yn caniatáu cyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau cymdeithasol / adloniadol, ymweld â'r siop leol, cymdeithasu ac ati. Gall colli cyfleusterau o'r fath, felly, gael effaith negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae parhau i golli cyfleusterau wedi codi pryder yng nghyswllt Amcan 7A yr AC, er nad oes modd i reoli datblygu trwy'r system gynllunio ymdrin â cholli cyfleusterau o'r fath lle nad oes angen caniatâd cynllunio, a lle nad yw cyfleusterau'n ddichonadwy nac yn boblogaidd.

11.7.3 Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau pellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu, cofnodwyd gwelliant yn ystod y cyfnod monitro hwn ac ni chofnodwyd colledion sylweddol o ran cyfleusterau cymunedol neu fannau agored eleni. Bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro er mwyn asesu a yw'r gwelliant hwn yn cael ei gynnal.

Dangosydd 46: Darparu manau agored ar gyfer datblygiadau newydd

11.7.4 At ei gilydd, ni chyrrhaeddwyd y targed ar gyfer darparu manau agored mewn perthynas â datblygiadau newydd yn llawn. Mae sicrhau bod lefel briodol o fannau agored i ddiwallu anghenion y gymuned yn debygol o fod yn fuddiol o ran iechyd corfforol a meddyliol, drwy alluogi pobl i fod yn fwy actif yn gorfforol a chael lle yn eu hardal leol i ddianc rhag pwysau bywyd beunyddiol. Lle nad yw datblygiad newydd yn gwneud darpariaeth briodol, gall hynny gael effaith ar y gymuned a rhoi pwysau ar y cyfleusterau presennol. Mae diffyg darpariaeth manau agored ar gyfer datblygiadau newydd, felly, yn debygol o fod â goblygiadau negyddol ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol.

11.7.5 Mae'r diffyg parhaus yn y ddarpariaeth yn codi pryder yng nghyswllt Amcan 7A yr AC. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd rheswm pam na ellid gwneud darpariaeth, ond nodwyd y dangosydd hwn fel pryder wrth fonitro'r CDLI (cyfeirier at Adran 6.4), a chynigir ailasesu'r polisi fel rhan o adolygiad y CDLI. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 49: Lefel cyflogaeth yn y gweithle yng nghyd-destun lefelau cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig

11.7.6 Mae'r ffigurau cyflogaeth diweddaraf (gweler adran 7.1) yn dangos gostyngiad o 3,200 o swyddi yn CNPT yn y cyfnod diweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei gyfer (2017). Dyma'r ail flwyddyn pryd y gwelwyd gostyngiad, ac mae hynny'n golygu ei fod yn 'sbardun' wrth fonitro'r CDLI, ac o ganlyniad bydd y polisi'n rhan o broses adolygu. At ei gilydd, mae gostyngiad yn lefelau cyflogaeth yn debygol o gael effaith negyddol ar iechyd a llesiant.

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

11.7.7 O ran amcan 7A yr AC, mae hyn felly yn debygol o gael effaith negyddol ar ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro, a bydd y mater hwn yn derbyn sylw fel rhan o broses adolygu'r CDLI.

Amcan yr AC 7B: Lleihau/lleiafu achosion ac effeithiau afiechyd trwy roi sylw i achosion a chanlyniadau afiechyd, anghydraddoldebau iechyd a llesiant gwael

Cyf. Y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
7	Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol	Ni chaniateir colli cyfleusterau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chafwyd colledion arwyddocaol o ran cyfleusterau cymunedol neu fannau agored o ganlyniad i gymeradwyo ceisiadau cynllunio yn ystod y cyfnod monitro	
46	Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion mannau agored y meddianwyr	Dylai pob datblygiad tai newydd lle ceir 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer man agored lle bo diffyg meintiol yn y ddarpariaeth chwaraeon awyr agored	Ni chyflawnwyd y targed ar gyfer darparu mannau agored ym mhob achos (gweler Adran 6.4 uchod). Mae diffyg darpariaeth mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd yn awgrymu nad yw'r amcan AC hwn wedi derbyn sylw llawn yn yr achosion hynny, ac mae i hynny oblygiadau lleol o ran afiechyd, anghydraddoldebau iechyd a lefel isel o lesiant yn lleol.	
47	Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygiad, yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli mannau agored sy'n groes i'r fframwaith polisi	Collwyd rhai mannau agored presennol mewn cysylltiad â 2 cais (gweler adran 6.4 uchod). Fodd bynnag, roedd y colledion hyn ar y cyfan ar raddfa fach ac yn gyfyngedig, ac mae'r polisi yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol	
49	<i>Dangosydd Lleol:</i> Lefel Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT <i>Dangosyddion Cyd-destunol:</i> Y newid o ran Cyflogaeth yn y Gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig; Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT; Lefel a chyfraddau cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig	Prif Darged: Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026 Targedau Interim: 2011/14: - 1,458 2014/17: +1,326 2017/20: +1,326 2020/23: +1,326 2023/26: +1,326 Targed Blynyddol:	Mae'r targed a bennwyd yn y CDLI wedi dyddio oherwydd ystadegau diweddarach a ryddhawyd. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos gostyngiad yn nifer y swyddi yn CNPT (gweler Adran 7.1). At ei gilydd, mae gostyngiad yn lefelau cyflogaeth yn debygol o gael effaith negyddol ar afiechyd, anghydraddoldebau iechyd a lefel wael o lesiant.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. Y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		Enillion cyfartalog o 442 swydd y flwyddyn o 2014 dros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 884 yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd		
53	<i>Dangosydd Lleol:</i> Cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT <i>Dangosydd Cyd-destunol:</i> Cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig	Cyflawni cynnydd yng nghyfradd y gweithgaredd economaidd, i 76% erbyn 2026	Mae cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT wedi amrywio yn ystod y tair blynedd diwethaf mae wedi cynyddu 1.5%, gan gau'r bwch rhwng CNPT a chyfartaledd Cymru, yn arwydd bod cynnydd yn digwydd tuag at gyrraedd y targed	
54	<i>Dangosydd Lleol:</i> Cyfradd diweithdra CNPT <i>Dangosydd</i> <i>Cyd-destunol:</i> Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig	Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra, i 6.9% erbyn 2026	Mae'r ystadegau yn dangos bod cyfradd diweithdra CNPT wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i 3.0%, er nad yw'r ffigur hwn o reidrwydd yn ddibynadwy (gweler Adran 7.1). Fodd bynnag, mae arwyddion ein bod wedi rhagori'n sylweddol ar y gyfradd darged ar gyfer diweithdra. Dylai gostwng lefelau diweithdra fod yn gyffredinol gadarnhaol o ran iechyd a llesiant	
61	Datblygu amrywiaeth o lwybrau cerdded a beicio gwell	Cwblhau Llwybr Arfordirol Cymru erbyn 2012 Cwblhau Trywyddau Beicio Mynydd Cognition erbyn 2013 Cwblhau Llwybr Taith Fawr y Ddraig erbyn 2012	Mae'r llwybrau a restrwyd yn y CDLI wedi cael eu creu, gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar iechyd.	
66	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ARhAA, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad	Cymeradwywyd 3 ddatblygiad sylweddol yn yr ARhAA, a phenderfynwyd ar bob un o'r rheiny'n unol â pholisi	0

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. Y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		â lefelau sylweddol o lygredd		
67	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu	Ni ddylai fod unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladu a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno	Caniatawyd 3 chais perthnasol o fewn yr ARhAA, pob un yn unol â'r polisi.	0
69	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniatawyd ceisiadau oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig.	0
82	Cwblhau'r llwybrau beicio a restrwyd	Mae prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014 Mae Trywydd Cwm Afan (o Bort Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013	Mae Trywydd Cwm Afan wedi'i gwblhau, a Llwybr Beicio Dyffryn Aman wedi'i gwblhau yn rhannol.	

Dadansoddiad

11.7.8 Yn gyffredinol, asesir bod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r dangosyddion. Fodd bynnag, mae rhai dangosyddion wedi cyflwyno canlyniad negyddol neu gymysg, naill ai yn y cyfnod monitro hwn neu mewn blynyddoedd a fu, a thrafodir y rhain isod.

Dangosydd 7: Colli manau agored a chyfleusterau cymunedol

11.7.9 Mae cyfleusterau cymunedol a manau lle gall pobl ymgynnull yn gyffredinol lesol i iechyd corfforol a meddyliol pobl, gan eu bod yn caniatáu cyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau cymdeithasol / adloniadol, ymweld â'r siop leol, cymdeithasu ac ati. Gall colli cyfleusterau o'r fath, felly, gael effaith negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae parhau i golli cyfleusterau fel hyn wedi codi pryder yng nghyswllt Amcan 7 yr AC, ond ni all rheoli datblygu trwy'r system gynllunio ymdrin â cholli cyfleusterau o'r fath lle nad oes angen caniatâd cynllunio, a lle nad yw cyfleusterau'n ddichonadwy nac yn boblogaidd.

11.7.10 Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau pellach gyda swyddogion Rheoli Datblygu, cofnodwyd gwelliant yn ystod y cyfnod monitro hwn ac ni chofnodwyd colledion sylweddol o ran cyfleusterau cymunedol neu fannau agored eleni. Bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro er mwyn asesu a yw'r gwelliant hwn yn cael ei gynnal.

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Dangosydd 46: Darparu manau agored ar gyfer datblygiadau newydd

11.7.11 At ei gilydd, ni chyrrhaeddwyd y targed ar gyfer darparu manau agored mewn perthynas â datblygiadau newydd yn llawn. Mae sicrhau bod lefel briodol o fannau agored i ddiwallu anghenion y gymuned yn debygol o fod yn fuddiol o ran iechyd corfforol a meddyliol, drwy alluogi pobl i fod yn fwy actif yn gorfforol a chael lle yn eu hardal leol i ddianc rhag pwysau bywyd beunyddiol. Lle nad yw datblygiad newydd yn gwneud darpariaeth briodol, gall hynny gael effaith ar y gymuned a rhoi pwysau ar y cyfleusterau presennol. Mae'n debygol, felly, y bydd goblygiadau negyddol i ddiffyg darpariaeth manau agored ar gyfer datblygiadau newydd, a hynny o ran afiechyd, anghydraddoldebau iechyd a lefel wael o lesiant.

11.7.12 Mae'r diffyg parhaus yn y ddarpariaeth yn codi pryder yng nghyswllt Amcan 7B yr AC. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd rheswm pam na ellid gwneud darpariaeth, ond nodwyd y dangosydd hwn fel pryder wrth fonitro'r CDLI (cyfeirier at Adran 6.4), a chynigir ailasesu'r polisi fel rhan o adolygiad y CDLI. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 49: Lefel cyflogaeth yn y gweithle yng nghyd-destun lefelau cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig

11.7.13 Mae'r ffigurau cyflogaeth diweddaraf (gweler adran 7.1) yn dangos gostyngiad o 3,200 o swyddi yn CNPT yn y cyfnod diweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei gyfer (2017). Dyma'r ail flwyddyn pryd y gwelwyd gostyngiad, ac mae hynny'n golygu ei fod yn 'sbardun' wrth fonitro'r CDLI, ac o ganlyniad bydd y polisi'n rhan o broses adolygu. At ei gilydd, mae gostyngiad yn lefelau cyflogaeth yn debygol o gael effaith negyddol ar iechyd a llesiant.

11.7.14 O ran amcan 7B yr AC, mae hyn felly yn debygol o gael effaith negyddol o ran afiechyd, anghydraddoldebau iechyd a lefel wael o lesiant. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro, a bydd y mater hwn yn derbyn sylw fel rhan o broses adolygu'r CDLI.

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Amcan 7C yr AC: Lleihau/lleiafu nifer yr achosion o dlodi a'u effeithiau trwy fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau tlodi

Cyf. Y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
49	<p><i>Dangosydd Lleol:</i> Lefel Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT</p> <p><i>Dangosyddion</i></p> <p><i>Cyd-destunol:</i> Y newid o ran Cyflogaeth yn y Gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig;</p> <p><i>Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT;</i></p> <p>Lefel a chyfraddau cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig</p>	<p>Prif Darged:</p> <p>Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026</p> <p>Targedau Interim:</p> <p>2011/14: - 1,458 2014/17: +1,326 2017/20: +1,326 2020/23: +1,326 2023/26: +1,326</p> <p>Targed Blynyddol:</p> <p>Enillion cyfartalog o 442 swydd y flwyddyn o 2014 dros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 884 yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd</p>	<p>Mae'r targed a bennwyd yn y CDLI wedi dyddio oherwydd bod ystadegau diweddarach wedi cael eu rhyddhau. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos gostyngiad yn nifer y swyddi yn CNPT (gweler Adran 7.1). At ei gilydd, mae gostyngiad yn lefelau cyflogaeth yn debygol o gael effaith negyddol ar lefelau tlodi.</p>	
53	<p><i>Dangosydd Lleol:</i> Cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT</p> <p><i>Dangosydd</i></p> <p><i>Cyd-destunol:</i> Cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig</p>	<p>Cyflawni cynnydd yng nghyfradd y gweithgaredd economaidd, i 76% erbyn 2026</p>	<p>Mae cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT wedi amrywio yn ystod y tair blynedd diwethaf (Gweler adran 7.1). Yn ystod y cyfnod monitro diweddaraf, mae wedi cynyddu 1.5%, gan gau'r bwch rhwng CNPT a chyfartaledd Cymru, yn arwydd bod cynnydd yn digwydd tuag at gyrraedd y targed</p>	
54	<p><i>Dangosydd Lleol:</i> Cyfradd diweithdra CNPT</p> <p><i>Dangosydd</i></p> <p><i>Cyd-destunol:</i> Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig</p>	<p>Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra, i 6.9% erbyn 2026</p>	<p>Mae'r ystadegau yn dangos bod cyfradd diweithdra CNPT wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i 3.0%, er nad yw'r ffigur hwn o reidrwydd yn ddibynadwy (gweler Adran 7.1). Fodd bynnag, mae arwyddion ein bod wedi rhagori'n sylweddol ar y gyfradd darged ar gyfer diweithdra. Dylai gostwng lefelau diweithdra fod yn gyffredinol gadarnhaol o safbwynt lefelau tlodi</p>	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Dadansoddiad

11.7.15 Mae'r CDLI yn defnyddio model twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n edrych ar y cynnydd a ragwelir o ran swyddi a chyfraddau gweithgaredd economaidd, ac ar sail hynny'n nodi maint y boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer a ragwelir o swyddi. Defnyddir hynny yn ei dro i ragfynegi nifer y cartrefi newydd fydd yn angenrheidiol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Y prif ddull sydd gan y CDLI o fedru cyfrannu at unrhyw ostyngiad yn lefelau tlodi yw trwy ei strategaeth gyflogaeth a'i bolisïau a'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer datblygiadau sy'n cynhyrchu cyflogaeth newydd.

11.7.16 Mae'r dangosyddion sy'n ymwneud â gweithgaredd economaidd yn cyfleu darlun cymysg at ei gilydd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag effeithiau ar dlodi. Mae'r ffigurau cyflogaeth diweddaraf (gweler adran 7.1) yn dangos gostyngiad o 3,200 o swyddi yn CNPT yn y cyfnod diweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei gyfer (2017). Dyma'r ail flwyddyn pryd y gwelwyd gostyngiad, ac mae hynny'n golygu ei fod yn 'sbardun' wrth fonitro'r CDLI, ac o ganlyniad bydd y polisi'n rhan o broses adolygu.

11.7.17 Mae'r darlun cymysg cyffredinol gyda lefelau cyflogaeth a chyfraddau gweithgaredd economaidd sy'n gostwng yn debygol o gael effaith gyffredinol negyddol ar lefelau tlodi. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro, a bydd dangosydd cyflogaeth yn y gweithle yn cael ei ystyried fel rhan o broses adolygu'r CDLI.

11.8 Thema 8 yr AC: Yr Economi

Amcan 8A yr AC: Datblygu a chynnal seilwaith economaidd lleol sy'n ddeniadol i fusnesau ac yn diwallu anghenion newidiol y gymuned leol a chenedlaethol

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
12	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae isadeiledd newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr	Bydd datblygiad newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny'n briodol	Ceir manylion llawn y dangosydd hwn yn adran 4.4 uchod. O ran seilwaith economaidd, rhoddwyd sylw i effaith datblygiad newydd yn ystod y broses o benderfynu ar y cais cynllunio ym mhob achos yn ystod cyfnod yr adroddiad. Lle barnwyd bod hynny'n gam gweithredu priodol, mae cytundebau A.106 bellach yn eu lle i ymdrin ag effeithiau penodol cysylltiedig â'r datblygiadau arfaethedig, a hefyd i sicrhau bod anghenion defnyddwyr terfynol yn cael eu diwallu yn y dyfodol.	
14	Dangosydd Lleol - Nifer yr unedau tai	Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 5,690 o unedau tai newydd	Mae'r ddarpariaeth dyraniadau H1 ar hyd Coridor yr Arfordir wedi syrthio'n sylweddol o dan y	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
	newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir	<p>yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir dros gyfnod y Cynllun</p> <p>Targedau Blynyddol: 2011/12: 152 2012/13: 134 2013/14: 216 2014/15: 268 2015/16: 318 2016/17: 379 2017/18: 495 2018/19: 553 2019/20: 518 2020/21: 513 2021/22: 502 2022/23: 468 2023/24: 412 2024/25: 387 2025/26: 375</p>	targedau (gweler adran 5.1). Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu felly cael ei adolygu, felly, fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI. Ni fyddai unrhyw ostyngiad sylweddol estynedig o ran darparu tai newydd yn cynnal seilwaith economaidd lleol mewn modd cadarnhaol, a gallai gael effeithiau negyddol yng nghyswllt amcan 8A yr AC	
22	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (FfDdY]	Cyflawni Ffordd yr Harbwr (FfDdY)	Cwblhawyd Ffordd yr Harbwr, gan ddarparu seilwaith newydd pwysig i gynnal datblygiad canol Port Talbot yn y dyfodol	
31	Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd	<p>Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu 1,435 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun</p> <p>Targedau Blynyddol: 2011/12: 61 2012/13: 108 2013/14: 44 2014/15: 60 2015/16: 90 2016/17: 112 2017/18: 92 2018/19: 75 2019/20: 122 2020/21: 125 2021/22: 117 2022/23: 117 2023/24: 112 2024/25: 126 2025/26: 74</p>	Mae cyflawni'r dyraniadau H1 yn ardal strategaeth y cymoedd bellach wedi syrthio o dan y targedau dair blynedd yn olynol (gweler adran 5.2). Bydd ymchwil ac ymchwilio pellach yn digwydd er mwyn deall hyn, er bod rhai ceisiadau arwyddocaol wedi'u cymeradwyo ar safleoedd heb eu dyrannu. Yn gyffredinol bydd datblygu safleoedd preswyl newydd yn cefnogi'r economi leol a'r seilwaith economaidd lleol, a gallai unrhyw ostyngiad estynedig sylweddol wrth ddarparu tai newydd gael effeithiau negyddol	
37	Nifer y cynigion bywyd/gwaith a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd/gwaith a ganiateir	Hyd yma, nid oes dim cynigion bywyd/gwaith wedi'u derbyn na'u caniatáu.	0

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
39	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI	Darperir cyfanswm o 8,760 o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu darparu erbyn 2026 Targedau Blynyddol: 2011/12: 262 2012/13: 287 2013/14: 301 2014/15: 386 2015/16: 486 2016/17: 549 2017/18: 625 2018/19: 686 2019/20: 698 2020/21: 676 2021/22: 647 2022/23: 614 2023/24: 553 2024/25: 542 2025/26: 488	Roedd lefel y tai a gwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro yn sylweddol is na'r targed blynyddol, a dyma'r drydedd flwyddyn pryd y gwelwyd diffyg. Bydd rhai effeithiau cadarnhaol ar yr economi leol o hyd yn sgîl y lefel hon o ddarparu tai newydd, ond mae'n methu â chyrraedd y targedau a'r effeithiau a ragwelwyd.	
41	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI	Cyflawni 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026 Targedau Blynyddol: 2011/12: 7 2012/13: 5 2013/14: 22 2014/15: 37 2015/16: 72 2016/17: 90 2017/18: 115 2018/19: 130 2019/20: 124 2020/21: 120 2021/22: 111 2022/23: 102 2023/24: 90 2024/25: 89 2025/26: 86	Mae darparu Tai Fforddiadwy wedi bod o dan y targed ers tair blynedd yn olynol, ac ni chyflawnwyd unedau fforddiadwy trwy'r system gynllunio yn ystod y cyfnod monitro, er bod disgwyl i'r gyfradd ddarparu gynyddu (gweler adran 6.2). Mae'r diffyg darpariaeth newydd yn golygu nad yw polisi tai fforddiadwy'r CDLI yn cael effeithiau cadarnhaol ar hyn o bryd mewn perthynas â'r economi leol.	
52	Y newid net yn swm y tir yflogaeth a'r arwynebedd llawr	Prif Darged: Darparu ar gyfer enillion net o ryw 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2026 Targedau Interim: 2011/14: 7,000 sq m 2014/17: 7,000 sq m 2017/20: 7,000 sq m	Mae lefel y ddarpariaeth newydd o ran arwynebedd llawr cyflogaeth bellach wedi syrthio o dan y targed am gyfnod o ddwy flynedd yn olynol, sy'n awgrymu effaith negyddol ar seilwaith economaidd lleol. Bydd y mater hwn yn awr yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r CDLI.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		tharged cronol o 0.66 ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd		
20	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (cyflogaeth)	Bydd isafswm o 7 ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o 0.46 ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 0.92 ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd	Bellach ni ddatblygwyd tir at ddibenion cyflogaeth yng Nglannau'r Harbwr am 3 blynedd yn olynol. Fel yn achos datblygiad tai (Dangosydd 19), bernir bod potensial o hyd i'r datblygiad gael effeithiau economaidd cadarnhaol o ran adnoddau ac asedau lleol, ond mae'r diffyg cynnydd yn ddiweddar yn golygu bod ei effeithiau cyffredinol bellach yn gymysg.	
29	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan (twristiaeth/adloniant)	Cyflawni datblygiad twristiaeth / adloniant yn Lido Afan erbyn 2020	Mae elfen twristiaeth/hamdden arfaethedig y datblygiad yn Lido Afan i gael eu hadeiladu ochr yn ochr â'r datblygiad preswyl uchod. At ei gilydd, dylai'r datblygiad gyfrannu at fuddsoddi mewn adnoddau lleol a defnydd ohonynt	
30	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe i gael ei gyflawni erbyn 2015: Y gwaith i gychwyn ym mis Mai 2013 Yr adeiladau cyntaf wedi'u cwblhau ym mis Mai 2014 Cwblhawyd yr holl adeiladau heblaw'r rhai preswyl ym mis Mai 2015 Llety'r myfyrwyr wedi'i gwblhau ym mis Medi 2015	Mae Campws y Bae wedi agor ac yn cael ei ddefnyddio, ac mae'n gwneud cyfraniad pwysig i'r amcan hwn.	
37	Nifer y cynigion bywyd/gwaith a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd/gwaith a ganiateir	Hyd yma, nid oes dim cynigion bywyd/gwaith wedi'u derbyn na'u caniatáu.	0
38	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola	Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021	Hyd yma ni chymeradwywyd y datblygiad, gan nad oes Cytundeb A106 wedi'i lofnodi eto	0

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		2020/23: 7,000 sq m 2023/26: 7,000 sq m Targed Blynyddol: Datblygu cyfartaledd o 2,250 m.sg. o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn, gyda tharged cronol o 4,500 m.sg. i'w datblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd		
56	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Dim ond 1 cais a ganiatawyd ar gyfer defnydd nad yw'n cydymffurfio ar safle cyflogaeth a ddiogelwyd, ond barnwyd bod hynny'n unol â'r polisi.	
57	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiad manwerthu, yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd	Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad manwerthu sy'n groes i'r fframwaith polisi	Caniatawyd tri chais manwerthu perthnasol, ond roedd pob un ohonynt yn unl â'r hierarchaeth fanwerthu a'r fframwaith polisi	
58	Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir	Ni chymeradwywyd ceisiadau sy'n cyd-fynd â'r diffiniad o ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach yn ystod y cyfnod monitro. Mae hwn yn ostyngiad ers y llynedd ac ni fydd yn cael effeithiau cadarnhaol o ran y seilwaith economaidd lleol	
59	Nifer y ceisiadau twristiaeth a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylid caniatáu cynigion twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi	Caniatawyd 5 cais, yr oedd pob un ohonynt yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi ac yn cefnogi'r seilwaith economaidd lleol	
60	Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli cyfleusterau twristiaeth sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau oedd yn arwain at golli cyfleusterau twristiaeth	0

Dadansoddiad

11.8.1 Mae'r CDLI yn defnyddio model twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n edrych ar y cynnydd a ragwelir o ran swyddi a chyfraddau gweithgaredd economaidd, ac ar sail hynny'n nodi maint y boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer a ragwelir o swyddi. Defnyddir hynny yn ei dro i ragfynegi nifer y cartrefi newydd fydd yn angenrheidiol o fewn

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

y Fwrdeistref Sirol. Mae'r amcan AC hwn yn ystyried i ba raddau mae Polisiâu'r CDLI yn cyfrannu at ddatblygiad y seilwaith economaidd lleol a'r gefnogaeth er mwyn i'r seilwaith economaidd lleol gyflawni hyn.

11.8.2 Mae'r Cynllun yn dyrannu ac yn ceisio amddiffyn amrywiaeth o safleoedd at ddefnyddiau cyflogaeth. Er bod rhai datblygiadau'n mynd rhagddynt yn arafach nag y rhagwelwyd yn wreiddiol, maent serch hynny yn helpu i gynnal y seilwaith economaidd lleol trwy ddarparu cyflogaeth yn y cam adeiladu a'r tymor hwy, darparu cartrefi newydd, a darparu'r ffyrdd a'r seilwaith lleol i wasanaethu'r datblygiad newydd. Mae rhai o'r datblygiadau'n ymrwymadau tymor hir, a bydd angen nifer o flynyddoedd i'w datblygu a'u cwblhau.

11.8.3 Mae mwy o ddangosyddion AC yr amcan hwn yn arddangos canlyniadau cymysg nag yn adroddiad y llynedd. Rhoddir sylw pellach i hyn isod mewn perthynas â dangosyddion penodol.

Dangosyddion 14, 31, 39 a 41: Darparu Tai a Thai Fforddiadwy

11.8.4 Yn gyffredinol, bydd darparu tai newydd yn cynnal ac yn helpu datblygiad economïau lleol. Teimlir yr effeithiau yn ystod y cyfnod adeiladu trwy greu swyddi, trwy gefnogaeth ychwanegol ar gyfer seilwaith lleol newydd, a'i ddarparu (gan gynnwys gwella ffyrdd ac amwynderau a chyfleusterau cyhoeddus) a thrwy sicrhau bod cymunedau'n gyffredinol yn fwy cynaliadwy a dichonadwy. Bydd datblygu tai yn gyffredinol yn helpu i gefnogi darpariaeth tai fforddiadwy ychwanegol, gan gefnogi cymunedau lleol a'r economi leol ymhellach, ac yn sgîl hynny gefnogi ac annog busnesau lleol newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli, a'r economi yn gyffredinol.

11.8.5 Mae'r arafu a'r diffyg ymddangosiadol sy'n parhau o ran cyrraedd targedau'r CDLI, felly, yn awgrymu lleihad yn y manteision economaidd a ddaw o adeiladu tai, gydag effaith ar yr amcan hwn sy'n llai cadarnhaol ac yn fwy cymysg.

Dangosydd 52: Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr

11.8.6 Mae lefel y ddarpariaeth newydd o ran arwynebedd llawr cyflogaeth wedi syrthio o dan y targed am gyfnod o ddwy flynedd, a hynny ddwy flynedd yn olynol, sy'n awgrymu effaith negyddol ar seilwaith economaidd yr ardal leol. Bydd polisiâu'r CDLI yn cael eu hadolygu fel rhan o adolygiad ehangach y CDLI er mwyn asesu pa fesurau allai gael eu cymryd i roi sylw i'r mater hwn.

Dangosydd 58: Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu graddfa fach a ganiatawyd

11.8.7 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ni fu ceisiadau am ddatblygiadau manwerthu graddfa fach (gweler Adran 7.2) o gymharu â phedwar cais yn ystod 2017/18. Mae'r diffyg darpariaeth hwn o ran siopau bychain lleol yn debygol o greu gostyngiad yn y manteision economaidd lleol ac effaith niweidiol ar seilwaith economaidd lleol. Er nad yw hyn yn sbardun sy'n galw am adolygu'r polisi ar hyn o bryd, bydd yn parhau i gael ei fonitro.

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Amcan 8B yr AC: Datblygu a chynnal economi sy'n diogelu ochr yn ochr â chydweddu, hybu a gwella buddsoddiad mewn adnoddau lleol ac asedau amgylcheddol, a'r defnydd ohonynt

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
15	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy (preswyl)	Darparu 2,400 o unedau tai newydd erbyn 2026 Targedau Blynyddol: 2011/12: 0 2012/13: 3 2013/14: 72 2014/15: 100 2015/16: 125 2016/17: 140 2017/18: 170 2018/19: 190 2019/20: 215 2020/21: 215 2021/22: 215 2022/23: 225 2023/24: 235 2024/25: 245 2025/26: 250	Cyflwynwyd nifer sylweddol lai o unedau tai yng Nghoed Darcy nag y rhagwelwyd yn ystod y cyfnod monitro, ac mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd bellach wedi gostwng o dan y targed cronol 2 flynedd yn olynol. Mae'r prosiect yn dal i gael effeithiau economaidd cadarnhaol o ran adnoddau ac asedau lleol, ond mae'r diffyg datblygiad yn ddiweddar yn golygu bod ei effeithiau cyffredinol yn awr yn gymysg	
16	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy (cyflogaeth)	Bydd isafswm o 4 ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o 0.33 ha yn cael ei datblygu bob lwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 0.66 ha i gael ei datblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd	Ni fu datblygiadau cyflogaeth newydd yng Nghoed Darcy yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r diffyg cynnydd hwn yn golygu bod effeithiau'r polisi yn gymysg.	
19	Swm a math y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal	Darparu 385 o unedau tai newydd erbyn 2026 Targedau Blynyddol: 2011/12: 0 2012/13: 0 2013/14: 0 2014/15: 0 2015/16: 35 2016/17: 0 2017/18: 10 2018/19: 30	Ni fu datblygiadau tai newydd yng Nglannau'r Harbwr ers dwy flynedd yn olynol, er bod disgwyl i ddatblygiad preswyl sylweddol	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
	Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (preswyl)	2019/20: 30 2020/21: 50 2021/22: 50 2022/23: 50 2023/24: 50 2024/25: 50 2025/26: 30	ddigwydd yng Nglannau'r Harbwr mewn blynnyddoedd i ddod. Mae potensial o hyd i'r datblygiad gael effeithiau economaidd cadarnhaol o safbwynt adnoddau ac asedau lleol, ond mae'r diffyg cynnydd yn ddiweddar yn golygu bod ei effeithiau cyffredinol bellach yn gymysg	
20	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (cyflogaeth)	Bydd isafswm o 7 ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o 0.46 ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn am y blynnyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 0.92 ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd	Bellach ni ddatblygwyd tir at ddibenion cyflogaeth yng Nglannau'r Harbwr am 3 blynedd yn olynol. Fel yn achos datblygiad tai (Dangosydd 19), bernir bod potensial o hyd i'r datblygiad gael effeithiau economaidd cadarnhaol o ran adnoddau ac asedau lleol, ond mae'r diffyg cynnydd yn ddiweddar yn golygu bod ei effeithiau cyffredinol bellach yn gymysg.	
21	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (manwerthu)	Cyflawni'r datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr, yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref	Ni chymeradwywyd datblygiadau manwerthu newydd yng Nglannau'r Harbwr yn ystod y tair blynedd diwethaf, sy'n adlewyrchu'r un amgylchiadau economaidd ag a nodwyd yn Nangosyddion 19 a 20 uchod. Er bod rhan fanwerthu'r dyraniad yn gyfle pwysig o safbwynt economaidd, mae ei effeithiau wedi bod yn gymysg	
24	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd (preswyl)	Cyflawni 50 o unedau tai newydd, y haggwelir y byddant yn cychwyn o 2016/17	Er na fu datblygiadau tai newydd ar safle cynllun adfywio defnydd cymysg canol tref Castell-nedd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, deallir bod gwaith i gychwyn ar y safle yn fuan iawn, a bod disgwyl i'r cyfnod cyntaf gael ei gwblhau yn 2020/21. At ei gilydd, dylai'r datblygiad gyfrannu at fuddsoddi mewn adnoddau lleol a defnydd ohonynt.	
25	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd (manwerthu)	Cyflawni elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd: Cyfnod 1 - Erbyn 2016 (yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd)	Mae Cyfnod 1 wedi cael ei gwblhau, ac mae gwaith adeiladu Cyfnod 2 i gychwyn yn fuan. At ei gilydd, dylai'r datblygiad barhau i gyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		Cyfnod 2 - Erbyn 2020		
26	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan (preswyl)	Cyflawni 50 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2017/18	Mae'r gwaith ar elfen breswyl y cynllun bellach wedi'i gwblhau, a darparwyd cyfanswm ychydig yn is, sef 47 uned. At ei gilydd, dylai'r datblygiad gael effaith gadarnhaol ar fuddsoddi mewn adnoddau lleol a defnydd ohonynt	
27	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan (manwerthu)	Cyflawni elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot erbyn 2020	Mae elfen fanwerthu y datblygiad hwn hefyd wedi'i gwblhau i raddau helaeth, ac at ei gilydd, dylai'r datblygiad gael effaith gadarnhaol ar fuddsoddi mewn adnoddau lleol a defnydd ohonynt	
28	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan (preswyl)	Cyflawni 150 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2016/17	Bu oedi gyda'r cynllun hwn (gweler 5.1), ond rhagwelir y bydd yr unedau cychwynnol yn dechrau cael eu cyflwyno yn 2020/21, ac y bydd y safle wedi'i gwblhau yn 2023/24. At ei gilydd dylai'r datblygiad gyfrannu at fuddsoddi mewn adnoddau lleol a defnydd ohonynt	
29	Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan (twristiaeth/adloniant)	Cyflawni datblygiad twristiaeth / adloniant yn Lido Afan erbyn 2020	Mae elfen twristiaeth/hamdden arfaethedig y datblygiad yn Lido Afan i gael eu hadeiladu ochr yn ochr â'r datblygiad preswyl uchod. At ei gilydd, dylai'r datblygiad gyfrannu at fuddsoddi mewn adnoddau lleol a defnydd ohonynt	
30	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe i gael ei gyflawni erbyn 2015: Y gwaith i gychwyn ym mis Mai 2013 Yr adeiladau cyntaf wedi'u cwblhau ym mis Mai 2014 Cwblhawyd yr holl adeiladau heblaw'r rhai preswyl ym mis Mai 2015 Llety'r myfyrwyr wedi'i gwblhau ym mis Medi 2015	Mae Campws y Bae wedi agor ac yn cael ei ddefnyddio, gan wneud cyfraniad sylweddol i'r buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
38	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola	Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021	Ni chymeradwywyd y datblygiad hyd yma, gan nad oes Cytundeb A106 wedi'i lofnodi eto.	0
58	Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir	Ni chymeradwywyd ceisiadau sy'n cyd-fynd â'r diffiniad o ddatblygiad manwerthu graddfa fach yn ystod y cyfnod monitro. Mae hwn yn ostyngiad ers y llynedd ac ni fydd yn cael effeithiau cadarnhaol o ran buddsoddi mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
59	Nifer y ceisiadau twristiaeth a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylid caniatáu cynigion twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd pum datblygiad twristiaeth sy'n cydymffurfio â'r fframwaith polisi ac yn cyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
60	Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli cyfleusterau twristiaeth sy'n groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd 1 cais i newid defnydd adeilad o ddefnydd twristiaeth, ond gan gadw defnyddiau a fyddai'n parhau i gynnal y diwydiant twristiaeth.	
70	<p><i>Dangosydd Craidd:</i> Hyd a lled yr agregau cynradd a dynwyd o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN)</p> <p><i>Dangosydd Lleol:</i> Cyflenwad tir agregau</p>	Mae banc tir 10 mlynedd o gerrig wedi'u malu i gael ei gadw ar hyd cyfnod y Cynllun	Mae gan Gastell-nedd Port Talbot ffigur banc tir sydd dros 50 mlynedd, ar sail gwerthiant cyfartalog 3-blynedd (2016-18), a 41 mlynedd yn seiliedig ar werthiant cyfartalog 10-mlynedd (2009-2018) (gweler Adran 8.4). Dylai hynny helpu i sicrhau bod modd echdynnu'r adnoddau lleol hyn mewn modd cynaliadwy yn ôl y galw.	
71	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau a fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar weithio unrhyw adnodd mwynau yn y dyfodol	
72	Nid yw nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu agregau mwynau yn cydweddu â Pholisi M2	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chyflwynwyd ceisiadau am echdynnu agregau mwynau yn ystod y cyfnod monitro.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
73	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau	Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chymeradwywyd ceisiadau oedd yn groes i Bolisi M3.	

Dadansoddiad

11.8.8 Mae'r CDLI yn defnyddio model twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n edrych ar y cynnydd a ragwelir o ran swyddi a chyfraddau gweithgaredd economaidd, ac ar sail hynny'n nodi maint y boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer a ragwelir o swyddi. Defnyddir hyn yn ei dro i ragfynegi nifer y cartrefi newydd sy'n angenrheidiol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r amcan AC hwn yn ystyried i ba raddau mae adnoddau lleol ac asedau amgylcheddol yn cael eu defnyddio i gyflawni hyn.

11.8.9 Oddi mewn i Gastell-nedd Port Talbot, mae cryn dipyn o ddatblygu arfaethedig ar nifer o safleoedd tir llwyd mawr yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir. Mae'r rhain yn cynnwys datblygiadau defnydd cymysg yng Nghoed Darcy, Glannau'r Harbwr, Canol Tref Castell-nedd, Ysgol Glanafan a Lido Afan. Mae safle tir llwyd mawr ym Mae Baglan hefyd wedi'i ddyrannu ar gyfer defnyddiau cyflogaeth.

11.8.10 Mae'r datblygiad yng Nghoed Darcy a Glannau'r Harbwr wedi arafu yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, gan olygu mai effeithiau cymysg sydd wedi cael eu cofnodi ar gyfer y datblygiadau hyn mewn perthynas â'r dangosydd hwn eleni. Bydd y mater hwn yn cael ei asesu ac yn derbyn sylw yn ôl y galw yn yr adolygiad o'r CDLI sydd ar droed. Bernir bod y safleoedd maes llwyd eraill sy'n cael eu monitro yn gwneud cynnydd boddhaol.

11.8.11 Mae'r gostyngiad yn nifer y siopau bychain lleol a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi arwain at asesiad effaith negyddol (Dangosydd 58). Mae hyn yn debygol o arwain at leihau defnydd a datblygiad adnoddau economaidd lleol. Er nad yw hyn yn sbardun sy'n galw am adolygu'r polisi ar hyn o bryd, bydd yn parhau i gael ei fonitro.

Amcan 8C yr AC: Datblygu a chynnal economi sy'n datblygu sgiliau a gwybodaeth y gymuned leol, yn eu defnyddio, ac yn cydweddu â hwy

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
16	Swm a math y datblygiadau newydd a ganiateir ac a gyflawnir oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy (cyflogaeth)	Bydd isafswm o 4 ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o 0.33 ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda	Ni fu datblygiadau cyflogaeth newydd yng Nghoed Darcy yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r diffyg cynnydd hwn yn golygu bod effeithiau'r polisi yn gymysg.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Monitro'r Dangosydd	Targed	Sylwadau	Canlyniad
58	Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd	Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir	Ni chymeradwywyd ceisiadau sy'n cyd-fynd â'r diffiniad o ddatblygiad manwerthu graddfa fach yn ystod y cyfnod monitro. Mae hwn yn ostyngiad ers y llynedd ac ni fydd yn cael effeithiau cadarnhaol o ran buddsoddi mewn sgiliau a gwybodaeth	
59	Nifer y ceisiadau twristiaeth a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi	Ni ddylid caniatáu cynigion twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi	Cymeradwywyd pum datblygiad twristiaeth sy'n cydymffurfio â'r fframwaith polisi ac yn cyfrannu at y buddsoddiad mewn adnoddau lleol a'r defnydd ohonynt	
60	Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli cyfleusterau twristiaeth sy'n groes i'r fframwaith polisi	Ni chaniatwyd ceisiadau oedd yn arwain at gollu unrhyw gyfleusterau twristiaeth	

Dadansoddiad

11.8.12 Mae'r CDLI yn defnyddio model twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n edrych ar y cynnydd a ragwelir o ran swyddi a chyfraddau gweithgaredd economaidd, ac ar sail hynny'n nodi maint y boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer a ragwelir o swyddi. Defnyddir hynny yn ei dro i ragfynegi nifer y cartrefi newydd fydd yn angenrheidiol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Yn yr amcan AC hwn edrychir ar i ba raddau mae sgiliau a gwybodaeth y gymuned leol yn cael eu defnyddio i gyflawni hyn.

11.8.13 Mae'r datblygiad yng Nghoed Darcy a Glannau'r Harbwr wedi arafu yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, gan olygu mai effeithiau cymysg sydd wedi cael eu cofnodi ar gyfer y datblygiadau hyn mewn perthynas â'r dangosydd hwn eleni. Bydd y mater hwn yn cael ei asesu ac yn derbyn sylw yn ôl y galw yn yr adolygiad o'r CDLI sydd ar droed. Bernir bod y safleoedd maes llwyd eraill sy'n cael eu monitro yn gwneud cynnydd boddhaol.

11.8.14 Mae'r gostyngiad yn nifer y siopau bychain lleol a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi arwain at asesiad effaith negyddol (Dangosydd 58). Mae hyn yn debygol o arwain at leihau defnydd a gwella sgiliau a gwybodaeth lleol. Er nad yw hyn yn sbardun sy'n galw am adolygu'r polisi ar hyn o bryd, bydd yn parhau i gael ei fonitro.

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

RHAN 4 - Diweddglo ac Argymhellion

12 Diweddglo ac Argymhellion

12.0.1 Hwn yw'r trydydd AMB i gael ei baratoi ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu, ac mae'n gyfle i'r Cyngor asesu effaith y CDLI ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Fwrdeistref Sirol.

12.0.2 Ceir trosolwg o ganlyniadau'r monitro yn y tabl canlynol:

Tabl 12.0.1 Fframwaith Monitro'r CDLI

Asesu	Gweithredu	Nifer y Dangosyddion sydd yn y Categori
Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi	Dim angen camau pellach. Monitro i barhau	60
Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd.	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau.	1
Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol	2
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLI mor effeithiol ag y disgwyliid yn wreiddiol	Mae angen ymchwil ac ymchwilio pellach	0
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu	26
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLI yn cael ei gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y CDLI yn destun proses adolygu	0

12.0.3 Mae mwyafrif y dangosyddion yn dal i ddangos bod y polisi'n cael ei weithredu'n gadarnhaol. Fodd bynnag, mae sawl targed allweddol o ran dangosyddion polisi a chanlyniadau monitro, sy'n ymwneud yn bennaf â darpariaeth tai a datblygiad cysylltiedig â chyflogaeth sy'n dal heb eu cyflawni. Mae hyn yn dangos nad yw'r polisiâu dan sylw yn gweithredu'n unol â'r bwriad, ac yn yr achosion hynny mae'r monitro wedi cadarnhau y bydd angen rhoi sylw i'r materion polisi hyn fel rhan o adolygiad y CDLI.

12.0.4 Yn ogystal, mae un dangosydd yn dal i ddangos nad yw'r polisi'n cael ei weithredu mewn modd cyson, a bydd trafodaeth bellach yn digwydd gyda chydweithwyr Rheoli Datblygu, i ddatrys y mater. Lle mae dogfennau CCA yn dal i'w cynhyrchu, bydd y rheiny'n cael eu hystyried a'u paratoi cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Casgliad

12.0.5 Mae'r trydydd cam monitro hwn wedi dangos bod amcanion y CDLI, yn gyffredinol, yn dal i gael eu cyflawni i raddau helaeth. Mae mwyafrif y dangosyddion yn dal i ddangos bod y polisi'n cael ei weithredu'n gadarnhaol, sydd felly'n arwydd bod y CDLI yn cyflawni llawer o fanteision pwysig i gymunedau ar draws Castell-nedd Port Talbot.

12 . Diwedd glo ac Argymhellion

12.0.6 Ymhellach, mae'r cyfraddau diweithdra a gweithgarwch economaidd wedi gwella ers dyddiad sylfaen y Cynllun, ac er bod y ffigurau hyn yn destun amrywiadau blynnyddol, maen nhw'n arwydd o broffil economaidd llawer mwy cadarnhaol i'r ardal, a bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni amcanion y strategaeth sy'n cael ei harwain yn economaidd.

12.0.7 Fodd bynnag, mae sawl targed allweddol o ran dangosyddion polisi a chanlyniadau monitro, sy'n ymwneud yn bennaf â darpariaeth tai a datblygiad cysylltiedig â chyflogaeth sy'n dal heb eu cyflawni. Mae hyn yn arwydd nad yw'r polisiâu hyn yn gweithredu'n unol â'r bwriad, ac o ganlyniad, mae hynny'n tansellio gallu'r CDLI i gyflawni'r strategaeth ddelfrydol yn llawn.

Argymhelliad

12.0.8 Er mwyn sicrhau bod y CDLI yn cael ei ddiweddarau'n gyson, mae rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor i gynnal adolygiad llawn o'r Cynllun a fabwysiadwyd o leiaf bob pedair blynedd wedi'r mabwysiadu cychwynnol.

12.0.9 Yn achos Castell-nedd Port Talbot, felly, mae'r CDLI bellach yn destun cylch adolygu statudol llawn pedair blynedd, ac felly bydd angen asesu pob agwedd ar y Cynllun er mwyn ystyried a ydynt yn dal yn gadarn ac yn addas at y diben. Bydd hyn yn cynnwys y materion allweddol, gweledigaeth ac amcanion, y strategaeth (h.y. lefel a dosbarthiad twf), polisiâu, dyraniadau defnydd tir a dynodiadau.

12.0.10 Mae'n bwysig, felly, bod y Cyngor yn awr yn symud ymlaen gyda'r adolygiad statudol o'r CDLI, er mwyn rhoi sylw yn benodol i'r materion polisi a amlygwyd gan y monitro a wnaed hyd yma.



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council